Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Dyfed-Powys**

# Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 – 2027/28

**Gan gynnwys**

a. **Cynnig Praesept**
b. **Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn**
c. **Strategaeth Gyfalaf**

**Ionawr 2023**

## Cynnwys

1. Crynodeb a Chynnig Praesept y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
2. Y Cyd-destun Sefydliadol, y Cyd-destun Gweithredol a Chyd-destun y Gweithlu
3. Y Cyd-destun Ariannu a Phraesept yr Heddlu
4. Sylfaen y Dreth Gyngor
5. Y Dirwedd Economaidd
6. Heddlu Dyfed-Powys – Y Cyd-destun Ariannol
7. Setliad Ariannu'r Heddlu ar gyfer 2023/24 a'r Cyd-destun Cenedlaethol
8. Capio / Cynnal Refferendwm ar y Dreth Gyngor – y Sefyllfa yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr
9. Gofyniad Cyllideb 2023/24, Adolygiad o'r Heddlu a'r Cynllun Arbedion
10. Y Gyllideb Tymor Canolig a Rhagolygon
11. Y Setliad Ariannu yn y Dyfodol a'r Fformiwla Gyllido
12. Cynlluniau Arbedion yn y Dyfodol / Adolygiad o'r Heddlu a Thybiaethau
13. Cynlluniau Buddsoddi Cyfalaf
14. Effaith ar Gronfeydd Wrth Gefn
15. Crynodeb o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
16. Adran 25 a Risg Cyllidebol
17. Barn ac Ymgynghoriad Cyhoeddus
18. Casgliad

## Atodiadau

A. Cyllideb 2023/24 – 2027/28

B. Adran 25: Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid

C. Asesiad Risg o Gyllidebau Materol

D. Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn

E. Cronfeydd wrth gefn 2022/23 – 2027/28

F. Y Strategaeth Gyfalaf

G. Rhaglen Gyfalaf 2022/23 – 2031/32

# 1 Crynodeb a Chynnig Praesept y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

1.1 Rwy'n ymfalchïo'n farw mewn cael fy ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu am ail dymor, a byddaf yn parhau i ddatblygu cydberthynas waith agos gyda holl gymunedau'r ardal ddaearyddol eang a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae gweithio mewn partneriaeth ar draws pedair ardal Awdurdod Unedol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys wedi bod yn flaenoriaeth imi a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth imi. Rwy'n parhau'n ymrwymedig i roi llais cryf i'r cyhoedd wrth lunio ei wasanaeth plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach.

1.2 Mae Gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys (Dyfed-Powys) yn rhan annatod o'n cymunedau, ac mae'r gydberthynas unigryw hon o'r pwys mwyaf. Rhaid i'r cyhoedd barhau i fod yn ganolog i bopeth a wnawn a phob penderfyniad a wnawn. Mae darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein gweithredoedd a'n buddsoddiadau yn bwysig, a thrwy harneisio'r defnydd o dechnoleg a data i lunio ein gwasanaethau, rwy'n sicr y gellir gwneud rhagor o welliannau er mwyn sicrhau diogelwch ein hardal.

1.3 Rwyf wedi pennu'r cyfeiriad strategol a gosod blaenoriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu cyhoeddedig a fydd yn esblygu ac yn addasu i'r heriau dros y blynyddoedd i ddod, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau plismona a chyfiawnder troseddol yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ymwybodol o'r cyd-destun y maent yn gweithredu ynddo. Rwy'n hyderus y bydd dull partneriaeth yn arwain at well gwasanaeth i'n cymunedau.

1.4 Dechreuodd Dr Richard Lewis yn ei swydd fel Prif Gwnstabl ym mis Rhagfyr 2021, ac rydym yn parhau i gydweithio'n adeiladol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer cymunedau Dyfed-Powys. Mae wedi bod yn braf gweld llwyddiannau nodedig mewn perthynas ag adborth cadarnhaol gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ynglŷn â'r newidiadau strwythurol ym maes Plismona Bro, yn ogystal â newidiadau sy'n gysylltiedig â phrosesau trosedd o'r dechrau i'r diwedd a gwelliannau nodedig i gywirdeb data trosedd.

1.5 Ar ôl ailstrwythuro fy nhîm, bu'n flwyddyn brysur arall eto a dreuliwyd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau fy Nghynllun Heddlu a Throseddu newydd a chyflawni'r cyfrifoldebau amrywiol gan gynnwys mwy o weithgareddau craffu ac ymgysylltu. Mae'r adran Gwasanaethau a Gomisiynwyd yn parhau i adrodd am lefelau heriol o alw ac mae'n braf nodi bod fy swyddfa wedi gallu sicrhau cyllid ychwanegol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel y gellir parhau i gefnogi gwasanaethau ar lefel uwch.

1.6 Un o'm prif gyfrifoldebau allweddol fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu (Comisiynydd) yw pennu'r praesept bob blwyddyn. Y praesept hwn yw swm y trethiant a godir drwy drethdalwyr cynghorau lleol i gefnogi gwasanaethau plismona. Wrth wneud hynny, ystyriaf nifer o ffactorau gwahanol, gan gynnwys gofyniad adnoddau'r Prif Gwnstabl yn y dyfodol, lefel y cronfeydd wrth gefn,

adborth gan drigolion ardal Dyfed-Powys a chynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith.

1.7 Mae’r trefniadau statudol a sefydlwyd o dan y Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn nodi’r canlynol:

- Rhaid imi hysbysu’r Panel Heddlu a Throseddu o’m praesept arfaethedig erbyn 1 Chwefror.
- Rhaid i'r Panel Heddlu a Throseddu adolygu'r praesept arfaethedig erbyn 8 Chwefror.
- Os yw’r Panel Heddlu a Throseddu yn gosod feto ar y praesept arfaethedig, rhaid i mi hysbysu’r Panel Heddlu a Throseddu o’m praesept diwygiedig erbyn 15 Chwefror.
- Rhaid i'r Panel Heddlu a Throseddu adolygu'r praesept diwygiedig erbyn 22 Chwefror.
- Rhaid imi osod praesept erbyn 1 Mawrth.

1.8 Mae'r Prif Gwnstabl yn parhau i adrodd ar berfformiad ariannol yn fisol drwy'r Bwrdd Plismona ac yn chwarterol drwy Fwrdd Atebolrwydd Plismona. Mae rheolaeth ariannol a gwaith cynllunio ariannol tymor canolig yn cael eu goruchwylio gan y Bwrdd Cyllid a Strategaeth. Mae fy Mhrif Swyddog Cyllid yn parhau i weithio'n agos ac yn adeiladol gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r tîm Cyllid Corfforaethol.

1.9 Mae trafodaethau manwl wedi bod yn mynd rhagddynt drwy gydol 2022/23 mewn perthynas â rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Cynhaliwyd y rhain yn unol â’r strwythur llywodraethu ffurfiol, yn ogystal â chyfres o gyfarfodydd praesept a chyfarfodydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a hynny rhwng y Prif Gwnstabl, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Prif Swyddog Cyllid a minnau. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn ystod 2022 ar 29 Medi, 15 Tachwedd, 24 Tachwedd (seminar cyn cyllid), 13 Rhagfyr a 20 Rhagfyr (ar ôl y setliad, a dderbyniwyd ar 14 Rhagfyr).

1.10 Cynhaliodd y Prif Gwnstabl a minnau Seminar Cyllid rhithwir ar 30 Tachwedd 2021 ar gyfer aelodau’r Panel Heddlu a Throseddu, y Cyd-bwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru. Diben y digwyddiad oedd cynnig cyfle i'r heddlu gyflwyno crynodeb o'r amgylchedd gweithredol y maent yn gweithio ynddo a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar eu lefelau galw ac ar y gofynion adnoddau dilynol ar gyfer 2023/24 a’r tu hwnt.

1.11 Roedd y seminar hefyd yn ymdrin â’r camau a gymerwyd hyd yn hyn wrth baratoi cyllideb 2023/24 a’r sefyllfa ddrafft, gan gynnwys tybiaethau’r gyllideb, gwasgfeydd ariannol, y cyd-destun ariannu, arbedion, mesurau effeithlonrwydd a’r gofynion buddsoddi sylweddol sydd eu hangen i ategu’r gwaith o ddarparu gwasanaethau plismona. Cyflwynodd ein hymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys wybodaeth hefyd ar amrywiaeth o ystyriaethau economaidd ehangach ac ystyriaethau ariannol lleol. Rhoddodd y seminar hon gyfle gwerthfawr i gyflwyno gwybodaeth ar yr heriau a’r cyd-destun gweithredol ac ariannol, sy’n effeithio ar fy nghynlluniau ar gyfer y praesept ar gyfer 2023/24.

1.12 Yna, cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Is-grŵp Praesept y Panel Heddlu a Throseddu ar 7 Rhagfyr i drafod eu myfyrdodau a'u hystyriaethau yn deillio o'r Seminar Cyllid, gyda chyfarfod pellach ar 11 Ionawr 2023.

1.13 Mae Gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys wedi wynebu heriau ariannol sylweddol ers 2010 oherwydd gostyngiadau sylweddol mewn cyllid oddi wrth y llywodraeth ganolog, gwaddol y goblygiadau sy'n deillio o benderfyniadau a wnaed yn flaenorol, ynghyd â gwasgfeydd ariannol sylweddol a newidiadau parhaus yn y galw am wasanaethau plismona yn erbyn tirwedd ariannol ac economaidd heriol iawn.

1.14 Fel y gwyddom, mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn ddigynsail am amrywiaeth o resymau, ond yn anffodus mae 2022/23 wedi parhau yn yr un modd, gydag economi sy'n gwanhau, cyfraddau llog uwch a chwyddiant cynyddol. Mae effeithiau'r argyfwng costau byw yn bellgyrhaeddol ac maent hefyd wedi'u gosod yng nghyd-destun y Rhyfel yn Wcráin, y sefyllfa ar ôl Brexit, pandemig COVID-19 a helbul gwleidyddol, sydd i gyd wedi cyfrannu at dirwedd economaidd anwadal. Mae'r rhain yn cael effaith sylweddol ar bob gwasanaeth cyhoeddus, a byddant yn sicr yn effeithio ar gyllid y llywodraeth yn y dyfodol.

1.15 Gan gydnabod maint yr heriau ariannol yn y dyfodol, cyhoeddodd y Prif Gwnstabl Fwletin yr Heddlu ar 30 Mehefin 2022. Yn y bwletin, cyhoeddwyd yn ffurfiol bod Tîm Adolygu'r Heddlu wedi'i sefydlu i asesu pob maes gweithgaredd gan geisio arbedion effeithlonrwydd, arbedion cyffredinol a chyfleoedd trawsnewidiol. Cynhaliodd y Prif Gwnstabl Ddiwrnod i Uwch-arweinwyr ar 18 Hydref 2022 hefyd er mwyn canolbwyntio ar raddfa'r heriau ariannol sy'n ein hwynebu a harneisio syniadau y gallai Tîm Adolygu'r Heddlu eu datblygu.

1.16 Mae'n bwysig nodi bod y Prif Gwnstabl wedi cymryd nifer o gamau cynnar hefyd i gyfyngu'n rhagweithiol ar wariant yn ystod 2022/23, a allai wedyn liniaru beichiau ariannol yn ogystal â chyfrannu at leddfu gwasgfeydd ariannol untro. Rhoddais fesurau ar waith hefyd i gyfyngu gwariant yn fy swyddfa fy hun, a fydd yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd wrth ymdrin â'r heriau ariannol.

1.17 Mae'r heddlu bellach wedi nodi cynllun arbedion a lleihau costau mawr ac uchelgeisiol ar gyfer 2023/24 a'r tu hwnt. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod hwn yn llawer mwy sylweddol na'r cynlluniau a gyflawnwyd yn ystod unrhyw gyfnod o'r blaen, gan gynnwys ymgyrch Sage, y Cyhoedd yn Gyntaf a Gwario'n Ddoeth. Mae peth risg gynhenid i'r gwaith o gyflawni hyn, a fydd yn gofyn am reolaeth a goruchwyliaeth ofalus.

1.18 Cyhoeddwyd setliad dros dro 2023/24 gan y Gweinidog Troseddu a Phlismona ar 14 Rhagfyr 2022, gyda chyllid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cynyddu hyd at £523 miliwn yn ychwanegol, gan gynnwys y rhagdybiaeth ynghylch hyblygrwydd lleol i gynyddu praesept y dreth gyngor , fel a ganlyn:

- Byddai £349 miliwn yn dod o braesept y dreth gyngor, sef cynnydd o £15 fesul eiddo Band D
- £100 miliwn fel y nodir yn Adolygiad o Wariant 2021
- £140 miliwn o gyllid ychwanegol i gefnogi costau dyfarniad cyflog 2022/23, ond wedi'i ddyrannu drwy grant penodol a neilltuwyd ar gyfer Rhaglen Uplift yr Heddlu
- Gostyngiad o £70 miliwn oherwydd gwrthdroi'r cynnydd yn Yswiriant Gwladol y cyflogwr mewn perthynas â'r Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cynnydd o £4.4 miliwn mewn addasiadau i grantiau'r dreth gyngor a grantiau praesept

1.19 Er gwaethaf y prif ffigurau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog, roedd yn amlwg ar unwaith na fyddai'r symiau hyn yn darparu ar gyfer chwyddiant cyflogau a'r chwyddiant prisiau sylweddol na'r beichiau annisgwyl, nac yn ymdrin â'r galw am wasanaethau.

1.20 Mae setliad 2023/24 ar gyfer Dyfed-Powys £1.203 miliwn/1.9% yn uwch na 2022/23 ac yn cynnwys y canlynol:

- Cynnydd o £0.211 miliwn/0.3% yn y grant craidd
- Parhau'r grant penodol o £1.302 miliwn, a gyflwynwyd yn 2019/20 i liniaru'n rhannol y pwysau sy'n deillio o newidiadau i gyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer pensiynau swyddogion heddlu
- Grant penodol o £1.948 miliwn, sef cynnydd o £0.992 miliwn/103.7% o gymharu â 2022/23 i gefnogi swyddogion o dan Raglen Uplift yr Heddlu. Er ein bod yn aros am y telerau ac amodau diwygiedig, nododd y Gweinidog ddisgwyliadau y bydd niferoedd cyffredinol swyddogion heddlu yn cael eu cynnal ar lefel y dyraniadau y cytunwyd arnynt a bod y swyddogion ychwanegol hyn yn cael eu defnyddio i leihau troseddu a chyflawni ymrwymiad y Llywodraeth hon i gadw'r cyhoedd yn ddiogel.

1.21 Mae Heddlu Dyfed-Powys ar y trywydd iawn i recriwtio eu dyraniad o 137 o swyddogion (40, 40 a 57) o dan Raglen Uplift yr Heddlu erbyn 31 Mawrth 2023. Er bod yr ymrwymiad hwn wedi'i groesawu, erys pryderon bod dewisiadau sefydliadol yn cael eu llesteirio'n ormodol gan y ddeuoliaeth a'r gwrthdaro sy'n deillio o fodloni gofynion a disgwyliadau'r llywodraeth wrth ymdrin â maint yr heriau ariannol a wynebir a defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol.

1.22 Mae'r broblem hon wedi'i chymhlethu ymhellach gan y ffaith bod y grant penodol a neilltuwyd ar gyfer Rhaglen Uplift yr Heddlu o fewn setliad 2023/24 wedi cael ei ddyblu, yn enwedig gan mai diben y cyllid ychwanegol hwn oedd helpu i dalu costau dyfarniad cyflog swyddogion heddlu ar gyfer 2022/23. Mae mân amrywiaethau'r materion cymhleth hyn yn parhau i gael eu codi ar lefel genedlaethol.

1.23 Yn setliad grant yr heddlu, cyhoeddwyd y byddai gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn Lloegr hyblygrwydd o £15 fesul eiddo Band D wrth osod y

praesept, heb sbarduno’r angen am gynnal refferendwm lleol. Fodd bynnag, mae’n bwysig cydnabod bod y trefniadau rhwng Cymru a Lloegr yn wahanol a chânt eu hamlinellu ymhellach yn adran 8.

1.24 Mae dileu’r grant cyfalaf yn 2022/23 yn golygu bod yn rhaid talu costau cefnogi buddsoddiad seilwaith cyfalaf hanfodol mewn ystadau, y fflyd a thechnoleg gwybodaeth (prosiectau lleol a chenedlaethol) yn lleol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys trywydd sylweddol o gynnydd mewn cyfraniadau refeniw i gyfalaf dros y deng mlynedd nesaf, ynghyd â thybiaethau mewn perthynas â benthyca darbodus a chostau refeniw canlyniadol ariannu. Yn y pen draw, rhoddodd y ddau beth hyn bwysau ychwanegol sylweddol ar y gyllideb refeniw.

1.25 Yn siomedig, mae hwn yn setliad blwyddyn arall. Mae'r diffyg eglurder hwn yn golygu ei bod bron yn amhosibl gwneud penderfyniadau gwybodus a rhagweld dros y tymor canolig. Mae rhywfaint o ansicrwydd ariannol allweddol hefyd yn ymwneud â: gwaith ailbrisio pensiynau swyddogion heddlu sy'n parhau; y gwaith parhaus o adolygu’r fformiwla gyllido; a hefyd diffyg sicrwydd ynghylch grantiau penodol eraill sy'n sail i amrywiaeth o swyddogaethau plismona. Mae’n aneglur hefyd i ba raddau y bydd gwariant cyhoeddus yn cael ei gydgrynhoi yn y dyfodol o 2024/25 ymlaen.

1.26 Ar ôl gwaith craffu helaeth gan y Panel Heddlu a Throseddu, cefais fy nghefnogi’n unfrydol i osod praesept y dreth gyngor ar gyfer 2022/23 yn Nyfed-Powys o £290.16 ar gyfer eiddo Band D cyfartalog, dyma’r isaf yng Nghymru unwaith eto. Mae ariannu’r heddlu yn waith cymhleth gydag amrywiaeth o ffactorau, gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr, effaith penderfyniadau hanesyddol a sefyllfaoedd ariannol priodol i’w hystyried, sy'n ei gwneud yn anodd gwneud cymariaethau ystyrlon, ond mae adran 3 yn darparu rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol.

1.27 Wrth ddarparu eu cefnogaeth unfrydol ar gyfer 2022/23, nododd y Panel Heddlu a Throseddu'r canlynol hefyd:

- *“Mae’r Panel yn disgwyl i chi ail-werthuso’r rhaglen gyfalaf ar gyfer y blynyddoedd i ddod ac ystyried yn ddifrifol ganslo neu ohirio rhai elfennau ohoni, gan gydnabod y bydd yn rhaid i’r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol gael ei hariannu o refeniw oherwydd diflaniad cyllid cyfalaf y Swyddfa Gartref.*
- *At hynny, mae’r panel yn cydnabod nad yw’r Prif Gwnstabl newydd wedi cael y cyfle i gael dylanwad llawn ar y cynigion hyn, a dymuna’r panel eich annog i weithio gydag ef i ddod o hyd i ateb sy’n rhoi llai o faich ar drethdalwyr wrth gynnal gwasanaeth o safon dros y blynyddoedd i ddod.”*

1.28 Wrth gyflawni’r disgwyliadau hyn, rwyf wedi sicrhau ystod o fesurau:

- Rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn ac rwy'n hyderus ei fod bellach wedi cael cyfle i sicrhau bod gofyniad cyllideb yr heddlu nid yn unig yn cyd-fynd â'r Cynllun Heddlu a Throseddu, ond hefyd â'i flaenoriaethau ei hun ar gyfer yr heddlu.

- Rwyf hefyd yn hyderus bod y Prif Gwnstabl wedi dangos ymrwymiad rhagweithiol a dilys i fynd i’r afael â maint yr heriau ariannol, drwy gychwyn Adolygiad o’r Heddlu yn gynnar yn 2022. Mae’r mesurau caledi yn ystod y flwyddyn, a graddfa uchelgeisiol y cynllun arbedion ar gyfer 2023/24 a’r tu hwnt yn brawf o’r awydd i leihau’r baich ar y trethdalwr. Mae'r Prif Gwnstabl wedi parhau i bwysleisio ac atgyfnerthu'r angen am gyfyngiadau ariannol ac arbedion yn gyson.
- Rwyf wedi cymryd camau yn fy swyddfa fy hun i gyfyngu gwariant o fewn cyfnod 2022/23 ac ail-werthuso’n feirniadol ofynion y gyllideb ar gyfer 2023/24 er mwyn helpu i liniaru gwasgfeydd ariannol.
- Mae gwaith adolygu helaeth a diwydrwydd dyladwy wedi'i wneud gan y Grŵp Ystadau Strategol, y Grŵp Technoleg Gwybodaeth Strategol a'r Grŵp Fflyd Strategol i asesu'n feirniadol eu cyllidebau yn ystod y flwyddyn a'u gofynion buddsoddi yn y dyfodol, gan geisio blaenoriaethu a gohirio prosiectau heb rwystro gwaith cyflawni gweithredol a pheri risg ariannol a gweithredol diangen.
- Rwyf wedi cadeirio Bwrdd Meysydd Tanio Platinwm y Gyd-uned Arfau Tanio, sydd wedi ymgymryd â gwaith diwydrwydd dyladwy helaeth ar ei ofynion gweithredol a’r gofyniad ariannol dros y chwe mis diwethaf, ac mae fy Mhrif Swyddog Ariannol a’r heddlu yn aelodau annatod a gweithredol o strwythur llywodraethu prosiectau ehangach.
- Ar bob cam yn y gyfres o gyfarfodydd y Praesept a’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ac yn wir drwy’r gwaith craffu ac adolygu rwyf innau wedi’i wneud o’r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn, rwy’n cwestiynu’n feirniadol ac yn herio agweddau ar y gofyniad cyllideb refeniw, y strwythur cyflawni sefydliadol a’r rhaglen gyfalaf yn benodol, i sicrhau fy hun o'r gofynion, y cynnydd a'r cyflawniad yn y pen draw.
- Ar fy nghais i, mae'r heddlu wedi cynnal adolygiad beirniadol o'u gofynion o ran ystadau, ar y cyd â llunio'u cynllun cyflawni gweithredol a’u cynllun cyflawni strategol. Mae’n braf nodi bod y gwaith hwn bellach wedi dwyn ffrwyth, a bydd hyn yn fy ngalluogi i wneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas ag ad-drefnu ystadau a gofynion buddsoddi.

1.29 Er mwyn llywio fy ystyriaethau ar gyfer 2023/24 ac er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau fel Comisiynydd, ymgynghorais â’r cyhoedd i gael eu barn ar lefel y cynnydd ym mhraesept yr heddlu ac ar y blaenoriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu. Braf oedd gweld y cynnydd sylweddol yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad eleni, o ganlyniad uniongyrchol i waith hyrwyddo helaeth drwy amrywiaeth o gyfryngau. O’r 1,194 o ymatebwyr, mae 67.2% yn hapus i dalu rhwng 5% a 12.5% tuag at blismona lleol, ac mae 47.7% o’r rheini’n hapus i dalu rhwng 7.5% a 12.5%. Rwyf wedi ystyried yr ymatebion yn ofalus yn fy nhrafodaethau ar gyfer 2023/24, yn enwedig yng ngoleuni’r argyfwng costau byw presennol. Mae adran 22 o’r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau’r ymgynghoriad hwn.

1.30 Erbyn y pwynt hwn yn ystod y flwyddyn ariannol, mae’r heddlu wedi bod o dan bwysau gweithredol a sefydliadol, gan gynnwys galw gweithredol uchel yn ystod misoedd yr haf, darparu cefnogaeth cyd-gymorth ar gyfer digwyddiadau cenedlaethol, pwysau canlyniadol yn deillio o swyddi gwag a ddelir, yn ogystal

â chostau ychwanegol sylweddol yn deillio o'r cynnydd eithriadol mwn cyflogau a chwyddiant. Er bod nifer o ragdybiaethau yn parhau o hyd wrth i ni ddod i'r ychydig fisoedd olaf, mae'r Prif Gwnstabl a minnau'n hyderus y bydd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn gadarnhaol, o ganlyniad uniongyrchol i'r camau rhagweithiol a gymerwyd i ymdrin â'r heriau ariannol. Y gobaith yw y bydd hyn yn fy ngalluogi i greu rhywfaint o gronfeydd wrth gefn i liniaru rhai o'r gwasgfeydd ariannol untro yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

1.31 Byddaf yn parhau i adolygu fy Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn a'm safbwyntiau yn eu cylch, ac rwyf wedi ceisio ail-flaenoriaethu a defnyddio arian fel y bo'n briodol, wrth barhau i ganolbwyntio ar reoli arian mewn ffordd ddarbodus ac ymdrechu i sicrhau cadernid ariannol ar gyfer y dyfodol.

1.32 Rwy'n ingol ymwybodol o'r pwysau y mae'r argyfwng costau byw yn ei roi ar ein cymunedau. Yn anffodus, mae'r heriau hyn wedi ein taro'n galed ac er gwaethaf gwaith cynllunio ariannol gofalus, bydd penderfyniadau cynyddol anodd ei gwneud dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae angen cadw cydbwysedd gofalus rhwng sicrhau gwasanaeth plismona effeithlon ac effeithiol a sicrhau diogelwch y cyhoedd, wrth hefyd sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr a rheolaeth ariannol gadarn. Rwy'n hyderus ynghylch cadernid y Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn, sydd wedi'i gyflwyno'n eglur iawn, ond nid yw hyn yn dibrisio nac yn lliniaru'r heriau a'r ansicrwydd ariannol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.

1.33 **Felly, rwy'n cyflwyno fy nghynnig praesept i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys graffu arno, a fydd yn codi'r praesept ar gyfer eiddo cyfartalog ym Mand D gan £1.87 y mis, neu £22.49 y flwyddyn, i £312.65, sef cynnydd o 7.75%. Bydd cyfanswm praesept o £72.518 miliwn yn cael ei godi drwy'r cynnydd hwn. O ganlyniad, bydd cyfanswm o £133.414 miliwn o gyllid ar gael, sef cynnydd o £5.970 miliwn/4.68% ar gyfer 2023/24.**

1.34 Mae'r dirwedd ariannol yn parhau i fod yn anrhagweladwy a heriol. Bydd y lefel hon o gyllid yn ei gwneud yn bosibl i'r heddlu ganolbwyntio ar gyflawni fy Nghynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer 2021-2025 ynghyd â blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl, gan barhau i ddiogelu cymunedau ardal Dyfed-Powys. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda chyllid ar y lefel hon, mae angen cael cynllun arbedion uchelgeisiol, gan gynnwys lleihau rhai gwasanaethau, drwy broses a reolir ar sail risg.

1.35 Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth angenrheidiol i aelodau Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i'w galluogi i graffu ar fy nghynnig praesept a darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r cyd-destun gweithredol ac ariannol, sy'n sail i'r gofynion adnoddau a'r tybiaethau ar gyfer 2023/24 a'r tu hwnt.

## 2. Y Cyd-destun Sefydliadol, y Cyd-destun Gweithredol a Chyd –destun y Gweithlu

2.1 Mae rhanbarth Heddlu Dyfed-Powys yn cwmpasu 4,188 milltir sgwâr, a dyma yw'r ardal heddlu ddaearyddol fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn wynebu heriau sylweddol o ran galw ac adnoddau o ganlyniad i ddaearyddiaeth y rhanbarth, gyda 13,842 o filltiroedd o ffyrdd, dau borthladd mawr, 350 milltir o arfordir ac ardaloedd helaeth o gefn gwlad.

2.2 Mae'r 518,062 o bobl sy'n byw yma wedi'i gwasgaru ar draws ardaloedd gwledig helaeth, trefi gwyliau a threfi marchnad ac ardaloedd mwy poblog. Mae atyniad twristiaeth yn esgor ar ofynion unigryw, gyda nifer mawr o dwristiaid yn ymweld â'r prif drefi. Mae hyn yn esgor ar ei oblygiadau ei hun o safbwynt troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phlismona ffyrdd.

2.3 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio mewn partneriaeth â phedwar awdurdod lleol, ac mae ganddo unedau rheoli sylfaenol lleol cydffiniol. Y tu hwnt i'r pedair sir, mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn cydweithio ar sail Cymru gyfan mewn perthynas â chyfrifoldebau plismona.

2.4 **Mae gofynion y gwasanaeth yn parhau i dyfu a dod yn fwyfwy cymhleth. Mae'r heddlu wedi gweld cynnydd yn y troseddau a gofnodir o flwyddyn i flwyddyn, gyda digwyddiadau'n ymwneud â salwch meddwl, ac ymholiadau mwy cymhleth i gam-fanteisio'n rhywiol ar blant a seiberdroseddu. Mae newidiadau i'r ffordd y caiff troseddau eu cofnodi'n genedlaethol wedi effeithio ar y lefelau troseddu a gyhoeddir ac maent yn gyfrifol am rywfaint o'r cynnydd. Mae'r gwaith o wella cywirdeb data troseddu yn parhau ac, o ganlyniad iddo ganolbwyntio ar bobl sy'n agored i niwed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r heddlu wedi sicrhau cynnydd cadarnhaol mewn adrodd a chofnodi troseddau.**


2.5 Mae'r gwasanaeth yn parhau i esblygu'n gyflym er mwyn ei alluogi i ymateb i risgiau a bygythiadau newydd, a newidiadau mewn technoleg, y mae llawer ohonynt wedi'i gwneud yn ofynnol i weithio mewn ffyrdd newydd.

2.6 Mae'r model plismona bro yn ganolog i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ac mae swyddogaethau ymateb, ymchwilio i droseddau a diogelu yn ategu'r gwaith hwn. Cyhoeddodd y Comisiynydd ei Gynllun Heddlu a Throseddu newydd ddiwedd 2021; mae'r blaenoriaethau canlynol yn sail i bob agwedd ar waith cyflawni gweithredol a sefydliadol:

- Mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi.
- Mae niwed yn cael ei atal.
- Mae ein system gyfiawnder yn fwy effeithiol.

2.7 Er mwyn bodloni’r blaenoriaethau yng Nghynllun Heddlu a Throseddu newydd y Comisiynydd, mae'r Prif Gwnstabl, ar ôl ymgynghori â'r holl uwch-reolwyr, wedi nodi nifer o flaenoriaethau sy’n ategu ei gilydd. Mae'r heddlu’n parhau i ddatblygu ei gynlluniau cyflawni manwl.

**Llun 1**




2.8 Yn ystod 2020-2023, symudodd ffocws sefydliadol yr heddlu oddi wrth y pandemig – sydd bellach yn cael ei reoli fel busnes fel arfer – tuag at yr argyfwng costau byw sy'n effeithio ar y cyhoedd, y gweithlu ac ar gostau darparu gwasanaethau plismona.

2.9 Mae’r Swyddfa Gartref wedi canolbwyntio a chraffu o'r newydd ar berfformiad yr heddlu, a disgwylir y bydd hyn yn parhau, mewn perthynas â'r Cynllun Curo Trosedd, gyda gwaith sylweddol yn cael ei wneud ar gynhyrchiant gweithredol a chanlyniadau gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Ar lefel genedlaethol, mae llawer o sylw’n cael ei roi i ddilysrwydd gwasanaeth yr heddlu o safbwynt hil a chynhwysiant yn ogystal â thrais yn erbyn menywod a merched. Roedd yn bwysig ystyried y rhan y mae plismona’n ei chwarae yng nghyd-destun ‘gwasanaeth yr adnodd olaf’ mewn perthynas â'r dirwedd bartneriaeth, yn enwedig ar adeg o straen ariannol difrifol.

2.10 O safbwynt nifer y troseddau, mae'r galw ar yr heddlu bron wedi dyblu ers 2017, a hynny'n gysylltiedig â mathau newydd o droseddau, megis stelcio ac aflonyddu a newidiadau mewn arferion cofnodi, fel y mae'r tabl isod yn dangos. Mae hyn yn cael effaith ar lesiant a llwythi gwaith swyddogion / staff wrth iddynt ymdrin â lefelau uwch o gymhlethdod a risg a mwy o bobl sy'n agored i niwed .

## Tabl 1 – Troseddau a gofnodwyd

**Heddlu Dyfed Powys**

| | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y troseddau a gofnodwyd (ac eithrio twyll) | | | | | | |
| **Trais yn erbyn yr unigolyn** | **7,642** | **9,169** | **11,774** | **13,561** | **17,393** | **21,356** |
| Dyladdiad | 1 | 4 | 5 | 8 | 3 | 8 |
| Trais ag anaf | 2,934 | 3,045 | 3,295 | 3,292 | 3,316 | 4,045 |
| Trais heb anaf | 3,410 | 3,786 | 4,967 | 5,693 | 5,824 | 7,069 |
| Stelcio ac aflonyddu | 1,294 | 2,334 | 3,505 | 4,566 | 8,249 | 10,231 |
| Marwolaeth neu anaf difrifol – gyrru anghyfreithlon | 3 | 0 | 2 | 2 | 1 | 3 |
| **Trosedd rhywiol** | **957** | **977** | **1,109** | **1,259** | **1,344** | **1,728** |
| **Lladrad** | **55** | **50** | **66** | **62** | **52** | **66** |
| **Troseddau lladrata** | **6,799** | **7,827** | **7,580** | **6,544** | **5,587** | **6,474** |
| **Difrod troseddol a llosgi bwriadol** | **3,680** | **4,237** | **4,001** | **3,851** | **3,942** | **4,757** |
| **Troseddau cyffuriau** | **1,684** | **1,865** | **1,902** | **2,107** | **2,025** | **1,643** |
| **Troseddau meddu ar arfau** | **144** | **136** | **225** | **246** | **274** | **250** |
| **Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus** | **897** | **1,303** | **1,892** | **2,551** | **4,465** | **5,834** |
| **Troseddau amrywiol** | **544** | **507** | **710** | **883** | **825** | **829** |

2.11 Cafwyd llwyddiannau nodedig mewn perthynas ag adborth cadarnhaol gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ynglŷn â newidiadau strwythurol i Blismona Bro, yn ogystal â newidiadau sy’n gysylltiedig â phrosesau troseddu o’r dechrau i’r diwedd. Cafodd ymdrech sylweddol ei gwneud i gyrraedd y cynnydd targed wedi’i ariannu o 137 o swyddogion heddlu yn Nyfed-Powys, yn ogystal â 15 Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu ychwanegol wedi’u hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r heddlu hefyd wedi adennill ei achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl.

2.12 Mae’r heddlu eisoes wedi rhoi cynlluniau pwysig ac uchelgeisiol ar waith i fuddsoddi mewn pobl, technoleg newydd a seilwaith. Mae’r rhain yn cynnwys dalfeydd newydd yn Sir Gaerfyrddin a De Powys, system rheoli cofnodion newydd, seilwaith teleffoni’r ystafell reoli, Office 365, gwella cywirdeb data troseddu, ymdrin â phobl sy’n agored i niwed, hyfforddiant arfau tanio, craffu ar berfformiad a galluoedd y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r buddsoddiadau hyn yn hanfodol er mwyn galluogi'r Heddlu i gynnal amgylchedd gwaith a phlatfform technoleg sy’n addas i'r diben ar gyfer y dyfodol.

2.13 Mae'r heddlu wedi cwblhau ei Ddatganiad Rheoli'r Heddlu ar gyfer 2022, ac ynddo nodwyd heriau galw allweddol yn cwmpasu gallu dadansoddol, pwysau

galw yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, seilwaith, galw nas adroddwyd, a gofynion hyfforddiant a oedd yn cael eu datblygu.

**Llun 2 – Datganiad Rheoli'r Heddlu**

| Thema | Disgrifiad |
|---|---|
| Capasiti dadansoddol | Mae llawer o feysydd busnes nad oes ganddynt allu dadansoddol ar hyn o bryd i gyflawni rhywfaint o'u gwaith rheoli galw neu waith adrodd ar lefel fewnol a chenedlaethol. Mae'r cynnydd mewn data a data digidol wedi golygu bod hyd yn oed rhai meysydd o'r busnes nad oedd angen galluoedd dadansoddol arnynt yn y gorffennol, bellach eu hangen. |
| Amodau costau byw / economaidd | Mae amodau costau byw / economaidd amrywiol yn effeithio ar yr heddlu ar hyn o bryd. Gallai'r cynnydd presennol mewn costau byw ynghyd â'r nifer sylweddol o swyddogion ifanc iawn ar bwyntiau cyflog is beri problemau o safbwynt staff sy'n wynebu anawsterau ariannol.<br>Mae'r galw o fewn Heddlu Dyfed-Powys wedi cynyddu oherwydd bod nifer cynyddol o geiswyr lloches wedi cael eu lleoli yn yr ardal.<br>Mae risg ar hyn o bryd i'r ystâd hefyd a'i effeithlonrwydd o ran defnyddio nwy, trydan a thanwydd, a chysylltiad uniongyrchol y defnydd hwnnw â phrisiau cynyddol. |
| Galw / capasiti | Mae problemau galw a chapasiti ar draws yr heddlu lle disgwylir i'r galw yn y dyfodol fod yn fwy na'r capasiti presennol. Bydd angen gwneud gwaith i bennu a all unrhyw gamau a gymerir i symleiddio prosesau helpu mewn unrhyw sefyllfa lle mae'n bosibl na fydd modd cael adnoddau ychwanegol. Mae hyn hefyd yn wir mewn rhai meysydd busnes o ran y lefelau galw presennol a'r capasiti sydd ar gael i ymdrin â'r galw hwnnw. |
| Asedau nad ydynt yn ddynol | Mae diffyg cadernid o safbwynt rhywfaint o'r offer ar draws yr heddlu, ac mae angen mynd i'r afael â hynny. Mae pryderon mewn perthynas â gweithredu'r system NicheRMS a'r galw dilynol sy'n gysylltiedig â'r newid hwn. Mae systemau eraill wedi dyddio neu nid ydynt yn addas i'r diben. Mae problemau teleffoni nad yw cyflenwr ein system teleffoni brys a rheoli cysylltiadau yn gallu darparu datrysiad ymarferol iddynt. Mae pryderon hefyd ynghylch ystâd sy'n heneiddio a diffyg capasiti i sicrhau bod adrannau neu gyfleusterau storio penodol yn gweithio'n effeithlon. Mae'r meysydd hyn eisoes yn cael sylw. |
| Galw cudd | Mae'r gwaith a wneir gan y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau yn parhau i fod yn anweledig a heb ei gydnabod ar draws ardaloedd plismona lleol. Mae hyn yn peri risg uchel i'r heddlu gan ei fod yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch adnoddau a pholisïau. Nid yw effaith yr Adolygiad o'r Heddlu yn amlwg eto, a gallai hyn gael effaith ar alw ac adnoddau.<br>Gall fod risg hefyd fod niwed cudd yn digwydd mewn rhai o'n cymunedau ond nad yw'n cael ei adrodd i ni. |
| Hyfforddiant | Mae diffyg ditectif gwnstabliaid achrededig PIP Lefel 2 yn yr heddlu. Hefyd, o fewn yr heddlu, mae gennym chwe swyddog yn yr Uned Plismona Ffyrdd nad ydynt eto wedi'u hyfforddi mewn ymlid tactegol a chyfyngu. Mae cyflwyno hyfforddiant Niche yn gosod galwadau mawr ar diwtoriaid, aseswyr a hyfforddwyr ac yn lleihau'r cyfleoedd i gyflwyno pynciau eraill ar ddiwrnodau hyfforddiant. |

2.14 Er gwaethaf y ffaith bod y sefyllfa'n gwella o ran asesiadau'r Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), mae angen cyflawni llawer o waith allweddol er mwyn sicrhau ei bod yn gwella ymhellach.

**Llun 3 – Asesiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS)**

| | Cwestiwn craidd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) | Graddfa Asesiad Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu, Heddlu-Dyfed Powys 2021 / 2022<br>*(Graddfa dros dro lle cafwyd gwelliant fel rhan o gynllun gweithredu ailarolygiad)* |
|---|---|---|
| **1** | Darparu gwasanaeth i ddioddefwyr troseddau | **Digonol** (** wedi gwella o radd 'angen gwelliant') |
| | Cywirdeb data troseddu | **Digonol** (** wedi gwella o radd 'annigonol]) |
| **2** | Ymgysylltu â'r cyhoedd a'u trin â thegwch a pharch | **Angen gwella** |
| **3** | Atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | **Da** |
| **4** | Ymateb i'r cyhoedd | **Da** (** wedi gwella o radd 'digonol') |
| **5** | Ymchwilio i droseddau | **Digonol** (** wedi gwella o radd 'angen gwelliant') |
| **6** | Diogelu pobl sy'n agored i niwed | **Da** |
| **7** | Rheoli troseddwyr a phobl o dan amheuaeth | **Digonol** (** wedi gwella o radd 'angen gwelliant') |
| **8** | Tarfu ar droseddau difrifol a chyfundrefnol | **Digonol** |
| **9** | Bodloni'r gofyniad plismona strategol | Heb ei raddio |
| **10** | Diogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau arfog | Heb ei raddio |
| **11** | Meithrin, cefnogi ac amddiffyn y gweithlu | **Da** |
| **12** | Cynllunio strategol, rheolaeth sefydliadol a gwerth am arian | **Digonol** |

2.15 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod yr effaith ddifrifol y mae'r argyfwng costau byw yn ei chael ar y cyhoedd, staff a chyllidebau, a hynny mewn amgylchedd gweithredu heriol i staff a swyddogion. Mae gan yr heddlu gynllun, blaenoriaethau a chanlyniadau clir i'w cyflawni, wedi'u hategu gan drefniadau llywodraethu clir a chynllun cyflawni. Mae'r heddlu'n parhau i wella, yn gweithio'n galed ac yn gwneud cynnydd mewn perthynas â sgorau asesiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ac yn erbyn lefelau galw cynyddol.

2.16 O ystyried yr argyfwng costau byw a'i effaith ar gyllidebau sylfaenol, gwnaed penderfyniadau sylweddol ac anodd er mwyn cadw swyddi gwag staff heddlu nad ydynt yn hanfodol yn wag. Mae hyn yn creu llwyth gwaith cynyddol a phwysau ar staff ar adeg o alw cynyddol. Mae Tîm Adolygu'r Heddlu wedi bod

yn gweithio ers mis Mehefin 2022, gyda'r bwriad o nodi gostyngiadau mewn costau a gwasanaethau gwerth cyfanswm o £10 miliwn dros dair blynedd – gyda thua £5.9 miliwn o'r rhain i'w cyflawni yn ystod 2023/24. Mae arbedion o'r maint hwn yn llawer uwch na'r rhai a gyflawnwyd yn flaenorol a bydd yn heriol ac yn beryglus iawn i'w cyflawni yn yr hinsawdd bresennol. Roedd cyfyngiad ar y gostyngiadau cost y gall yr heddlu eu gwneud yn ddiogel, ac roedd angen sicrhau cydbwysedd pwysig rhwng risgiau ariannol a gweithredol.


### Llun 4 – Cynllun lleihau costau




## 3 Y Cyd-destun Ariannu a Phraesept yr Heddlu

3.1 Mae’r heriau ariannol wedi’u dogfennu’n dda, ac mae’r graff canlynol yn nodi cyd-destun cyllid grantiau ers Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 (CSR2010):


**Graff 1: Gostyngiadau yn y grant canolog rhwng 2010/11 a 2026/27**




3.2 Cyflwynodd y gostyngiadau termau real heriau a oedd hyd yn oed yn fwy sylweddol, gan fod angen rhoi cynlluniau effeithlonrwydd / arbedion cynhwysfawr ar waith a gwneud gostyngiadau er mwyn gwrthbwyso’r cynnydd mewn chwyddiant, a hynny yng nghyd-destun galw newidiol a chynyddol gymhleth am wasanaethau plismona. Mae’n bwysig nodi hefyd mai diben y cynnydd yng nghyllid yr heddlu dros y blynyddoedd diwethaf oedd cefnogi Rhaglen Uplift yr Heddlu, a bod disgwyliadau, targedau a gofynion clir iawn ar gyfer recriwtio swyddogion heddlu ynghlwm wrth hynny.

3.3 Mae’r graff canlynol yn dangos sut mae cyfran yr incwm y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei dderbyn o ffynonellau canolog, o’i chymharu â ffynonellau lleol, wedi newid dros amser:

**Graff 2: Cyfran praesept y dreth gyngor o’i chymharu â chyllid llywodraeth ganolog (%)**





3.4 Yn hanesyddol, cyllid llywodraeth ganolog oedd yn cyfrif am y mwyafrif helaeth o gyllid Heddlu Dyfed-Powys, ond mae’r gyfran a dderbynnir o grantiau craidd wedi gostwng yn sylweddol dros amser. Mae canran y cyllid sy’n cael ei godi drwy drethi lleol wedi codi’n sylweddol dros amser. Mae'n debygol y bydd y rhaniad cyfrannol neu'r trywydd ‘gerio’ yn parhau i gynyddu, gan fod angen i gyfran fwy o’r cyllid ddod o’r trethdalwr lleol. Mae hefyd yn bwysig nodi eto mai diben y cynnydd mewn grantiau craidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf oedd cefnogi Rhaglen Uplift yr Heddlu, ac felly nid ydynt wedi cael eu defnyddio i wrthbwyso beichiau chwyddiant a chostau eraill.

3.5 Mae cyfran y cyllid a godir drwy'r dreth gyngor yn amrywio'n sylweddol rhwng heddluoedd yn genedlaethol. Mae’r dreth gyngor yn Northumbria yn cyfrif am 19% o gyfanswm eu cyllid. Mae’n 20.7% yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a 23% yng Nglannau Mersi. Mewn cyferbyniad â hynny, mae 56% o'r cyllid yn dod o’r dreth gyngor yn Surrey, mae’n 52% yn ardal Dyfed-Powys a 51% yng Ngogledd Cymru. Ar gyfartaledd, mae 35% o arian cyllidebau yn dod o’r dreth gyngor. Mae heddluoedd Lloegr hefyd yn elwa ar grantiau rhewi’r dreth gyngor / grantiau cymorth sy'n amlwg yn effeithio ar lefelau praesept hanesyddol, sy'n golygu'n gyffredinol bod eu praeseptau yn llai.

3.6 Mae’r graff canlynol yn dangos swm y cyllid y mae Heddlu Dyfed-Powys wedi’i dderbyn gan ffynonellau lleol a chanolog dros amser:

**Graff 3: Praesept y dreth gyngor o’i gymharu â chyllid grant canolog (£)**





3.7 Mae'r tabl canlynol yn dangos bod swm y cyllid o grantiau craidd fesul pen o'r boblogaeth ar gyfer ardal Dyfed-Powys yn parhau i fod yr isaf yng Nghymru. Pe bai ardal Dyfed-Powys yn cael ei hariannu ar y lefel gyfartalog ar gyfer Cymru, byddai hyn yn cyfateb i £10.4 miliwn ychwanegol o gyllid grant craidd:

**Tabl 2: Cyllid o grantiau craidd fesul pen o'r boblogaeth**

| Cyllid grant fesul pen o'r boblogaeth (£) | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| Heddlu Dyfed Powys | 110.05 | 116.57 |
| Heddlu Gwent | 139.41 | 147.68 |
| Heddlu Gogledd Cymru | 118.97 | 126.02 |
| Heddlu De Cymru | 136.5 | 144.59 |
| Cymru | **128.8** | **136.43** |

3.8 Mae trigolion yn ardal Dyfed-Powys wedi gweld y deuddegfed cynnydd isaf ym mhraesept yr heddlu ar gyfer Band D ers 2012/13 ac mae’r tabl isod yn amlygu’r sefyllfa gymharol gyda’r heddluoedd mwyaf tebyg, a’r heddluoedd eraill yng Nghymru. Dylid nodi bod heddluoedd Lloegr hefyd yn derbyn grantiau rhewi’r dreth gyngor / grantiau cymorth nad ydynt wedi’u cynnwys yn y ffigurau isod:

**Graff 4: Y cynnydd Cenedlaethol yn y praesept ar gyfer Band D (%)**



*Gwyrdd – heddluoedd Cymru (MOPAC – Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer – Llundain)


3.9 Mae trigolion yn ardal Dyfed-Powys yn parhau i fod â phraesept yr heddlu isaf yng Nghymru. Pe bai lefel praesept ardal Dyfed-Powys yn cael ei gosod ar gyfartaledd Cymru, byddai hyn yn cyfateb i £3.1 miliwn ychwanegol o gyllid.

**Tabl 3: Lefelau'r praesept yng Nghymru**

| Y dreth gyngor ar gyfer Band D (£) | 2021/22 | 2022/23 | % |
|---|---|---|---|
| Heddlu Dyfed Powys | 275.56 | 290.16 | 5.30% |
| Heddlu Gwent | 287.96 | 303.80 | 5.50% |
| Heddlu Gogledd Cymru | 302.61 | 316.80 | 4.69% |
| Heddlu De Cymru | 287.72 | 302.11 | 5.00% |
| Cymru | **289.06** | **303.69** | 5.06% |


3.10 Mae'r graff canlynol yn dangos y newid canrannol yn lefelau'r praesept o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer yr heddluoedd yng Nghymru.

**Graff 5: Y newidiadau yn y praesept ar draws Cymru o flwyddyn i flwyddyn (%)**




3.10 Mae'r graff canlynol yn dangos y newid yn lefelau'r praesept ar gyfer yr heddluoedd yng Nghymru ers 2012/13. Mae'r penderfyniad blaenorol a wnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddu cyntaf i leihau'r praesept 5% yn 2015/16 ac yna i beidio â'i gynyddu yn 2016/17, wedi cael effaith ddramatig ar y trywydd cymharol fel mae'r graff isod yn dangos, ac mae gwaddol y penderfyniadau hyn yn parhau i gael effaith:

**Graff 6: Y cynnydd yn lefelau'r praesept ar draws Cymru**




## 4 Sylfaen y Dreth Gyngor

4.1 Mae praesept yr heddlu, a godir drwy drethdalwyr y cyngor lleol, yn cael ei ddyrannu i'r cynghorau bilio ar sail y sylfeini trethu perthnasol a hysbysir ganddynt. Mae'r sylfaen drethu yn cael ei chyfrifo ar sail nifer yr eiddo ym mhob ardal ac sydd wedi'u dyrannu i bob band eiddo, gan ddefnyddio ffactorau ar gyfer meddiannaeth sengl, cartrefi gwag, premiymau ar ail gartrefi a thybiaethau o ran cyfraddau casglu yng nghyd-destun ffactorau economaidd a datblygu. Mynegir y sylfaen drethu yn nhermau swm cyfatebol "Band D" canlynol:

**Tabl 4: Lefelau sylfeini trethu**

| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 74,425.19 | 74,698.57 | 75,071.95 | 0.50% |
| Ceredigion | 31,911.26 | 32,063.08 | 32,767.99 | 2.20% |
| Sir Benfro | 57,188.46 | 60,247.38 | 59,851.19 | -0.70% |
| Powys | 62,584.26 | 63,072.19 | 64,256.51 | 1.90% |
| Y Sylfaen Drethu | **226,109.17** | **230,081.22** | **231,947.64** | **0.80%** |
| | 0.20% | 1.80% | 0.80% | |

4.2 Mae praesept yr heddlu yn cael ei ychwanegu at y ffigurau ar gyfer yr awdurdodau unedol ac mae'n ffurfio rhan o filiau galw am dalu'r dreth gyngor.

4.3 O dan y rheoliadau, rhaid i'r awdurdod bilio bennu amserlen randaliadau ar gyfer talu awdurdodau praeseptio. Y cytundeb yw y bydd yr awdurdodau unedol yn talu'r heddlu mewn 12 rhandaliad ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis, neu cyn hynny.

4.4 Dylid nodi hefyd, wrth gyhoeddi setliad yr heddlu, bod y llywodraeth yn gwneud tybiaethau ynghylch y newidiadau i'r sylfaen drethu, gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Tybiwyd cynnydd o 0.5% ar gyfer Cymru, ond mae ffigur y cynnydd gwirioneddol ar gyfer ardal Dyfed-Powys ychydig yn uwch, sef 0.8%. Er mwyn gosod cyd-destun cymharol, 1.1% yw ffigur y cynnydd tybiedig ar gyfer Lloegr.


## 5 Y Cyd-destun Economaidd

5.1 Mae Banc Lloegr wedi rhagweld dirwasgiad dwy flynedd "heriol iawn". Disgwyliwyd dirwasgiad yn eang yn y DU oherwydd bod prisiau nwyddau fel bwyd, tanwydd ac ynni wedi codi'n aruthrol, a hynny o ganlyniad i sawl ffactor, gan gynnwys y Rhyfel yn Wcráin, a chyrhaeddodd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr 11.1% ym mis Hydref 2022.

5.2 Dywedodd y Canghellor Jeremy Hunt y byddai'n ceisio gwneud unrhyw ddirwasgiad yn *"llai a chyflymach"* nag a ragwelwyd, ond mae wedi rhybuddio y bydd angen gwneud penderfyniadau *"syfrdanol"* ar wariant cyhoeddus a threthiant er mwyn *"adfer hyder a sefydlogrwydd economaidd"*. Dywedodd Mr Hunt ei fod *"yn gwybod yn iawn bod ffordd galed o'n blaenau"* yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw gwaethaf ers y 1950au.

5.3 Cyhoeddodd y Canghellor Ddatganiad yr Hydref ar 17 Tachwedd 2022, a oedd yn cyd-fynd â Rhagolwg Economaidd a Chyllid y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Daw'r graff canlynol o'r adroddiad hwn:

**Graff 7 – Mynegai Prisiau Defnyddwyr y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol**




5.4 Cyhoeddodd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ffigurau o arolwg ym mis Hydref, a ganfu fod chwyddiant ynni yn ychwanegu £100 miliwn y flwyddyn at ddiffygion cyllid yr heddluoedd. Canfu'r arolwg hefyd y bu gwasgfa ariannol ychwanegol o £127 miliwn ym maes datblygu gwasanaethau a chwyddiant contractiol arall. Arweiniodd hyn at gais am gyllid ychwanegol i ddiogelu'r gwasanaeth rhag pwysau chwyddiant, ond cododd hefyd y risg sylweddol y byddai dyfarniadau cyflog yn y dyfodol yn uwch na'r disgwyl.


5.5 Bu pwysau ar draws y sector cyhoeddus oherwydd codiadau cyflog a fu'n fwy na'r disgwyl yn ystod 2022/23. Roedd sector yr heddlu yn disgwyl codiad cyflog o rhwng 2% a 3%. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf cyhoeddodd y llywodraeth y bydd swyddogion heddlu yn cael codiad cyflog o £1,900 ar bob pwynt cyflog, sy'n werth tua 5% pan ystyrir yr holl rengoedd a graddfeydd cyflog. Ar ôl y cyhoeddiad, cyhoeddodd Priti Patel, yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd, arian ychwanegol o £70 miliwn yn 2022/23, £140 miliwn yn 2023/24 a £140 miliwn yn 2024/25 er mwyn helpu i dalu am y pwysau cynyddol ar gyllidebau. Roedd hyn, fodd bynnag, yn tybio y byddai dyfarniad cyflog y flwyddyn nesaf yn disgyn yn ôl i'r dybiaeth flaenorol, sef 2% yn ôl pob tebyg

5.6 Ond yn bryderus iawn, mewn llythyr a anfonwyd at Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Droseddu a Phlismona y *"Dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ystyried y pwysau ar eu cyllidebau, gan gynnwys y potensial y bydd y dyfarniad cyflog ar gyfer 2023–24 uwchlaw 2% y flwyddyn nesaf, ac y dylent gyllidebu'n briodol yn unol â hynny."*

## 6 Heddlu Dyfed-Powys – Y Cyd-destun Ariannol

6.1 Mae'r heddlu'n wynebu ystod o risgiau a chyfleoedd ariannol dros y tymor byr a chanolig, y bwriedir i'r cynnig cyllideb hwn fynd i'r afael â hwy. Crynhoir hyn yn y siart isod:

**Llun 5 – Mantolen risg a chyfle ariannol**




6.2 Mae'r risg ariannol fwyaf brys a wynebir yn gysylltiedig â'r dyfarniadau cyflog a phwysau chwyddiant, sy'n sylweddol uwch na'r lefelau a gyllidebwyd ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Defnyddiwyd rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, a ddangosir yng Ngraff 7, fel y brif sail i benderfyniadau / tybiaethau chwyddiant ac maent wedi'u hymgorffori yn y cynnig cyllideb hwn.

6.3 O ystyried y sefyllfa economaidd hynod gyfnewidiol, mae'n heriol iawn gwneud tybiaethau ynglŷn ag effeithiau chwyddiant ar gostau cyflogau, cyfraddau llog a chostau nad ydynt yn ymwneud â chostau yn y dyfodol. Yn gyffredinol, mae bwlch sylweddol rhwng y dybiaeth chwyddiant a

gafodd ei chynnwys wrth osod cyllideb 2022/23 (3.25% yn gyffredinol) a’r realiti (10.1% ar hyn o bryd), ac mae angen ystyried hyn. Yn ogystal, bydd angen ymgorffori dyfarniad cyflog a thybiaethau chwyddiant ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

6.4 Ni phrofwyd pwysau chwyddiant o'r maint hwn ers degawdau lawer. Maent yn cael effaith ar bob agwedd ar gostau plismona, gan gynnwys costau cyflogau, costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a gwaith y rhaglen gyfalaf, y bu angen eu hadolygu a'u diweddaru i gyd, ac mae costau cyfleustodau a thanwydd yn peri pryder yn benodol.

6.5 Mae’r heddlu eisoes wedi cyflwyno ystod o fesurau gyda’r nod o liniaru effaith heriau chwyddiant yn ystod y flwyddyn bresennol, ac yn wir mae’n anelu at gyflawni tanwariant cynlluniedig o £894,000 mewn perthynas â'i gyllideb ar gyfer 2022/23, er mwyn gwrthbwyso gwasgfeydd cyllidebol untro yn ystod 2023/24. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy wneud y canlynol:

- Gostyngiad yn nifer y trosglwyddeion a oedd wedi’u cynllunio yn ystod hydref 2022
- Clustnodi incwm ychwanegol a dderbyniwyd o gyd-gymorth
- Lleihau gwariant ar hyfforddiant
- Rheoli swyddi gwag staff heddlu (80–100 swydd cyfwerth ag amser llawn)
- Oedi wrth weithredu prosiectau technoleg – system rheoli cofnodion a system rheoli cysylltiadau
- Gwaith craffu ychwanegol ar wariant nad yw'n ymwneud â chyflogau, a’i awdurdodi
- Gwaith craffu ychwanegol ar oramser, a’i awdurdodi
- Gwrthbwyso gorwario yn y gyllideb a phwysau yn sgil y dyfarniadau cyflog uwch, goramser, a gwariant ar wyliau banc yn ogystal ag yswiriant, tanwydd a chwyddiant cyffredinol ac amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid
- Grant ychwanegol o £495,000 gan y Swyddfa Gartref i wrthbwyso'r dyfarniadau cyflog

6.6 Mae risgiau ariannol eraill a amlygwyd yn y siart uchod yn cynnwys pryderon ynghylch cyllid grant yn y dyfodol sy’n gysylltiedig â Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (£3.4 miliwn) a’r Rhaglen Cyswllt Ysgolion (£0.3 miliwn), yn ogystal â grantiau a chyfraniadau penodol eraill sy’n werth mwy nag £8 miliwn, sy'n ariannu amrywiaeth o weithgareddau plismona craidd gan gynnwys y Bartneriaeth Camerâu Diogelwch, Plismona Porthladdoedd a Gwasanaethau Dioddefwyr.

6.7 Mae'r heddlu hefyd yn profi cynnydd yn nifer y troseddau, ochr yn ochr â chynnydd cysylltiedig mewn gofynion fforensig digidol ac achredu ar draws llawer o'i swyddogaethau, sy'n amlygu eu hunain drwy gynnydd mewn goramser a gofynion staffio ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â nhw.


6.8 Mae pryder bod y setliad a gyhoeddwyd ar gyfer 2023/24 yn cwmpasu un flwyddyn yn unig, ac nid oes unrhyw wybodaeth ar gael am yr effaith bosibl o ganlyniad i ailbrisio pensiynau’r yr heddlu, sy’n debygol o gael ei weithredu yn ystod 2024/25, effeithiau’r fformiwla gyllido, na graddfa debygol y gwaith cydgrynhoi ariannol yn y sector cyhoeddus, a grybwyllir yn Natganiad yr Hydref, a fydd yn digwydd o 2024/25 ymlaen.

6.9 Mae'r heddlu hefyd yn wynebu cosbau ariannol os na fydd yn cynnal niferoedd swyddogion heddlu a Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu, sy'n cyfyngu ar ei allu i wneud arbedion drwy foderneiddio'r gweithlu neu leihau nifer y swyddogion heddlu. Yn wir, bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o'r arbedion yn y dyfodol gael eu cyflawni o staff yr heddlu a phenawdau eitemau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau, yn rhannol drwy broses foderneiddio gwrthdro.

6.10 Rhagwelir y bydd yr heddlu yn cyflogi 2,188 o swyddogion heddlu, staff a Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu erbyn diwedd mis Mawrth 2023 – sy’n debygol o fod yn uchafbwynt o ystyried maint yr heriau ariannol y bydd yn eu hwynebu o 2023/24 ymlaen, fel y dangosir yn y siart isod. Mae'r proffil recriwtio hefyd yn golygu y bydd tua 19% o'n 1,313 o swyddogion heddlu a ragwelir dan hyfforddiant.

**Llun 6 – Crynodeb o'r gweithlu**

**Symudiadau gwirioneddol hanesyddol a symudiadau gwirioneddol disgwyliedig y gweithlu – rhwng 2010 a 2026**




| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Officers | 1,195 | 1,157 | 1,131 | 1,112 | 1,123 | 1,176 | 1,149 | 1,160 | 1,186 | 1,145 | 1,165 | 1,182 | 1,230 | 1,313 | 1,303 | 1,303 | 1,253 |
| PCSOs | 83 | 80 | 97 | 143 | 145 | 147 | 135 | 143 | 145 | 146 | 143 | 148 | 156 | 163 | 163 | 163 | 163 |
| Police Staff | 728 | 673 | 607 | 606 | 600 | 536 | 584 | 622 | 633 | 651 | 674 | 724 | 747 | 712 | 717 | 697 | 747 |
| Total | 2,006 | 1,910 | 1,835 | 1,861 | 1,868 | 1,859 | 1,868 | 1,925 | 1,964 | 1,942 | 1,982 | 2,054 | 2,133 | 2,188 | 2,183 | 2,163 | 2,163 |

**Officer Uplift Recruitment**

| | |
|---|---|
| 2020/21 | 40 |
| 2021/22 | 40 |
| 2022/23 | 57 |
| Total | 137 |

**Proportion of Establishment in Training**

| | Recruits | Change | Total Establishment | Percentage |
|---|---|---|---|---|
| | FTE | FTE | FTE | % |
| 2022/3 | 234 | | 1,230 | 19% |
| 2023/4 | 214 | -20 | 1,313 | 16% |
| 2024/5 | 177 | -37 | 1,305 | 14% |
| 2025/6 | 150 | -27 | 1,305 | 11% |
| | | -84 | | |

| | Workforce Plan |
|---|---|
| 2022/3 | Vacancy Management |
| 2023/4 | Police Staff Restructure / Voluntary Redundancy |
| 2023/4 | Apprenticeships |
| 2023/4 | Reverse Modernisation |
| 2025/6 | Workforce Modernisation |

Heddlu Police DYFED-POWYS

* Source for historic actuals including vacancies- Home Office workforce Statistics 2010-2022

*Current Budgeted Establishment = 2,267

6

## 7 Setliad Ariannu'r Heddlu ar gyfer 2023/24 a’r Cyd-destun Cenedlaethol

7.1 Cyhoeddwyd y setliad dros dro ar gyfer 2023/24 ar 14 Rhagfyr 2022 mewn datganiad ysgrifenedig gan Chris Philip, y Gweinidog Troseddu a Phlismona. Ceir manylion llawn y setliad ar dudalennau gov.uk y Swyddfa Gartref. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth ar gyfer heddluoedd Cymru ar ei gwefan hefyd.

7.2 Amlinellodd y Gweinidog ddisgwyliadau i’r heddlu ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol canlynol y Llywodraeth yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24:

- Sicrhau bod niferoedd cyffredinol swyddogion heddlu yn cael eu cynnal ar y ffigur sylfaenol y cytunwyd arni o dan Raglen Uplift yr Heddlu, ynghyd â dyrannu’r 20,000 o swyddogion ychwanegol ar lefel heddlu.
- Defnyddio'r swyddogion ychwanegol hyn i leihau troseddau a gwireddu ymrwymiad y llywodraeth hon i gadw'r cyhoedd yn ddiogel.
- Sicrhau gwelliannau mewn cynhyrchiant a sbarduno arbedion effeithlonrwydd, gan wneud y mwyaf o werth buddsoddiad y llywodraeth.

7.3 Gan dybio bod pob heddlu yn cymryd y praesept llawn, sef £15, bydd cyfanswm yr arian ychwanegol sydd ar gael i heddluoedd yn dod i £523.4 miliwn. Mae hyn yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- £349 miliwn o'r cynnydd o £15 yn y dreth gyngor
- £100 miliwn fel y nodir yn Adolygiad o Wariant 2021
- £140 miliwn o gyllid ychwanegol drwy grant a neilltuwyd ar gyfer Rhaglen Uplift yr Heddlu i gefnogi costau'r dyfarniadau cyflog ar gyfer swyddogion heddlu ar gyfer 2022/23
- Gostyngiad o £70 miliwn yn sgil gwrthdroi'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr mewn perthynas â'r Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Cynnydd o £4.4 miliwn mewn addasiadau i grantiau'r dreth gyngor a grantiau praesept.

7.4 Yn 2023/24, cyfanswm y brigdoriadau yw £1,114 miliwn, sef gostyngiad o £259.7 miliwn ers y llynedd (£1,373.7 miliwn). Y newidiadau mwyaf yn y cyllid oedd gostyngiad o £83.2 miliwn yn sgil ailddyrannu cyfalaf a gostyngiad o £80 miliwn yn rhaglenni technoleg yr heddlu. Cafodd nifer o weithgareddau brigdorri eu gollwng neu eu hailddosbarthu hefyd, neu daethant i ben, gan gynnwys Rhaglen Uplift yr Heddlu, Police Now, Unedau Plismona Gweithredol Cenedlaethol, perfformiad Gwasanaeth yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol, rhaglenni lleihau troseddau, adolygu trais a gwrthderfysgaeth.

**Tabl 5 Brigdoriadau / ailddyraniadau'r heddlu**

| Brigdoriad yr heddlu | 2022/23 £m | 2023/24 £m |
|---|---|---|
| **Ailddyraniadau ac addasiadau** | 1373.7 | 1114 |
| Grant arbennig | 62.4 | 50.0 |
| Mentrau cyllid preifat | 71.6 | 71.6 |
| Rhaglenni technoleg yr heddlu | 606.5 | 526.4 |
| Cyrff hyd braich | 68.7 | 74.7 |
| Rhaglen Uplift yr Heddlu | 12.0 | _ |
| Unedau Plismona Gweithredol Cenedlaethol (gan gynnwys plismona gemau pêl-droed a throseddau bywyd gwyllt) | 2.9 | _ |
| Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol | 33.2 | 39.5 |
| Gwrthderfysgaeth | 32.5 | _ |
| Rhaglenni capasiti cenedlaethol | 65.0 | 69.3 |
| Gwasanaethau fforensig | 25.6 | 20.6 |
| Trais difrifol | 50.1 | 45.6 |

| | | |
|---|---|---|
| Police Now | 7.0 | _ |
| Galluoedd plismona cenedlaethol | 10.6 | 9.5 |
| Perfformiad yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol | 13.0 | _ |
| Rhaglenni lleihau troseddau | 45.8 | _ |
| Galluoedd lleihau troseddau | 13.5 | 18.4 |
| Adolygu trais | 12.0 | _ |
| Cyffuriau / llinellau cyffuriau | 30.0 | 30.0 |
| Ailddyrannu cyfalaf | 188.1 | 104.9 |
| Twyll | 23.1 | 18.1 |
| Seiberdroseddau | _ | _ |
| Mynd i'r afael â cham-fanteisio a cham-drin | _ | _ |

7.5 Mae dyraniadau'r grant pensiynau yn aros yr un fath â'r ffigurau a roddwyd ar gyfer y setliad yn 2019/20.

7.6 Mae'n bosibl nodi'r canlynol ar wahân yn 2023/24 o hyd: grantiau gwaddol y dreth gyngor – sy'n ymwneud â grantiau rhewi'r dreth gyngor yn dyddio o 2011/12, 2013/14, 2014/15 a 2015/16 – yn ogystal â chymorth treth gyngor lleol ar gyfer cyllid (ar gyfer ardaloedd heddluoedd Lloegr).

7.7 Mae cyllid cyfalaf wedi cael ei symud fel ei fod yn dod o dan ymbarél ailddyraniadau ac addasiadau. Mae cyfanswm cyllid cyfalaf yr heddlu bellach werth £104.9 miliwn, i lawr o £188.1 miliwn y llynedd, sef gostyngiad o £83.2 miliwn. Nid yw dyraniadau grantiau cyllid cyfalaf i ardaloedd yr heddlu yn bodoli mwyach.

**Tabl 6 – Dyraniadau grant cyfalaf cenedlaethol yr heddlu**

| | 2023/24 £m |
|---|---|
| Cyrff hyd braich | 5.4 |
| Rhaglenni technoleg yr heddlu | 72.2 |
| Rhaglenni a galluoedd lleihau troseddau | 15.6 |
| Gwasanaeth awyr cenedlaethol yr heddlu | 11.7 |

7.8 Cyhoeddodd y Gweinidog gyfanswm o £1,002.2 miliwn ar gyfer plismona gwrthderfysgaeth yn 2023/24. Bydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu hysbysu ar wahân ynglŷn â dyraniadau cyllid ar lefel heddlu ar gyfer plismona gwrthderfysgaeth. Ni fydd yr wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus am resymau diogelwch.

7.9 Mae'r setliad hefyd yn cynnal dyraniad o £2.4 miliwn i helpu i fynd i'r afael â chyfraniad ardoll prentisiaethau Cymru. Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cael £0.3641 miliwn fel grant penodol yn 2023/24. Mae trafodaethau'n parhau i geisio mynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr, ac mae'r Swyddfa Gartref yn nodi efallai nad dyma'r datrysiad terfynol i'r mater hwn.

7.10 Ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, mae setliad 2023/24 wedi'i amlinellu yn y tabl isod:

**Tabl 7: Cyfanswm y cyllid ar gyfer 2023/24**

| | 2022/23 £m | 2023/24 £m | Newid | |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | % |
| Grant craidd yr heddlu, gan gynnwys rheol 1 a chyllid gwaelodol | 52.017 | 52.404 | 0.387 | 0.007 |
| Llywodraeth Cymru – Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig cenedlaethol | 8.667 | 8.492 | -0.175 | -0.02 |
| **Cyllid canolog** | **60.684** | **60.896** | **0.212** | **0.003** |
| **Grant pensiynau** | **1.302** | **1.302** | **0** | **–** |
| **Grant Uplift** | **0.956** | **1.948** | **0.992** | **1.037** |
| **Cyfanswm** | **62.942** | **64.146** | **1.204** | **0.019** |

7.11 Mae'r setliad hefyd yn nodi nifer o ddisgwyliadau, er mwyn sicrhau bod yr heddlu'n gwneud y gorau o arian cyhoeddus. Mae'r Swyddfa Gartref yn disgwyl gweld o leiaf £100 miliwn mewn arbedion ariannol fel rhan o Adolygiad o Wariant 2021. Dylid cyflawni hyn drwy'r canlynol:

1. Gweithio gyda BlueLight Commercial i fanteisio i'r eithaf ar y buddion ariannol a masnachol sy'n gysylltiedig â chaffael, drwy ddefnyddio arbenigedd masnachol y sefydliad, defnyddio'r pŵer prynu sydd ar gael ar draws y sector, a datblygu'r gallu i weithredu dull cylchred oes fasnachol lawn o gaffael.

2. Digwyddiadau corfforaethol, lle mae'r Swyddfa Gartref a BlueLight Commercial yn cynnal gwaith parhaus gyda'r sector i ddeall y cyfleoedd sy'n deillio o reoli digwyddiadau corfforaethol, er enghraifft, rhoi modelau cydwasanaethau ar waith.

7.12 Mae'r Swyddfa Gartref wedi comisiynu Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i gynnal adolygiad o gynhyrchiant gweithredol mewn ym maes plismona. Disgwylir y bydd yr adolygiad yn cyflwyno argymhellion clir,

ymarferol y gellir eu cyflawni er mwyn gwella cynhyrchiant ym maes plismona.

## 8 Capio / Cynnal Refferendwm ar y Dreth Gyngor – y Sefyllfa yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr

8.1 Fel yr amlinellwyd uchod, ar gyfer y setliad dros dro ar gyfer 2023/24 a'r prif ffigurau, tybiwyd hyblygrwydd o £15 wrth osod praesept y dreth gyngor, heb fod angen galw am refferendwm lleol.

8.2 O dan y setliad datganoli, y trefniadau ar gyfer Cymru yw bod y pŵer i bennu lefelau capio ar y dreth gyngor yn cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru.

8.3 Mae dau fath o gapio – dynodi ac enwebu. Gall Llywodraeth Cymru ddynodi neu enwebu awdurdod i gapio ei braesept, os yw'n barnu bod ei ofyniad cyllidebol yn ormodol.

- Mae dynodi'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod leihau ei ofyniad cyllideb ac ail-filio trethdalwyr y cyngor (drwy'r awdurdodau unedol).
- Mae enwebu, i bob pwrpas, yn rhoi awdurdod ar rybudd y bydd y Llywodraeth yn pennu terfyn cyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu'r meini prawf (yr egwyddorion) ar gyfer capio ar gyfer pob awdurdod lleol a heddlu yng Nghymru. Rhaid i'r egwyddorion gynnwys cymhariaeth rhwng y gofyniad cyllideb a gyfrifwyd â'r hyn a gyfrifwyd ar gyfer blwyddyn ariannol flaenorol. Mae gweinidogion yn rhydd i gynnwys unrhyw faterion eraill y maent yn ystyried eu bod yn berthnasol yn yr egwyddorion.

8.4 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi parhau i gyfathrebu'n effeithiol â gweinidogion a Llywodraeth Cymru drwy Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Wrth barhau i gryfhau perthynas Uned Gyswllt yr Heddlu, bu cyfle gwerthfawr ac ychwanegol i roi sylw i'r gwasgfeydd ariannol a'r gofynion gweithredol y mae Heddlu Dyfed-Powys a'r gwasanaeth heddlu ehangach yng Nghymru yn eu hwynebu.

8.5 Mater i Gomisiynwyr sy'n atebol yn lleol yw ymgynghori a gwneud penderfyniadau ar y praesept lleol, gan esbonio i'w hetholwyr sut y bydd buddsoddiad ychwanegol yn helpu i ddarparu gwasanaeth heddlu gwell.

8.6 Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi hyblygrwydd ynghylch swm y praesept y gellir ei ychwanegu at fil heb sbarduno refferendwm (yn achos Lloegr yn unig) yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Digwyddodd y cynnydd sylweddol cyntaf yn ystod 2018/19, pan gyflwynwyd hyblygrwydd o £12. Yn dilyn hyn, cyflwynwyd hyblygrwydd o £24 yn 2019/20, £10 yn 2020/21 a £15 yn 2021/22. I ddechrau, cadarnhaodd Adolygiad o Wariant 2021 y byddai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael hyblygrwydd o £10 ar gyfer pob blwyddyn o'r Adolygiad o Wariant tair blynedd ond, oherwydd y pwysau

chwyddiant sy'n wynebu heddluoedd, câi hyblygrwydd praesept o £15 ei roi ar gyfer eleni yn unig.

8.7 Gan dybio bod y bydd pob heddlu yn cymryd £15, mae cyfanswm yr hyblygrwydd ychwanegol yn werth tua £100 miliwn yn ychwanegol, o'i gymharu â heddluoedd sy'n cymryd £10 yn unig. O gyfuno’r dybiaeth y bydd pob Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cynyddu ei braesept gan £15 â’r dybiaeth y bydd y sylfaen drethu yn cynyddu 1.106% yn Lloegr a 0.5% yng Nghymru, bydd £349 miliwn o gyllid ychwanegol ar gael ar gyfer plismona, a hynny o’r dreth gyngor yn unig.

8.8 Oherwydd gwahaniaethau hanesyddol yn y dreth gyngor, gall y gyfran y mae £15 yn ei chynrychioli amrywio'n sylweddol rhwng yr ardaloedd heddlu. Mae'r cynnydd o £15 yn golygu bod y cynnydd canrannol yn Northumbria yn 9.75%, mae’n 8% yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr ac yn 6.86% yn Essex. Mewn cyferbyniad â hynny, mae £15 yn cynrychioli cynnydd o 5.17% yn ardal Dyfed-Powys, 4.97% yn ardal De Cymru, 4.94% yn ardal Gwent a 4.73% yn ardal Gogledd Cymru. Mae effaith grantiau rhewi'r dreth gyngor / grantiau cymorth yn Lloegr yn amlwg wedi effeithio ar lefelau’r praesept yn hanesyddol, sy'n golygu bod eu praeseptau yn is, yn gyffredinol.

8.9 Mae'r gwahaniaethau cynhenid hyn mewn grantiau craidd hanesyddol a phenderfyniadau lleol ynglŷn â’r praesept, yn golygu ei bod yn anodd iawn gwneud cymariaethau ystyrlon rhwng ardaloedd heddlu.


## 9 Gofyniad Cyllideb 2023/24, Adolygiad o’r Heddlu a’r Cynllun Arbedion

9.1 Mae gwaith wedi parhau o ddifrif yn ystod 2022 i ddatblygu’r broses gosod cyllideb ymhellach. Wrth ddilyn y dull hwn, mae staff yr adran Cyllid Corfforaethol yn parhau i weithio'n agos gyda rheolwyr gwasanaeth a deiliaid cyllidebau i adolygu cyllidebau sylfaenol yn llawn ac asesu pwysau galw a chost yn feirniadol, wrth hefyd geisio nodi arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cyffredinol sy'n gysylltiedig ar yr Adolygiad o’r Heddlu.

9.2 Mae'r berthynas rhwng gwaith monitro ariannol yn ystod y flwyddyn a’r broses o osod y gyllideb wedi cael ei chryfhau. Nod y broses yw cyfeirio adnoddau tuag at gyflawni blaenoriaethau allweddol wrth sicrhau cysylltiad clir rhwng y gyllideb, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chynlluniau a gofynion y gweithlu a chynlluniau a gofynion buddsoddi cyfalaf sy’n sylfaenol iddynt.

**Llun 7 – Y cysylltiad rhwng Datganiad Rheoli’r Heddlu a’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig**

9.3 Mae'r Bwrdd Cyllid Strategol a'r Bwrdd Cynllun Ariannol Tymor Canolig o fewn y strwythur llywodraethu ffurfiol wedi parhau i oruchwylio gwaith datblygu'r dull hwn, ac mae cynllunio ariannol yn ffocws allweddol i'r Grŵp




Ystadau Strategol / y Grŵp Ystadau Gweithredol, y Grŵp Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a'r Grŵp Strategaeth Fflyd.

9.4 Mae'r defnydd o ddata meincnodi proffil gwerth am arian o'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) yn parhau i ddatblygu, oherwydd yr ystyrir bod hyn yn hanfodol bwysig o ran helpu i asesu'r galw a gwerth am arian. Mae'r tabl canlynol yn cynnwys data meincnodi a chymaryddion lefel uchel ar gyfer 2022/23. Mae'r data'n dangos yr effaith sylweddol y mae daearyddiaeth ardal yr heddlu yn ei chael ar wariant, er enghraifft, dalfeydd, arfau tanio, a thraffig o gymharu ag ardaloedd eraill.

### Tabl 8 – Data meincnodi ar gyfer gwaith dadansoddi gwrthrychol yr heddlu

| Pennawd gwasanaeth | Swyddogion | Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu | Staff | Cyfanswm y gweithwyr | Cwnstabliaid gwirfoddol | Gwirfoddolwyr | Cyfanswm y bobl | Gwariant net | Cyfran | Cyfran Lloegr ac eithrio heddlu'r Met | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | FTE | FTE | FTE | FTE | FTE | FTE | FTE | £m | % | £m | £m |
| Ymateb a chymdogaethau | 652 | 162 | 158 | 972 | 61 | 15 | 1,048 | 45.3 | 35.60% | 34.20% | -1.7 |
| Ymchwiliadau | 77 | 0 | 111 | 188 | 0 | 1 | 189 | 8.8 | 6.90% | 7.20% | 0.5 |
| Dalfeydd | 39 | 0 | 37 | 76 | 0 | 0 | 76 | 5.8 | 4.60% | 3.00% | -2 |
| Cyfiawnder troseddol | 2 | 0 | 92 | 94 | 0 | 0 | 94 | 2.9 | 2.30% | 2.30% | -0.10% |
| Ymchwiliadau arbenigol | 174 | 0 | 26 | 200 | 0 | 0 | 200 | 13.6 | 10.70% | 10.80% | 0.1 |
| Pobl agored i niwed / rheoli troseddwyr | 82 | 0 | 36 | 119 | 0 | 3 | 122 | 6.3 | 4.90% | 7.50% | 3.3 |
| Unedau arfau tanio | 60 | 0 | 0 | 60 | 0 | 0 | 60 | 4.6 | 3.60% | 1.90% | -2.1 |
| Plismona'r ffyrdd | 80 | 0 | 36 | 116 | 0 | 0 | 116 | 5.5 | 4.30% | 2.10% | -2.8 |
| Cymorth gweithredol y pencadlys | 36 | 0 | 8 | 44 | 0 | 0 | 44 | 2.2 | 1.70% | 2.20% | 0.6 |
| **Gwasanaethau galluogi** | 0 | 0 | 21 | 21 | 0 | 0 | 21 | 4.7 | 3.70% | 3.90% | 0.2 |
| Ystadau | 16 | 0 | 13 | 28 | 0 | 0 | 28 | 2.8 | 2.20% | 2.20% | 0.1 |
| Hyfforddiant | 0 | 0 | 18 | 18 | 0 | 0 | 18 | 1.4 | 1.10% | 1.60% | 0.7 |
| Fflyd | 2 | 0 | 54 | 56 | 0 | 0 | 56 | 6.9 | 5.40% | 6.50% | 1.4 |
| TGCh | 0 | 0 | 44 | 44 | 0 | 17 | 61 | 2.1 | 1.60% | 1.60% | -0.1 |
| Adnoddau dynol ac iechyd galwedigaethol | 30 | 1 | 144 | 175 | 0 | 1 | 176 | 8.5 | 6.60% | 6.40% | -0.30% |
| Gwasanaethau cynorthwyol | 13 | 0 | 44 | 57 | 0 | 50 | 107 | 6.1 | 4.80% | 6.60% | 2.3 |
| Costau canolog, costau wedi'u secondio a chostau eraill | 1,262 | 163 | 842 | 2,267 | 61 | 87 | 2,415 | 127.4 | 100% | 100% | |

9.5 Y man cychwyn ar gyfer llunio'r gyllideb ar gyfer 2023/24 oedd cywiro'r tybiaethau ynglŷn ag effaith chwyddiant ar gyflogau a chostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a wnaed yn ystod y broses o lunio'r gyllideb ar gyfer 2022/23. Mae angen diweddaru'r cyllidebau sylfaenol fel eu bod yn cwmpasu effaith annisgwyl y dyfarniadau cyflog ychwanegol y cytunwyd arnynt yn ystod 2022, a'r pwysau chwyddiant mae'r sefydliad yn eu profi, a hynny ar gyfer y flwyddyn gyfan. Fel y mae'r tabl isod yn dangos, effaith net y codiadau hyn yw tua £5.331 miliwn:

### Tabl 9 – Addasiadau chwyddiant

| Pennawd yn y gyllideb | Cyllidebwyd (%) | Gwirioneddol (%) | Gwahaniaeth (%) | Gwahaniaeth (£ miliwn) |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau swyddogion heddlu (£1,900 o fis Medi ymlaen) | 3.5 | 4.8 | +1.3 | +0.584 |
| Cyflogau staff yr heddlu (£1,900 o fis Medi ymlaen) | 3.5 | 6.8 | +3.3 | +0.783 |
| Pensiynau swyddogion heddlu | 2.5 | 3.1 | +0.6 | +0.011 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Trydan | 14.9 | 56.0 | +41.1 | +0.257 |
| Nwy | 16.0 | 66.0 | +50.0 | +0.108 |
| Tanwydd cerbydau | 3.25 | 25.0 | +21.75 | +0.145 |
| Gwasanaethau fforensig | 3.25 | 20.0 | +16.75 | +0.096 |
| Yswiriant | 3.25 | 20.0 | +16.75 | +0.030 |
| Chwyddiant cyffredinol | 3.25 | 8.0 | +4.75 | +0.547 |
| **Cyfanswm y cywiriad am chwyddiant** | | | | **+2.561 miliwn** |
| Effaith y Dyfarniadau cyflog ar gyfer y flwyddyn lawn | | | | **+2.770 miliwn** |
| **Cyfanswm effaith chwyddiant ar gyfer 22/23** | | | | **5.331 miliwn** |

9.6 Mae'r pwysau cost ychwanegol ac annisgwyl hyn o dros £2.561 miliwn i gywiro tybiaethau chwyddiant cyflogau a thybiaethau chwyddiant prisiau yn ffactor arwyddocaol ac anarferol yng nghyllideb 2023/24, a achoswyd gan y Rhyfel yn Wcráin a digwyddiadau eraill y byd. Mae adroddiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhybuddio y bydd chwyddiant yn 9.1% ar gyfartaledd dros flwyddyn galendr 2022 ac yn 7.4% yn 2023.

9.7 Yn ogystal â'r cywiriad am chwyddiant, mae gan yr heddlu nifer o bwysau ychwanegol ar y gyllideb 'ddigyfnewid' y mae'n rhaid iddo eu hymgorffori yn ei gyllideb sylfaenol. Mae angen i'r heddlu ystyried effaith y 57 o swyddogion heddlu ychwanegol a gafodd eu recriwtio o dan Raglen Uplift yr Heddlu yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, a hynny ar gyfer y flwyddyn lawn ond ar sail rhan o'r flwyddyn. Mae hyn yn ychwanegu £1.556 miliwn arall at gostau sylfaenol. Mae gan swyddogion a staff yr heddlu hefyd yr hawl i gael codiadau blynyddol yn eu cyflogau, a fydd yn ychwanegu £0.644 miliwn arall yn ystod 2023/24, a hynny'n net o lithriad sy'n deillio o bobl sy'n gadael y sefydliad. Yn ogystal, gwnaed camgymeriad yng ngwybodaeth sylfaen y dreth gyngor ar gyfer cyllideb 2022/23, ac arweiniodd hynny at ddiffyg o £0.075 miliwn yn erbyn y gyllideb sylfaenol sydd wedi cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn, ar sail blwyddyn, ac y bydd angen ei gywiro.

9.8 Mae yna bwysau cost penodol sy'n ymwneud â gŵyl y banc ychwanegol (£0.120 miliwn), galw yn ystod yr haf (£0.145 miliwn), incwm trwyddedu arfau tanio (£0.150 miliwn), gwasanaethau fforensig (£0.030 miliwn) a

gostyngiad yn y cymorth grant ar gyfer y rhaglen Cyswllt Ysgolion (£0.030 miliwn), y mae angen ei ymgorffori yn sefyllfa ddigyfnewid y gyllideb hefyd.

9.9 Mae’n hynod heriol pennu tybiaethau ynglŷn â chwyddiant a dyfarniadau cyflog ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae pryniannau trydan a nwy naturiol, a brynir ymlaen llaw drwy fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron, yn weddol sicr a disgwylir i gynnydd chwyddiant o 283% a 146% yn y drefn honno effeithio arnynt o fis Ebrill y flwyddyn nesaf ymlaen. Roedd y codiad cyflog a dybiwyd ar gyfer swyddogion a staff yr heddlu wedi'i osod ar 3% i ddechrau. Cyllidebwyd cyfradd chwyddiant o 5.75% ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau, a hynny ar sail y tybiaethau cychwynnol. Mae'r rhain wedi cael eu lleihau ar risg i 2.75% a 5.25% yn y drefn honno, yn bennaf er mwyn lleihau'r effaith ar drethdalwyr y cyngor.

9.10 Mae ffactorau chwyddiant penodol wedi cael eu cynnwys ar gyfer ardrethi (+9%), tanwydd (+7.3%), rhenti (+15%) a phensiynau (+10.1%). Nid yw chwyddiant wedi'i gynnwys mewn perthynas â grantiau penodol. Mae chwyddiant sy'n gysylltiedig ag amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid hefyd wedi effeithio ar nifer bach o benawdau TGCh a gwasanaethau fforensig penodol, sydd wedi ychwanegu £0.139 miliwn pellach at gostau digyfnewid sylfaenol.

**Tabl 10 – Y gofyniad digyfnewid ar gyfer 2023/24**

| | Gofyniad cyllideb £ miliwn | Gwariant Refeniw Net % |
|---|---|---|
| **Cyllideb agoriadol 2022/23** | **127.445** | |
| Cywiriad am chwyddiant / cyflogau ar gyfer cyllideb sylfaenol 2022/23 | 2.561 | 2.0% |
| Effaith dyfarniad cyflog y llynedd, ar gyfer y flwyddyn lawn | 2.770 | 2.2% |
| Effaith swyddogion heddlu'r Rhaglen Uplift, ar gyfer y flwyddyn lawn (57) | 1.556 | 1.2% |
| Cynyddrannau swyddogion a staff yr heddlu | 0.644 | 0.5% |
| Addasiad i sylfaen y dreth gyngor | 0.075 | 0.1% |
| Gŵyl y Banc / galw yn ystod yr haf / incwm arfau tanio ac ati | 0.475 | 0.4% |
| Chwyddiant penodol cyffredinol ar gyfer 2023/24 (cyffredinol / nwy / trydan) | 3.245 | 2.5% |
| Effaith y dyfarniadau cyflog ar gyfer rhan o'r flwyddyn (2.75% ym mis Medi 2023) | 1.818 | 1.4% |
| Chwyddiant penodol – cyfraddau cyfnewid / ffactorau eraill | 0.108 | 0.1% |
| **Cyfanswm y cynnydd yn y gyllideb ddigyfnewid** | **+13.252** | **10.4%** |
| Gostyngiad mewn Yswiriant Gwladol – yr Ardoll Gofal Cymdeithasol | -1.073 | -0.8% |
| Gostyngiad yng nghyfraniad y pensiwn llywodraeth leol | -0.290 | -0.2% |
| Cynnydd yng ngrant Uplift | -0.992 | -0.8% |
| **Sefyllfa'r gyllideb ddigyfnewid** | **+10.898** | **8.6%** |
| **Sefyllfa'r gyllideb ddigyfnewid wedi'i chario ymlaen** | **£138.343** | **+8.6%** |

9.11 Mae'r sefyllfa ddigyfnewid yn cael ei lliniaru i ryw raddau gan y gostyngiad o 1.25% (£-1.073 miliwn) mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol a gostyngiad o 1% (£-0.290 miliwn) yng nghyfraniad y cynllun pensiwn llywodraeth leol yn dilyn y prisiad diweddaraf. Yn y setliad hefyd, cafodd cynnydd o £-0.992 miliwn (i £1.947 miliwn) ei gadarnhau yn y grant penodol sy'n gysylltiedig â chynnal niferoedd swyddogion heddlu'r Rhaglen Uplift.

9.12 Mae'r pwysau cost a'r arbedion anfwriadol a amlygwyd uchod yn golygu bod cyfanswm cynnydd o 8.6%, neu £10.898 miliwn, yn y gyllideb ddigyfnewid. Heb unrhyw fesurau lliniaru pellach, byddai hyn wedi arwain at gynnydd o £43.59 neu 15.0% ym mhraesept y dreth gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

9.13 Mae'r heddlu wedi ymrwymo ymhellach i bwysau cost na ellir mo'u hosgoi i raddau helaeth a fydd yn ychwanegu at y gofyniad cyllidebol ar gyfer 2023/24. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn y tabl isod. Mae'r ffigur mwyaf arwyddocaol o'u plith yn ymwneud â'r ddalfa newydd yn Sir Gaerfyrddin, a fydd yn agor yn gynnar yn ystod y flwyddyn ariannol newydd. Mae nifer o bwysau ar y gwasanaeth a gwelliannau y mae'r heddlu wedi ymrwymo i'w gwneud ar draws eiddo, perfformiad, seilwaith troseddau digidol, cydweithio, a chydweithio / achredu y mae angen i'r heddlu eu cynnwys yn ei ofyniad cyllideb. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'i flaenoriaethau strategol.

**Tabl 11 – Pwysau cost na ellir mo'u hosgoi**

| | **Gofyniad cyllideb £ miliwn** | **Gwariant refeniw net %** |
|---|---|---|
| **Cyllideb 2023/24 wedi'i chario ymlaen** | **138.343** | **8.6%** |
| Ystadau a chostau cyfalaf y ddalfa newydd yn Sir Gaerfyrddin | 1.103 | 0.9% |
| Buddsoddiad mewn storfeydd eiddo a system perfformiad | 0.220 | 0.2% |
| Ymchwilio i droseddau a phwysau galw (staffio) | 0.609 | 0.4% |
| Cydweithio – Achredu'r gwasanaethau fforensig a'r rhaglen fforensig | 0.146 | 0.1% |
| Taliadau'r system troseddau cyfrifiadurol digidol | 0.123 | 0.1% |
| **Cyfanswm y cynnydd yn y gyllideb** | **+2.201** | **1.7%** |
| **Sefyllfa'r gyllideb wedi'i chario ymlaen** | **£140.544 miliwn** | **10.3%** |

9.14 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod bod cynnydd o'r maint hwn yn y praesept yn afrealistig o ystyried yr hinsawdd economaidd a'r pwysau costau byw y mae'r cyhoedd yn eu hwynebu, ac maent wedi bod yn gweithio ar hyn ers mis Mehefin 2022 er mwyn ceisio lliniaru'r pwysau posibl. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, nod Adolygiad yr Heddlu yw arbed £10 miliwn dros dair blynedd, gyda £5.9 miliwn o'r swm hwn yn cael ei

dargedu ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi lleihau neu ohirio rhywfaint o wariant TGCh sydd wedi'i gwneud yn bosibl gwneud gostyngiad yng nghyfraniadau cyllid refeniw uniongyrchol.

9.15 Yn ogystal, fel y crybwyllwyd uchod, mae'r heddlu'n anelu at gyflawni tanwariant cynlluniedig o £0.894 miliwn yn ystod y flwyddyn bresennol, y gellir ei ddefnyddio i liniaru gwasgfeydd ariannol untro, cynnydd dros dro mewn costau a chwyddiant ym mhrisiau ynni. Mae crynodeb o effaith y mesurau hyn wedi'i gynnwys isod:

**Tabl 12 – Gofyniad cyllideb 2023/24**

| | **Gofyniad Cyllideb £ miliwn** | **Gwariant Refeniw Net %** |
|---|---|---|
| **Sefyllfa'r gyllideb wedi'i chario ymlaen** | **£140.544 miliwn** | **10.3%** |
| **DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN (£1.009 miliwn)** | | |
| Costau pedair gŵyl y banc o gronfeydd wrth gefn (11 diwrnod yn ystod 2023/24 i 7 niwrnod yn ystod 2024/25) | -0.290 | -0.2% |
| Costau ynni – trosiannol tybiedig o gronfeydd wrth gefn | -0.424 | -0.3% |
| Defnyddio cronfeydd wrth gefn y Prif Gwnstabl –alw yn ystod yr haf | -0.145 | -0.2% |
| Cyfraniadau ychwanegol –ailhyfforddi gyrwyr | -0.150 | -0.2% |
| **COST YR ADOLYGIAD O'R HEDDLU / GOSTYNGIADAU'R GWASANAETH (£6.206 miliwn)** | | |
| Gostyngiad mewn cyllid refeniw uniongyrchol | -0.057 | -0.0% |
| Swyddfa'r Comisiynydd a Chomisiynu | -0.162 | -0.1% |
| Adolygiad o'r Heddlu – arbedion a gostyngiadau'r gwasanaeth | -5.902 | -4.6% |
| Adolygiad o'r Heddlu – amcangyfrif o gost newidiadau | 1.482 | +1.2% |
| Adolygiad o'r Heddlu - cronfeydd wrth gefn i dalu costau untro | -1.482 | -1.2% |
| **Cyfanswm yr arbedion ac arian o gronfeydd wrth gefn** | **-7.130** | **-5.6%** |
| **Cyfanswm y cynnydd net yn y gyllideb** | **+5.969** | **4.7%** |

| | | |
|---|---|---|
| **Y gofyniad cyllideb terfynol** | **£133.414 miliwn** | **+4.7%** |

9.16 Mae'r gostyngiad yn swm y gofyniad cyllideb, o £140.5 miliwn i'r gofyniad cyllideb terfynol, sef £133.4 miliwn yn ostyngiad net o £7.1 miliwn o gronfeydd wrth gefn a'r Adolygiad o'r Heddlu. Mae risgiau ariannol a gweithredol cynhenid sylweddol o ran y canlynol:

- Gostyngiad mewn gwasanaethau a swyddi staff yr heddlu
- Risgiau chwyddiant o ran newidiadau mewn cyflogau a chwyddiant a thybiaethau amdanynt
- Risgiau cyflawni o ran Rhaglen Adolygu'r Heddlu, sy'n werth £5.9 miliwn
- Risgiau i'r sefyllfa gwariant yn ystod y flwyddyn oherwydd pwysau annisgwyl
- Risgiau yn y dyfodol o ran cynnydd pellach mewn costau benthyca neu gostau cynlluniau cyfalaf, yn ogystal â chwyddiant a dyfarniadau cyflog

9.17 Mae canlyniad cyffredinol y setliad, y gofyniad cyllideb, y cynllun arbedion a'r praesept arfaethedig wedi arwain at baratoi'r gyllideb fantoledig ganlynol. Ceir dadansoddiad llawnach ar gyfer y cyfnod rhwng 2023/24 a 2027/28 yn Atodiad A.

**Tabl 13: Crynodeb o'r gofyniad cyllideb a chyllid ar gyfer 2023/24**

| | **2022/23 £m** | **2023/24 £m** | **Newid** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **%** |
| **Gofyniad cyllideb** | **127.445** | **133.414** | **5.969** | **4.7%** |
| Grant craidd yr heddlu, gan gynnwys rheol 1 a chyllid gwaelodol | (52.018) | (52.404) | (0.386) | 0.7% |
| Llywodraeth Cymru – Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig cenedlaethol | (8.667) | (8.492) | 0.175 | -2.0% |
| Cyllid grant craidd | (60.685) | (60.896) | (0.211) | 0.3% |
| Grant penodol i bensiynau | (1.302) | (1.302) | 0.000 | _ |
| **Grant penodol i Raglen Uplift yr Heddlu** | (0.956) | (1.948) | (0.992) | 103.7% |
| **Cyllid grant craidd a chyllid grant penodol** | **(62.943)** | **(64.146)** | **(1.203)** | **1.9%** |
| **Y praesept** | (66.760) | (72.518) | (5.758) | 8.3% |
| **Cyfanswm cyllid** | **(127.445)** | **(133.414)** | **(5.969)** | **4.70%** |

## 10 Y Gyllideb Tymor Canolig a Rhagolygon

10.1 Mae’r tybiaethau ar gyfer proses gosod cyllideb 2023/24 wedi bod yn heriol i’w gwneud, ac mae ceisio rhagweld ymhellach ymlaen yn y dyfodol yn fwy heriol fyth, o ystyried yr ansicrwydd ariannol ac economaidd amrywiol.

10.2 Mae’r setliad blwyddyn ar gyfer 2023/24 ac absenoldeb gwybodaeth ar gyfer setliad yn y dyfodol yn peri pryder ac yn golygu ei bod bron yn amhosibl gwneud penderfyniadau a llunio rhagolygon yn y tymor canolig. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae ansicrwydd ariannol allweddol hefyd yn ymwneud â gwaith ailbrisio pensiynau swyddogion heddlu sy'n mynd rhagddo, yn ogystal â gwaith ar y fformiwla gyllido ac effeithiau yn y dyfodol ar grantiau penodol sy'n sail i amrywiaeth o swyddogaethau plismona. Mae’n aneglur hefyd i ba raddau y bydd gwariant cyhoeddus yn cael ei gydgrynhoi yn y dyfodol o 2024/25 ymlaen.

10.3 Nid yw gwneud tybiaethau sy'n gysylltiedig â'n sylfaen costau ein hunain ar gyfer cyfalaf a refeniw fymryn yn haws ychwaith o ystyried maint yr ansefydlogrwydd ariannol sy’n cael ei brofi yn fyd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys tybiaethau ynghylch pwysau costau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig ag ynni, tanwydd, dyfarniadau cyflog a chwyddiant cyffredinol.

10.4 Fodd bynnag, mae’r ddisgyblaeth o gynnal Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy’n seiliedig ar gyfres o dybiaethau rhesymol yn hanfodol o ystyried maint yr heriau a’r risgiau ariannol cynhenid yn y broses o bennu cyllideb gytbwys a lefel y praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Mae cynnal cadernid ariannol dros y tymor canolig yn ystyriaeth bwysig – nid yn unig ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond i’r dyfodol.

10.5 Disgwylir y bydd chwyddiant cyflogau a phrisiau yn parhau i roi pwysau ar gostau darparu gwasanaethau plismona dros gyfnod cynllunio’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a chafodd y tybiaethau canlynol eu gwneud mewn perthynas â’r rhain.

10.6 Mae chwyddiant penodol wedi'i gynnwys ar gyfer 2023/24 ar gyfer nwy, trydan a thanwydd ac ati. Fodd bynnag, mae cyfradd cynnydd cyffredinol wedi'i gymhwyso o 2024/25 ymlaen ar hyn o bryd. Mae’r dybiaeth ynglŷn â chwyddiant cyflogau a phrisiau yn gysylltiedig ag adroddiad diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, a ragwelodd y byddai chwyddiant uchel yn parhau ymhell i mewn i flwyddyn galendr 2023 ac yn gostwng yn sylweddol o 2024/25, cyn dychwelyd yn raddol i gyfradd darged Banc Lloegr o 2026/27 ymlaen.

10.7 Mae risgiau wedi’u tybio yn sefyllfa cyllideb 2023/24, yn enwedig mewn perthynas â chwyddiant cyflogau a chwyddiant costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau, a chyllidebwyd dyfarniad cyflog o 2.75% ar adeg pan ddisgwylir i chwyddiant fod tua 7%. Mae hyn yn dilyn canllawiau'r Swyddfa Gartref y dylai'r dybiaeth cyflog fod yn fwy na 2%. Yn y Cynllun Ariannol

Tymor Canolig presennol, byddai'n ddarbodus tybio y bydd cynnydd mewn cyflogau a phrisiau ar gyfer 2024/25 yn gyffredinol uwch na'r hyn a awgrymir gan ragolwg presennol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

**Tabl 14 – Tybiaethau chwyddiant y Cynllun Ariannol Tymor Canolig**

| Tybiaeth y gyllideb (%) | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 |
|---|---|---|---|---|---|
| Swyddogion heddlu | 2.75% | 1.75% | 1.5% | 1.5% | 1.5% |
| Staff yr heddlu | 2.75% | 1.75% | 1.5% | 1.5% | 1.5% |
| Chwyddiant cyffredinol | 5.25% | 0.50% | 1.0% | 2.0% | 2.0% |
| Cynnydd mewn pensiynau | 10.1% | 0.50% | 1.0% | 2.0% | 2.0% |
| Trydan | 99.2% | 0.50% | 2.5% | 2.3% | 2.0% |
| Nwy naturiol | 217.0% | 0.50% | 2.5% | 2.3% | 2.0% |
| Ardrethi | 9.0% | 0.50% | 1.0% | 2.0% | 2.0% |
| Rhenti | 15.0% | 0.50% | 1.0% | 2.0% | 2.0% |
| Tanwydd | 7.3% | 0.50% | 1.0% | 2.0% | 2.0% |


## 11 Y Setliad Ariannu yn y Dyfodol a'r Fformiwla Gyllido


11.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn adlewyrchu setliadau arian parod gwastad ar gyfer 2024/25 a 2025/26, gan adlewyrchu amrywiaeth o risgiau posibl. Mae'r rhain yn cynnwys ariannu drwy fformiwla cyllido, y sector cyhoeddus, a chydgrynhoi gwariant a gyhoeddwyd yn Natganiadau'r Hydref.

11.2 O ran ariannu drwy fformiwla gyllido, ni ellir gwneud tybiaeth wybodus ar sail unrhyw beth ar hyn o bryd. Byddai defnyddio ffigur o'r ymarfer a derfynwyd yn 2016, er enghraifft, yn annibynadwy. Gyda newid yn y mathau o droseddau, mae ein cyfran o droseddau cenedlaethol bellach yn fwy na'n cyfran fformiwla o 0.71%, ac nid felly oedd y sefyllfa yn 2016. Roedd hyn yn amlwg yn ein hachos a gafodd ei gyflwyno i Aelodau Seneddol ym mis Gorffennaf 2022. Yn ogystal, yn ddiweddar, mae'r Swyddfa Gartref wedi ymgynghori ar y costau ychwanegol sy'n deillio o natur wledig a thymhorol yr ardal, sy'n effeithio'n sylweddol ar yr heddlu hwn.

**Llun 8 – Ariannu drwy fformiwla gyllido – Ffeithiau allweddol gan gymharu 2016 â 2021**

**2021** **2016**




11.3 Er gwaethaf uchelgais y Swyddfa Gartref i weithredu newidiadau i'r fformiwla yn ystod tymor y Senedd hon, bydd gweithredu newidiadau i'r fformiwla gyllido ar adeg pan fo cyllidebau cyffredinol yn gostwng yn heriol iawn. Nid yw'r union amseriad (gydag etholiad yn 2024) yn glir o hyd, ac mae'r Swyddfa Gartref yn cadw'n dawel ynglŷn ag unrhyw derfynau uchaf ac isaf neu fesurau diogelu eraill a fyddai'n berthnasol. Bydd y rhyngweithio rhwng y grant Uplift (£1.9 miliwn) a niferoedd swyddogion ac ati yn ddiddorol yn y cyd-destun hwn.

11.4 Credir y bydd ymgynghoriad ar y dull a'r egwyddorion yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2023. O ystyried maint yr effaith y gallai'r adolygiad o'r fformiwla gyllido ei chael, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cytuno i gofnodi'r posibilrwydd hwn ar y Gofrestr Risg Strategol. Nid oes amheuaeth y byddai unrhyw ostyngiadau sylweddol mewn cyllid grant canolog yn cael goblygiadau difrifol ar wasanaethau'r heddlu a'r cymunedau yn ardal Dyfed-Powys. Byddai Grŵp Aur penodol yn cael ei sefydlu er mwyn datblygu cynlluniau cynaliadwy ar gyfer modelau gweithredol a sefydliadol i ymdrin â'r senarios posibl.

11.5 Mae'r broses o ailbrisio pensiynau swyddogion heddlu, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, yn bryder tymor canolig tebyg. Mae gan hyn y potensial i gynyddu'n sylweddol y cyfraniad pensiwn o 31% y mae'r heddlu'n ei dalu i'r gronfa bensiynau ar hyn o bryd (o gymaint ag 20%). Bydd y cynnydd canrannol yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi'i gynnal ar y gyfradd ddisgowntio briodol, sydd heb ei datrys ar hyn o bryd.

11.6 Bydd dau ffactor yn effeithio ar yr ailbrisiad. Yn gyntaf, effaith rhwymedi McCloud/Sergeant a roddodd amddiffyniad i bob swyddog rhag effaith y cynllun pensiynau ar sail cyflog cyfartalog gyrfa am gyfnod o ddeng mlynedd o 2012 ymlaen. Mae hyn yn berthnasol ar draws y rhan fwyaf o gynlluniau

pensiwn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y gwasanaeth tân, athrawon, y cynllun pensiwn llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd. Yn ail, effaith y disgwyliad oes cyffredinol, recriwtio swyddogion a phwysau cyffredinol o ran chwyddiant a dyfarniadau cyflog a allai fod yn fwy penodol i gynllun.

11.7 Mae newidiadau blaenorol i gyfraniadau pensiwn sy'n effeithio ar gynlluniau pensiwn yr heddlu wedi cael eu hariannu gan y llywodraeth. Ar gyfer y Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn, tybir y bydd cynnydd mewn cyfraniadau o £10.1 miliwn yn 2024/25 yn cael ei ariannu'n llawn gan y llywodraeth, ar ffurf grant ychwanegol. Mae hyn yn amlwg yn risg, a bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n agos dros y misoedd nesaf.

11.8 At ddibenion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, tybir y bydd arian parod yn wastad ar gyfer y setliad dros y ddwy flynedd nesaf, sef 2024/25 a 2025/26, gyda'r llywodraeth yn ariannu cost ychwanegol y gwaith ailbrisio pensiynau yn llawn. Mae blaendybiaeth praesept o 5% hefyd wedi'i hymgorffori ar hyn o bryd. Mae'n bosibl bod hyn yn ymddangos yn rhy optimistaidd, ond, ar hyn o bryd, prin yw'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn gallu gwneud asesiad mwy gwybodus o'r effaith.

## 12 Cynlluniau Arbedion yn y Dyfodol / Adolygiad o'r Heddlu a Thybiaethau

12.1 Yn ogystal â'r cynnydd hwn mewn costau sylfaenol, mae Tîm Adolygu'r Heddlu wedi datblygu cynllun lleihau costau a gwasanaethau sydd â'r nod o gyflawni arbedion o £11.2 miliwn dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn ddangosol ar hyn o bryd, ond ceir crynodeb lefel uchel o'r cynlluniau presennol isod:

**Tabl 15 – Cynllun arbedion / Adolygiad o'r Heddlu**

| Cynllun arbedion / Adolygiad o'r Heddlu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gostyngiadau mewn costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau | -593 | -50 | -50 | -50 | -50 | **-793** |
| Cyllid refeniw uniongyrchol i ostyngiadau mewn cyfalaf | -600 | 0 | 0 | 0 | 0 | **-600** |
| Cynhyrchu incwm (net) | -185 | 0 | 0 | 0 | 0 | **-185** |
| Gostyngiadau yn staff yr heddlu | -3,000 | -741 | 0 | 0 | 0 | **-3,740** |
| Arbedion swyddogion heddlu | -429 | -166 | -195 | -195 | 0 | **-985** |
| Arbedion caffael | -500 | -150 | -150 | -50 | -50 | **-900** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiedig ag adeiladau | -430 | -300 | -200 | -200 | 0 | **-1,130** |
| Cysylltiedig â thechnoleg | -140 | -220 | -300 | -300 | -100 | **-1,060** |
| Cysylltiedig â'r fflyd | -25 | -50 | -50 | 0 | 0 | **-125** |
| Moderneiddio'r gweithlu | 0 | 0 | -875 | -875 | 0 | **-1,750** |
| Cyfanswm | **-5,902** | **-1,677** | **-1,820** | **-1,670** | **-200** | **-11,269** |

12.2 Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae cyflawni'r cynllun arbedion yn cynnwys risg gynhenid a bydd angen rheoli a goruchwylio'r broses yn ofalus.

12.3 Bydd angen gwneud rhagor o waith ac ymgynghori ar yr union ddadansoddiad o'r cynllun hwn ar hyn o bryd. Mae awydd brwd i ddiogelu swyddi staff yr heddlu lle bo modd a lleihau swyddogaethau lle bydd swyddogion heddlu yn gwneud gwaith a ellid ei gyflawni'n fwy priodol a darbodus gan staff yr heddlu, er bod hyn yn rhan o'r cynlluniau presennol a nodir uchod.

## 13 Cynlluniau Buddsoddi Cyfalaf

13.1 Mae asedau'n hanfodol i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau effeithlon, a dylid eu rheoli a'u cynnal yn dda. Mae strategaethau ar gyfer rheoli ystadau, TGCh ac amnewid cerbydau yn sail i'r strategaeth gyfalaf, o ran darparu'r manylion ar gyfer hirhoedledd yr eitemau hyn a'u cylchoedd adnewyddu optimwm.

13.2 Mae'r rhaglen gyfalaf a'r cyllid sy'n cwmpasu'r sefyllfa ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 hyd at 2027/28 wedi'u crynhoi isod:

**Tabl 16 – Rhaglen gyfalaf 2022/23 – 2027/28**

| Rhaglen gyfalaf | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tir ac adeiladau | 15,610 | 11,199 | 16,351 | 12,839 | 2,411 | 2,366 | 60,775 |
| Cerbydau | 1,918 | 1,280 | 2,014 | 1,680 | 1,875 | 1,834 | 10,600 |
| TG a gwariant strategol arall | 5,097 | 5,754 | 3,260 | 4,668 | 5,705 | 4,291 | 29,774 |
| **Gwariant cyfalaf** | **22,625** | **18,233** | **21,624** | **19,187** | **9,991** | **8,491** | **100,151** |
| Cyllid grant | -203 | -50 | -50 | -70 | - | - | -373 |
| Benthyca | -15,610 | -11,199 | -17,962 | -15,354 | -3,749 | -2,249 | -66,123 |
| Cyfraniadau o'r cyfrif refeniw | -2,948 | -2,306 | -2,675 | -3,711 | -6,192 | -6,192 | -24,024 |
| Derbyniadau cyfalaf | -50 | -400 | -500 | -50 | -50 | -50 | -1,100 |
| Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | -3,814 | -4,514 | -204 | - | - | - | -8,532 |
| **Cyllid cyfalaf** | -22,625 | -18,223 | -21,624 | -19,187 | -9,991 | -8,491 | -100,151 |

13.3 Mae gwaith wedi parhau drwy'r Grŵp Cyllid Strategol a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig i ystyried a blaenoriaethu gofynion ariannol a buddsoddi dros gyfnod hwy o amser. Er ei bod yn cynnwys nifer o dybiaethau ac ansicrwydd, mae'r rhaglen gyfalaf yn Atodiad G yn dangos rhagolwg estynedig ar gyfer cyfnod o ddeng mlynedd. Bydd y rhaglen hon yn cael ei hadolygu wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy eglur ac yn flynyddol, fel rhan o'r broses ffurfiol o osod y gyllideb a'r praesept.

13.4 Mae angen cyfanswm cyllid o £100.1 miliwn yn y rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer y cyfnod rhwng 2022/23 a 2027/28, gyda chynlluniau bellach i wario £22.6 miliwn yn ystod 2022/23. Er mwyn i'r rhaglen gyfalaf gyfredol gael ei hariannu'n llawn dros y pum mlynedd nesaf, bydd y cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn cael eu disbyddu erbyn diwedd 2024/25.

13.5 Rhagwelir y bydd angen cael benthyg £66.1 miliwn yn allanol er mwyn ariannu'r rhaglen, ac mae'r taliadau dyled llawn sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u cynnwys yng nghyllidebau refeniw'r dyfodol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn. Bydd y rhan fwyaf o'r benthyca hwn yn gysylltiedig ag asedau newydd ac yn ariannu gwaith adeiladu gorsaf a dalfa newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, darparu datrysiad i hen gyfleuster yr heddlu yn Aberhonddu, ynghyd â'r cyfleuster hyfforddi newydd ar gyfer y Gyd-uned Arfau Tanio. Ar hyn o bryd, disgwylir i gost y tri phrosiect cyfalaf hyn fod tua £52.3 miliwn.

13.6 Bydd angen cael benthyg arian hefyd i gefnogi'r gofynion buddsoddi helaeth i gynnal yr ystad a'r seilwaith TGCh hollbwysig i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau plismona yn effeithiol, yn ogystal â thalu am gynlluniau cynaliadwyedd sy'n arbed costau.

## 14 Effaith ar Gronfeydd Wrth Gefn

14.1 Yn unol â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref, mae'r Comisiynydd yn ystyried rôl y cronfeydd wrth gefn wrth lunio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r gyllideb flynyddol. Mae'r Comisiynydd, gyda chefnogaeth ei Brif Swyddog Cyllid, yn gyfrifol am sicrhau digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn fel y gellir ymdrin ag unrhyw bwysau annisgwyl ar sail galw ar y gyllideb, heb gael effaith andwyol ar gyflawni'r blaenoriaethau allweddol.

14.2 Mae Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd sefydlu strategaeth ar gronfeydd wrth gefn, a hynny gan ymgynghori â'r Prif Gwnstabl. Dangosir y strategaeth hon yn Atodiad D, ac mae'n manylu ar y dull gweithredu ar gyfer 2023/24 a'r tu hwnt.

14.3 Wrth ystyried ffactorau cadernid a chynaliadwyedd, mae'r Comisiynydd yn parhau i adolygu'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, nid yn unig yn ffurfiol wrth gwblhau'r datganiad cyfrifon, ond hefyd yn ystod y flwyddyn wrth ystyried y sefyllfa mewn adroddiadau rheolaeth ariannol a pharatoi'r

Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r asesiadau hyn a'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn wedi'i gwneud yn bosibl cyflawni rhywfaint o waith lliniaru wedi'i gynllunio ar wasgfeydd untro a beichiau cost, y defnyddir cronfeydd wrth gefn i ymdrin â nhw.

14.4 Fel rhan o'r camau rhagweithiol a gymerodd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn, rhagwelir y dylai'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn ei gwneud yn bosibl lliniaru rhywfaint ar wasgfeydd untro yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, a'i gwneud yn bosibl creu cronfa wrth gefn i liniaru effaith pwysau chwyddiant ychwanegol.

14.5 Mae model ariannol manwl wedi cael ei lunio sy'n ymgorffori'r rhagolygon a thybiaethau amrywiol, gan gadw rheolaeth ariannol ddarbodus a chadernid ariannol mewn golwg. Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa a cheir rhagor o fanylion yn Atodiad E.

**Tabl 18 – Rhagolygon o sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn rhwng 2022/23 a 2027/28**

| | Balance at 31/3/22 £'000 | Balance at 31/3/23 £'000 | Balance at 31/3/24 £'000 | Balance at 31/3/25 £'000 | Balance at 31/3/26 £'000 | Balance at 31/3/27 £'000 | Balance at 31/3/28 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| General Reserves | -4,032 | -4,032 | -4,032 | -4,032 | -4,032 | -4,032 | -4,032 |
| **Total General Reserve** | -4,032 | -4,032 | -4,032 | -4,032 | -4,032 | -4,032 | -4,032 |
| | | | | | | | |
| Insurance and Litigation Reserve | -1,100 | -500 | -500 | -500 | -500 | -500 | -500 |
| Budget Adjustment Reserve | -75 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Police Education Qualification Framework Reserve | -120 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bank Holiday Reserve | -511 | -290 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Inflation Reserve | 0 | -250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| COVID 19 Reserve - Training Backlog | -400 | -166 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chief Constable Operational Fund | -499 | -499 | -354 | -209 | -209 | -209 | -209 |
| Transformational Projects Reserve | -1,068 | -1,482 | -0 | -0 | -0 | -0 | -0 |
| Budget Pressure Mitigation - Energy | 0 | -424 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incentivisation/ Proceeds of Crime Act Reserve | -144 | -158 | -170 | -182 | -194 | -206 | -218 |
| Commissioner's Fund | -474 | -357 | -157 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Forfeiture Reserve | -34 | -34 | -34 | -34 | -34 | -34 | -34 |
| Sale of Found Property Reserve | -23 | -24 | -24 | -24 | -24 | -24 | -24 |
| Driver Retraining Scheme Reserve | -793 | -865 | -770 | -670 | -570 | -470 | -370 |
| Drug Intervention Reserve | -78 | -78 | -78 | -78 | -78 | -78 | -78 |
| **Total Specific Earmarked Revenue Reserves** | -5,320 | -5,127 | -2,087 | -1,697 | -1,609 | -1,521 | -1,433 |
| | | | | | | | |
| Other Earmarked Capital Reserves | -8,038 | -4,310 | -439 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sustainability Reserve | -494 | -408 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Total Earmarked Capital Reserves** | -8,532 | -4,718 | -439 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | |
| Collaboration Revenue Reserve | -306 | -306 | -306 | -306 | -306 | -306 | -306 |
| Go Safe Revenue Reserve | -290 | -0 | -0 | -0 | -0 | -0 | -0 |
| Go Safe Capital Reserve | -1,023 | -188 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Total Ringfenced Revenue and Capital Reserves** | -1,618 | -494 | -306 | -306 | -306 | -306 | -306 |
| | | | | | | | |
| **TOTAL USEABLE RESERVES** | -19,502 | -14,372 | -6,864 | -6,036 | -5,948 | -5,860 | -5,772 |

14.6 Bydd swm o £4.032 miliwn yn cael ei gynnal yn y gronfa wrth gefn gyffredinol dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n golygu y bydd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol fydd ar gael i'r Comisiynydd eu defnyddio yn gostwng o £19.502 miliwn ym mis Mawrth 2022 i £5.772 miliwn erbyn 2028. O ran cadernid ariannol, mae bodolaeth y cronfeydd wrth gefn sydd wedi cronni dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn hanfodol o ran sicrhau bod gan y Comisiynydd ddigon o arian i gyllido pwysau costau a gwneud arbedion sydd eu hangen i fantoli cyllidebau yn 2023/24.

## 15 Crynodeb o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig

15.1 Mae Atodiad A yn cynnwys sefyllfa gryno o'r gyllideb refeniw ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2028, sy'n seiliedig ar y tybiaethau y manylir arnynt uchod, ac isod ceir datganiad amrywiad yn dangos y prif eitemau a ychwanegwyd at y gyllideb ac a ddilëwyd oddi wrthi ym mhob blwyddyn:

**Tabl 19 – Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod rhwng 2023/24 a 2027/28**

| | 2023/4 £'000 | 2024/5 £'000 | 2025/6 £'000 | 2026/7 £'000 | 2027/8 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Prior Year Baseline Budget | 127,445 | 133,414 | 147,711 | 152,151 | 157,913 |
| Actual Budget for Year | 133,414 | 147,711 | 152,151 | 157,913 | 162,896 |
| **Difference In Budget** | **5,969** | **14,297** | **4,439** | **5,763** | **4,983** |
| *Expenditure Increase* | 4.7% | 10.7% | 3.0% | 3.8% | 3.2% |
| | | | | | |
| ***Represented by*** | | | | | |
| Pay Award Increases Prior Year | 4,194 | 1,419 | 996 | 866 | 880 |
| Pay Awards in Year | 1,818 | 1,302 | 1,200 | 1,244 | 1,272 |
| General Inflation | 4,382 | 189 | 317 | 614 | 639 |
| Officer and Staff Increments | 644 | 611 | 572 | 473 | 433 |
| Ongoing Impact of Uplift Officers | 1,556 | 570 | 575 | 778 | 575 |
| Correction of Tax base | 75 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bank Holiday Policing | 120 | -290 | 100 | 100 | 0 |
| Summer Demand Costs | 145 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Other Standstill Pressures | 318 | 73 | -70 | 20 | 0 |
| Estates - Net New Building costs | 188 | 63 | 250 | 0 | 112 |
| OPCC and Commissioning Reductions | -162 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pensions Revaluation Costs | 0 | 10,100 | 0 | 0 | 0 |
| Borrowing Costs | 916 | 868 | 1,176 | 978 | 272 |
| National Insurance Changes (1.25%) | -1,073 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Police Staff Pensions | -290 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uplift Grant Increase | -992 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Direct Revenue Financing | -57 | 355 | 1,000 | 1,000 | 0 |
| Budget Growth Linked to Priorities | 1,098 | 0 | 0 | 1,359 | 1,000 |
| Reserves - Bank Holiday Offset | -290 | 290 | 0 | 0 | 0 |
| Reserves - Utility Offset | -424 | 424 | 0 | 0 | 0 |
| Reserves - Overtime Offset | -145 | 0 | 145 | 0 | 0 |
| Speed Reduction / Driver Training | -150 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cost and Service Reduction Plan | -5,902 | -1,677 | -1,820 | -1,670 | -200 |
| Cost of Change | 1,482 | -1,482 | 0 | 0 | 0 |
| Transformation Reserve to Fund | -1,482 | 1,482 | 0 | 0 | 0 |
| **Total Budget Variance** | **5,969** | **14,297** | **4,439** | **5,762** | **4,983** |
| **Funding Scenario Increases** | | | | | |
| Settlement | -211 | 0 | 0 | -1,065 | -14 |
| Assumed Pension Grant* | 0 | -10,100 | 0 | 0 | 0 |
| Assumed Formula Funding Reduction | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Precept @ 5% | -5,758 | -4,197 | -4,440 | -4,697 | -4,969 |
| **Total** | **-5,969** | **-14,297** | **-4,440** | **-5,762** | **-4,983** |
| | | | | | |
| Gap | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

15.2 Er bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflwyno ar gyfer y blynyddoedd i ddod, mae'n bwysig cydnabod bod cynllun effeithlonrwydd sylweddol yn cael ei adlewyrchu a bod risgiau wedi'u nodi o ran ansicrwydd ynghylch chwyddiant, cynnydd mewn pensiynau a'r adolygiad o'r fformiwla gyllido.

15.3 Mae hefyd yn werth rhoi sylw i'r gwrthdaro a'r deuoliaeth bosibl a allai ddeillio o ofynion yn y dyfodol o ran bodloni disgwyliadau'r llywodraeth yn y dyfodol fod nifer swyddogion heddlu yn cael ei gynnal, oherwydd y gallai

hyn lesteirio'r gwaith o gynllunio adnoddau sefydliadol yn y ffordd orau bosibl.

15.4 Rhaid nodi bod y sefyllfa ariannol bresennol wedi bod yn niweidiol o ran cadernid ariannol, ac mae gan yr heddlu gynllun lleihau costau a gwasanaethau sylweddol i'w weithredu. Mae heriau ariannol posibl sylweddol o'n blaenau, ac mae'r gyllideb a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyflwynir yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng y pwysau uniongyrchol y mae'r cyhoedd a'r heddlu yn eu profi a dyfodol ansicr ac anrhagweladwy iawn.

## 16 Adran 25 a Risg Cyllidebol

16.1 Mae Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd i'r Comisiynydd, ar yr adeg y mae'r gyllideb yn cael ei phennu, ar y risgiau a'r ansicrwydd a allai olygu bod angen gwario mwy ar y gwasanaeth nag a gynlluniwyd, a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn. Mae'r adroddiad hwn i'w weld yn Atodiad B.

16.2 Rhoddir lwfans ar gyfer y risgiau hyn drwy wneud y canlynol:

- cynnwys lwfans darbodus yn yr amcangyfrifon, yn ogystal â
- sicrhau bod digon o arian wrth gefn i'w ddefnyddio os bydd amcangyfrifon y gwasanaeth yn annigonol yn y pen draw.

16.3 Mae'n bwysig bod y risg gyllidebol wedi'i lleihau pan fydd y gyllideb yn cael ei phennu. Rhaid i lefel y risg gyllidebol gael ei hystyried yn ffurfiol gan y Comisiynydd ar sail cyngor a barn ei Brif Swyddog Cyllid.

16.4 Mae Atodiad C hefyd yn amlinellu asesiad o effaith y risg ar draws amrywiol benawdau'r gyllideb, ac mae'n seiliedig ar ganran y gyllideb refeniw net a'r ffactorau hysbys, a allai ddylanwadu ar lefelau gwariant neu incwm gwirioneddol.

## 17 Barn ac Ymgynghoriad Cyhoeddus

17.1 Ar 1 Rhagfyr 2022, lansiodd y Comisiynydd ymgynghoriad cyhoeddus ar braesept yr heddlu ar gyfer 2023/24. Roedd yn bwysig i'r Comisiynydd ei fod yn ceisio barn y cyhoedd a gweithlu Heddlu Dyfed-Powys. Anogodd bawb i leisio'u barn ar y mater hollbwysig hwn, er mwyn sicrhau, fel heddlu, y gall Heddlu Dyfed-Powys barhau i ddiogelu ei gymunedau gyda gwasanaeth o'r safon uchaf bosibl.

17.2 Er mwyn cynorthwyo'r cyhoedd i roi eu barn, cafodd arolwg ei lunio a'i hyrwyddo'n eang. Ymatebodd cyfanswm o 1,418 o bobl i'r ymgynghoriad. O'r 1,418, nododd cyfanswm o 1,290 o ymatebwyr eu bod yn breswylydd neu'n drethdalwr busnes yn ardal Dyfed-Powys. O'r 1,290 o ymatebwyr hyn, atebodd cyfanswm o 1,194 y cwestiwn canlynol ar lefel y praesept:

*Faint yn fwy y byddech yn barod i'w dalu bob mis drwy braesept yr heddlu i gefnogi'r gwaith o ddarparu eich gwasanaeth plismona lleol? (Sylwer bod y canrannau yn cyfeirio at eiddo ym Mand D y dreth gyngor.)*

**Tabl 20 – Ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

| Opsiwn | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **5%** (£14.51 y flwyddyn/£1.21 y mis). Byddai hyn yn gadael Heddlu Dyfed-Powys â diffyg ariannol o £3.3 miliwn, ond mae'n tybio cynllun arbedion / effeithlonrwydd o £5.9 miliwn. | 234 | 19.6% |
| **7.5%** (£21.76 y flwyddyn/£1.81 y mis). Byddai hyn yn gadael Heddlu Dyfed-Powys â diffyg ariannol o £1.6 miliwn, ond mae'n tybio cynllun arbedion / effeithlonrwydd o £5.9 miliwn. | 146 | 12.2% |
| **9.9%** (£28.60 y flwyddyn/£2.38 y mis). Byddai hyn yn gadael Heddlu Dyfed-Powys heb unrhyw ddiffyg yn ei gyllid, ond mae'n tybio cynllun arbedion / effeithlonrwydd o £5.9 miliwn. | 185 | 15.5% |
| **12.5%** (£36.27 y flwyddyn/£3.02 y mis). Byddai hyn yn gadael Heddlu Dyfed-Powys heb unrhyw ddiffyg yn ei gyllid ond byddai hefyd yn lleihau'r cynllun arbedion / effeithlonrwydd gan £1.8 miliwn i £4.1 miliwn. | 238 | 19.9% |
| Dim un o'r uchod | 391 | 32.8% |

17.3 Braf oedd gweld y cynnydd sylweddol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad eleni ac mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod 47.7% o'r ymatebion yn cefnogi cynnydd o rhwng 7.5% a 12.5% yn y praesept ar gyfer eiddo ym Mand D.

## 18 Casgliad

18.1 Fel yr amlinellwyd yng nghrynodeb y Comisiynydd, o ystyried y penderfyniadau ariannu hanesyddol, maint yr heriau ariannol a'r risgiau gweithredol y mae Heddlu Dyfed-Powys a'r gwasanaeth heddlu ehangach yn eu hwynebu, mae'n hanfodol sicrhau bod praesept yr heddlu yn ddigon i ddiogelu gwasanaethau plismona ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu mewn modd cynaliadwy, ond darbodus.

18.2 Mae'r adroddiad uchod yn nodi'r amrywiaeth o ffactorau ac ystyriaethau mewnol ac allanol sydd wedi llywio’r gwaith o ddatblygu’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

18.3 Mae’r Comisiynydd yn cyflwyno cynnig praesept ar gyfer 2023/24 a thybiaethau sy’n ategu’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hyd at 2026/27, a fydd yn ceisio codi’r praesept cyfartalog ar gyfer eiddo ym Mand D o £1.87 y mis neu £22.49 y flwyddyn i **£312.65**, sef cynnydd o **7.75%**. Bydd y cynnydd hwn yn codi cyfanswm praesept o £72.518 miliwn. Bydd hyn yn darparu cyfanswm o gyllid craidd canolog a chyllid lleol o £133.414 miliwn, sy'n gynnydd o 4.68% o gymharu â lefelau cyllid yn 2022/23.

18.4 Dangosir effaith praesept yr heddlu hwn ar bob band eiddo isod:

**Tabl 21 – Bandiau’r dreth gyngor**

| Tax Band | Basis | 2022/23 | 2023/24 | Increase |
|---|---|---|---|---|
| A | 6/9ths | £193.44 | £208.43 | £14.99 |
| B | 7/9ths | £225.68 | £243.17 | £17.49 |
| C | 8/9ths | £257.92 | £277.91 | £19.99 |
| **D** | **9/9ths** | **£290.16** | **£312.65** | **£22.49** |
| E | 11/9ths | £354.64 | £382.13 | £27.49 |
| F | 13/9ths | £419.12 | £451.61 | £32.49 |
| G | 15/9ths | £483.60 | £521.08 | £37.48 |
| H | 18/9ths | £580.32 | £625.30 | £44.98 |
| I | 21/9ths | £677.04 | £729.52 | £52.48 |

18.5 Wedi ystyried y cynllun arbedion cynhwysfawr ac uchelgeisiol, bwriedir i’r lefel hon o gyllid alluogi’r heddlu i barhau i gyflawni ei gynlluniau gweithredol a strategol, gan barhau i gael effaith gadarnhaol ar safonau’r gwasanaeth y gall y cyhoedd eu disgwyl, ond mae’r dirwedd ariannol yn parhau i fod yn ansicr a heriol, sy'n risg gynhenid. Bydd hwn yn parhau i fod yn faes ffocws ar gyfer gwaith cynllunio strategol.

Ionawr 2023

# Atodiad A – Cyllideb 2022/23 – 2027/28

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

| Category | Original Budget 2022/3 | Revised Budget 22/23 | Inflated Budget 22/23 | Original Budget 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | | | | | | |
| **Budgets Managed by the Police and Crime Commissioner** | | | | | | | | |
| PCC Office Costs | 1,284 | 1,253 | 1,280 | 1,281 | 1,307 | 1,327 | 1,349 | 1,371 |
| PCC Commissioning | 2,100 | 2,100 | 2,094 | 2,466 | 2,507 | 2,550 | 2,616 | 2,684 |
| PCC Income | -1,097 | -1,097 | -1,097 | -1,412 | -1,412 | -1,412 | -1,412 | -1,412 |
| **Net Costs Office Police and Crime Commissioner** | **2,288** | **2,256** | **2,276** | **2,335** | **2,402** | **2,466** | **2,554** | **2,643** |
| | | | | | | | | |
| **Budgets Managed by the Chief Constable** | | | | | | | | |
| Police Officer | 75,322 | 77,702 | 78,286 | 82,078 | 94,465 | 95,904 | 97,430 | 99,729 |
| Police Staff | 39,084 | 37,477 | 38,240 | 37,539 | 37,786 | 38,403 | 38,931 | 39,601 |
| Police Pensions | 1,720 | 1,772 | 1,783 | 1,733 | 1,748 | 1,769 | 1,802 | 1,836 |
| Indirect Staff Costs | 2,367 | 2,252 | 2,272 | 3,563 | 1,875 | 1,843 | 1,830 | 1,816 |
| Premises Related | 4,736 | 4,831 | 5,241 | 6,607 | 6,402 | 6,558 | 6,492 | 6,736 |
| Transport Related | 2,070 | 2,095 | 2,306 | 2,471 | 2,440 | 2,413 | 2,462 | 2,511 |
| Supplies and Services | 12,360 | 12,418 | 13,565 | 13,192 | 13,136 | 13,066 | 13,225 | 13,439 |
| Agency and Contracted | 3,822 | 3,432 | 3,412 | 4,049 | 4,106 | 4,170 | 4,271 | 4,375 |
| Capital Borrowing Costs | 298 | 370 | 370 | 1,286 | 2,154 | 3,330 | 4,308 | 4,580 |
| Direct Capital Financing | 2,948 | 2,948 | 2,948 | 2,306 | 2,675 | 3,711 | 6,192 | 7,336 |
| Total Gross Spending - Force | 144,726 | 145,296 | 148,423 | 154,824 | 166,786 | 171,167 | 176,942 | 181,958 |
| | | | | | | | | |
| Income | -6,678 | -7,481 | -7,593 | -8,261 | -8,365 | -8,530 | -8,642 | -8,777 |
| Police Uplift Programme Specific Grant | -956 | -956 | -956 | -1,948 | -1,948 | -1,948 | -1,948 | -1,948 |
| Pensions | -1,302 | -1,302 | -1,302 | -1,302 | -1,302 | -1,302 | -1,302 | -1,302 |
| Specific Grants | -9,474 | -9,217 | -9,200 | -9,506 | -9,491 | -9,477 | -9,464 | -9,451 |
| Recharges and Apportionments | -190 | -183 | -183 | -83 | -83 | -83 | -83 | -83 |
| **Net Spending - Force** | **126,126** | **126,157** | **129,189** | **133,724** | **145,597** | **149,828** | **155,503** | **160,396** |
| | | | | | | | | |
| Use of (-) / Contribution to (+) Balances | -969 | -969 | -1,460 | -2,645 | -288 | -143 | -143 | -143 |
| **Total Spending OPCC and Force** | **127,445** | **127,445** | **130,006** | **133,414** | **147,711** | **152,151** | **157,913** | **162,896** |
| % Increase in Budget | | | | 4.7% | 10.7% | 3.0% | 3.8% | 3.2% |
| **Financing** | | | | | | | | |
| Police Grant | -52,018 | -52,018 | -52,512 | -60,896 | -60,896 | -70,996 | -72,061 | -72,075 |
| Additional Grant - In year | 0 | 0 | 0 | 0 | -10,100 | 0 | 0 | 0 |
| Revenue Support Grant/ National Non Domestic Rates | -8,667 | -8,667 | -8,667 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Precept | -66,760 | -66,760 | -66,760 | -72,518 | -76,715 | -81,155 | -85,852 | -90,821 |
| | **-127,445** | **-127,445** | **-127,939** | **-133,414** | **-147,711** | **-152,151** | **-157,913** | **-162,896** |
| | | | | | | | | |
| Difference - Annual Surplus (-) or Deficit (+) | **0** | **0** | **2,067** | **0.000** | **0.000** | **0.000** | **0.000** | **0.000** |
| | | | | | | | | |
| Taxbase | 226,109 | 230,081 | 230,081 | 231,948 | 233,687 | 235,440 | 237,206 | 238,985 |
| Precept at Band D | 275.56 | 290.16 | 290.16 | 312.65 | 328.28 | 344.70 | 361.93 | 380.03 |
| Percentage Increase in Band D | | | | 7.75% | 5.00% | 5.00% | 5.00% | 5.00% |
| Absolute Increase in Band D - Annual (£) | | | | £22.49 | £15.63 | £16.41 | £17.23 | £18.10 |

1. Mae Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid gyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd ar y materion canlynol, ar adeg pennu'r gyllideb:
   - cadernid yr amcangyfrifon a wnaed at ddibenion cyfrifiadau;
   - a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn arfaethedig.
2. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd a'r Panel Heddlu a Throseddu roi sylw i'r adroddiad hwn wrth ystyried y gyllideb a gwneud penderfyniadau yn ei chylch.
3. Fel y gwyddom, mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn ddigynsail am amrywiaeth o resymau, ond yn anffodus mae 2022/23 wedi parhau yn yr un modd, gydag economi sy'n gwanhau, cyfraddau llog uwch a chwyddiant cynyddol. Mae effeithiau'r argyfwng costau byw yn bellgyrhaeddol ac maent hefyd wedi'u gosod yng nghyd-destun Brexit a phandemig COVID-19. Yn ddiamau, bydd effaith y rhain yn arwain at oblygiadau sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus a chyllid y llywodraeth yn y dyfodol.
4. Mae trafodaethau manwl wedi bod yn mynd rhagddynt drwy gydol 2022/23 mewn perthynas â rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r rhain wedi digwydd yn anffurfiol rhwng y Cyfarwyddwr Cyllid a minnau, o fewn strwythur llywodraethu ffurfiol yr heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a hefyd yn ystod cyfres o gyfarfodydd ynglŷn â'r gyllideb a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, y Cyfarwyddwr Cyllid a minnau.
5. Ar ôl cydnabod maint yr heriau ariannol yn y dyfodol, cyhoeddodd y Prif Gwnstabl fwletin yr heddlu ar 30 Mehefin 2022 a gyhoeddodd yn ffurfiol bod Tîm Adolygu'r Heddlu wedi cael ei sefydlu. Mae'n bwysig nodi bod y Prif Gwnstabl wedi cymryd nifer o gamau cynnar hefyd i gyfyngu'n rhagweithiol ar wariant yn ystod 2022/23, a allai wedyn liniaru beichiau ariannol yn ogystal â chyfrannu at leddfu gwasgfeydd ariannol untro.
6. Wrth gydnabod yr heriau ariannol, mae'r heddlu wedi nodi cynllun arbedion mawr ac uchelgeisiol ar gyfer 2023/24 a'r tu hwnt. Mae'n bwysig nodi bod hyn yn llawer mwy sylweddol na'r hyn a gyflawnwyd yn ystod unrhyw gyfnod o'r blaen, gan gynnwys ymgyrch Sage, y Cyhoedd yn Gyntaf a Gwario'n Ddoeth. Ategir y cynllun arbedion gan dybiaethau manwl sydd wedi'u nodi mewn ffordd dryloyw, ond wrth i waith ac ymgynghoriadau fynd rhagddynt, bydd yn cymryd amser i grisialu nifer o'r rhain er mwyn cael eglurder ariannol llwyr. Bydd angen goruchwylio'r effeithiau canlyniadol, y goblygiadau a'r risgiau gweithredol a threfniadol cynhenid yn ofalus. Cydnabyddir ei bod yn anos cyflawni arbedion ac mae cyfyngiadau'r Rhaglen Uplift yr Heddlu yn debygol o ffrwyno'r cymysgedd adnoddau gorau posibl ar gyfer yr heddlu.
7. Mae'r cyllidebau arfaethedig a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar asesiad llinell-wrth-linell cynhwysfawr o dybiaethau chwyddiant. Er mwyn llywio'r tybiaethau, mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a minnau wedi ystyried ystod eang o ddata ariannol ac

economaidd, gan gynnwys yr adroddiad cynhwysfawr iawn a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn ogystal â pharhau i ymgysylltu'n agos â rhwydweithiau proffesiynol.

8. Mae'r Prif Gwnstabl wedi nodi ei ofynion cyllideb yn dryloyw ar bob cam o'r broses ac wedi dogfennu'r newidiadau wrth iddynt ddigwydd neu grisialu yn ystod y cyfnod hwn. Rhaid cydnabod bod nifer sylweddol o dybiaethau ac amcangyfrifon yn cael eu defnyddio i lunio'r gofyniad cyllideb. Nid yw hon yn wyddor fanwl ac ni all fod, a bydd amrywiadau yn anochel.

9. Er bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi ceisio gwneud darpariaeth briodol ar gyfer codiadau realistig mewn cyflogau a phrisiau, a lefelau incwm cyraeddadwy, rhaid cydnabod bod hinsawdd o risg oherwydd cymhlethdod y materion sydd ar waith ar hyn o bryd.

10. Er bod grant ychwanegol wedi cael ei ddyrannu ar sail gylchol er mwyn helpu i dalu am y dyfarniad cyflog o £1,900 a ddyfarnwyd yn ystod 2022/23, nid yw'r setliad yn ystyried unrhyw bwysau chwyddiant eithriadol sy'n cael eu hysgwyddo. Mae llythyr yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog, dyddiedig 14 Rhagfyr 2022, hefyd yn nodi *"Dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ystyried y pwysau ar eu cyllidebau, gan gynnwys y potensial y bydd y dyfarniad cyflog ar gyfer 2023-24 uwchlaw 2% y flwyddyn nesaf, ac y dylent gyllidebu'n briodol yn unol â hynny."* Nid yw'r Swyddfa Gartref yn rhannu sail eu tybiaethau yn ffurfiol, er eu bod wedi nodi'n flaenorol eu bod wedi defnyddio 2%. Yn amlwg, gyda chyfran mor fawr o'r gyllideb gwariant, tua 75%, yn cael ei gwario ar gyflogau, gall unrhyw amrywiad rhwng dyfarniadau cyflog tybiedig a gwirioneddol gael goblygiadau enfawr. At ddibenion graddfa a sensitifrwydd, byddai amrywiad o 1% yn cael effaith, am ran o'r flwyddyn, o £630,000 (y dyfarniad o fis Medi ymlaen).

11. Dechreuodd ein tybiaethau cynllunio gyda dyfarniad cyflog o 3% o fis Medi 2023, a 5.75% ar gyfer chwyddiant cyffredinol ar gyfer 2023/24. Fodd bynnag, o ystyried yr her ariannol ehangach ac er mwyn lliniaru'r effaith ar drethdalwyr lleol, rydym wedi mabwysiadu dull seiliedig ar risg gyda thybiaeth o 2.75% sy'n cyfateb i ostyngiad o £115,000 yn y gofyniad cyllideb ar gyfer 2023/24, ynghyd â thybiaeth is o ran chwyddiant cyffredinol, sef 5.25% a fyddai'n arwain at ostyngiad o £158,000 yn y gyllideb. Yn amlwg, mae risg gynhenid i'r tybiaethau hyn, y byddwn yn ceisio'u lliniaru'n rhannol drwy sefydlu cronfa wrth gefn wedi'i glustnodi, a hynny drwy'r sefyllfa wrth iddi ddatblygu yn ystod y flwyddyn neu drwy ailddosbarthu. Byddai angen ystyried unrhyw wahaniaethau rhwng tybiaethau a'r dyfarniad cyflog gwirioneddol yn y tymor hwy hefyd.

12. Mae nifer o risgiau ynghlwm wrth y Cynllun Ariannol Tymor Canolig o hyd, gydag ansicrwydd ynghylch effeithiau rhwymedi pensiynau, adolygu'r fformiwla gyllido, gwasgfeydd ariannol posibl a gostyngiadau mewn grantiau penodol, a setliadau ariannu am flwyddyn nad ydynt yn cynnig unrhyw sicrwydd ar gyfer y dyfodol. Nid oes gennym sicrwydd ynghylch nifer o faterion mwy lleol ychwaith.

13. Ystyrir lefelau cronfeydd wrth gefn yng nghyd-destun risg, sy'n cydymffurfio â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), sy'n datgan "*er mwyn asesu pa mor ddigonol yw'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol heb eu dyrannu … rhaid ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r awdurdod*."

14. Mae angen monitro digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ofalus er mwyn sicrhau bod y cronfeydd hynny'n cael eu cynnal ar lefel gynaliadwy. Ar sail proffil tybiedig cyllid a chostau gwasanaethau o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, disgwylir gweld gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol, gyda gwariant refeniw net yn disgyn o 3.16% ar ddiwedd 2022/23, i 2.5% erbyn diwedd 2027/28. Mae'r gostyngiad hwn o ganlyniad i'r cynnydd yn y gyllideb refeniw net yn hytrach na defnyddio'r arian, gyda'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol o £4.032 miliwn yn parhau. Mae'r lefelau hyn yn tybio nad oes unrhyw alwadau ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol ar gyfer ymdrin â beichiau ariannol annisgwyl. Mae'n hanfodol ac yn bwysig gofalu bod y cydbwysedd hwn yn cael ei gynnal er mwyn bod yn barod am feichiau a gofynion gweithredol annisgwyl. Mae'n bwysig nodi hefyd, hyd yn oed mewn senario lle gallai'r heddlu fod yn gymwys ar gyfer grant arbennig, fel rheol byddai angen talu costau sy'n gyfwerth â hyd at 1% o'r gyllideb refeniw net (£1.331 miliwn ar gyfer 2023/24) yn lleol.

15. Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cael eu hadolygu a'u hystyried yn barhaus er mwyn helpu i gyflawni mentrau penodol neu liniaru yn erbyn risgiau penodol. Wrth baratoi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, rydym wedi ystyried y gwaith monitro ariannol a ragwelir yn ystod y flwyddyn, ac mae nifer o symudiadau wedi cael eu cynnig i'r Comisiynydd er mwyn helpu i liniaru gwasgfeydd untro, ond ni chaiff y gwaith hwn ei gwblhau tan ddiwedd y flwyddyn.

16. Er gwaethaf y codiadau tybiedig ym mhraesept y dreth gyngor, bydd angen sicrhau arbedion / bod yn fwy effeithlon yn barhaus dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a bydd ansicrwydd ynghylch cyllid grant craidd a chyllid grantiau penodol yn y dyfodol, a chymhlethdodau mewn perthynas â chostau pensiynau yng nghyd–destun y dirwedd economaidd ehangach, yn golygu bod yr amgylchedd ariannol yn debygol o barhau'n heriol yn y dyfodol agos.

17. Rwy'n fodlon bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi ystyried a dogfennu'n llawn yr amrywiaeth o faterion a thybiaethau hysbys a fydd yn cael effaith yn ystod y cyfnod cynllunio er mwyn llunio cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24. Gallaf gadarnhau y bernir bod yr amcangyfrifon refeniw a chyfalaf sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn gadarn a bernir bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol. Fodd bynnag, bydd ardal Dyfed-Powys yn parhau i wynebu heriau ariannol, ac mae angen canolbwyntio'n parhaus i sicrhau cadernid a chynaliadwyedd ariannol er mwyn diogelu cymunedau yn ardal Dyfed-Powys.

**Beverley Peatling**

| Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Costau cyflogau a phensiynau swyddogion heddlu | 62.8% | Uchel | Mae effaith dyfarniad cyflog 2022/23 wedi achosi goblygiadau ariannol sylweddol, ac er y derbyniwyd cyllid grant ychwanegol yn setliad 2023/24 (drwy grant penodol a neilltuwyd ar gyfer Rhaglen Uplift yr Heddlu), mae risgiau'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog yn y dyfodol ac maent yn peri pryder. Mewn llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cartref, dyddiedig 14 Rhagfyr 2022, cynghorwyd y Comisiynwyr i gynllunio ar gyfer dyfarniadau cyflog o fwy na 2%. Gallai'r ansicrwydd a'r gwasgfeydd ariannol o fewn y dirwedd economaidd ehangach arwain at bwysau cyflog ychwanegol na ellir mo'u hosgoi, y byddai angen eu hariannu, a gallai hyn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir o | Mae'r tybiaethau ynghylch dyfarniadau cyflog yn seiliedig ar wybodaeth ariannol ac economaidd amrywiol sy'n cael ei hadolygu'n barhaus.<br>Mae arian a goramser yn cael eu rheoli'n dynn, gan ddeiliaid cyllidebau a Grŵp Adnoddau'r Heddlu fel ei gilydd, ac mae adroddiadau ariannol a gwybodaeth reoli yn parhau i gael eu cryfhau. Mae deiliaid cyllidebau yn ymwybodol iawn o'r heriau ariannol a'u cyfrifoldebau dros reoli arian yn ddarbodus, ac mae ethos cryf ac ymwybyddiaeth o'r angen am reoli arian.<br>Sefydlwyd cronfa wrth gefn ar gyfer y Prif Gwnstabl i leddfu'r amodau cyfnewidiol yn sgil digwyddiadau difrifol.<br>Mae sicrhau bod yr Adran Gyllid wedi'i chynrychioli ym mhob grŵp aur a grwpiau ymchwilio gweithredol eraill yn digwydd fel mater o drefn. Mae hyn ei gwneud yn bosibl monitro goramser a chostau eraill ym mhob |

| Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | ganlyniad. Gwnaed tybiaethau ynglŷn â dyfarniadau cyflog yn y dyfodol, ond nes iddynt gael eu cadarnhau maent yn parhau i fod yn ansicr ac felly'n peri risg.<br>Effaith ariannol mwy sylweddol o ganlyniad i amseru'r codiad cyflog yn gynharach.<br>Nid yw costau goramser yr eir iddynt yn sgil digwyddiadau / gweithrediadau / ymchwiliadau mawr yn cael eu rheoli a'u monitro, ac felly maent yn fwy na'r swm y cyllidebwyd ar ei gyfer.<br>Cynnydd yn nifer y swyddogion mewn swydd, sydd uwchlaw'r lefel gymeradwy a ariennir ar gyfer y sefydliad.<br>Ni fydd y costau parhaus llawn sy'n gysylltiedig â Rhaglen Uplift | cyfarfod, ac mae adroddiadau amserol yn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau.<br>Mae Grŵp Adnoddau'r Heddlu yn monitro'r sefydliad yn fanwl a thrwy lywodraethu ffurfiol .<br>Gwasanaethau Pobl fydd y cynllun recriwtio ar gyfer y flwyddyn i ddod ar sail nifer swyddogion heddlu fydd yn ymddeol, yn gadael ac yn trosglwyddo, a swyddogion sy'n rhan o Raglen Uplift yr Heddlu. Mae'r nifer gofynnol o weithwyr ar gyfnod prawf yn cael ei gynllunio a'i ddyrannu'n briodol, gyda threfniadau cryfach i sicrhau bod targedau'r Swyddfa Gartref yn cael eu cyflawni, ac adroddiadau ychwanegol yn cael eu cyflwyno i'r Swyddfa Gartref drwy gydol y flwyddyn.<br>Grwpiau priodol yn cyflwyno sylwadau i'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â goblygiadau ehangach Rhaglen Uplift yr Heddlu a'r canlyniadau anfwriadol posibl o ganlyniad iddi, er gwaethaf y prif |

| Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | yr Heddlu yn cael eu hariannu'n llawn gan grant y llywodraeth.<br>Mae'r gyllideb hon yn sensitif iawn i newidiadau yn niferoedd swyddogion heddlu a'r cymhlethdodau o ran rheoli ymddeoliadau, ymddeoliadau ar sail afiechyd, cadw staff, recriwtio staff newydd, yn ogystal â bodloni gofynion sy'n gysylltiedig â Rhaglen Uplift yr Heddlu.<br>Bydd disgwyliadau ac amodau'r llywodraeth mewn perthynas â'r grant ar gyfer cefnogi Rhaglen Uplift yr Heddlu yn gweithio'n groes i ymdrechion yr heddlu, ai'r rwystro wrth iddo geisio trawsnewid a gwella'i allu i fodloni gofynion effeithlonrwydd ac arbedion yn y dyfodol.<br>Derbyniwyd cyllid grant penodol ychwanegol er mwyn helpu i | gyhoeddiadau a wnaed yn y setliad ariannu tair blynedd.<br>Mae'r cyllidebau cyflog yn cael eu monitro'n barhaus fel rhan o broses reoli'r gyllideb, gydag adroddiadau ffurfiol ym mhob rhan o'r strwythur llywodraethu. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn trafod perfformiad ariannol â'r Panel Heddlu a Throseddu, y Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Atebolrwydd Plismona ac yn ystod seminarau cyllid penodedig. Ymdrinnir â materion ariannol hefyd yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd Cyllid a Strategaeth, y Grŵp Cyllid a Chaffael Strategol a'r Grŵp Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>Mae sylwadau'n parhau i gael eu cyflwyno mewn perthynas â materion pensiwn cymhleth, ac mae tîm ymroddedig o fewn Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Yn hanesyddol, mae newidiadau mawr sydd â goblygiadau ariannol sylweddol wedi cael eu hariannu drwy'r Swyddfa Gartref ac yna'u |

| Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | liniaru effaith cyfarwyddyd prisio pensiynau 2018, ond nid oes sicrwydd y bydd y grant hwn yn parhau.<br>Mae newidiadau yn y ffordd y mae pensiynau'n cael eu prisio yn y dyfodol yn parhau i fod yn risg.<br>Yn ogystal â hyn, mae cryn ansicrwydd ynghylch y goblygiadau ariannol yn sgil dyfarniad y Goruchaf Lys mewn perthynas ag achos McCloud / Sergeant, a ganfu camwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oed. Derbyniodd y llywodraeth fod y dyfarniad hwn yn berthnasol i bob un o brif gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, gan gynnwys yr heddlu. Nid yw graddfa lawn y goblygiadau ariannol yn hysbys o hyd, ond mae arwyddion y gallai hyn achosi i gyfraddau | cynnwys mewn adolygiadau actiwaraidd dilynol. |

| **Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Maes cyllideb** | **% o gostau net** | **Lefel risg** | **Risg a nodwyd** | **Ffactor lliniarol** |
|---|---|---|---|---|
| | | | cyfraniadau cyflogwyr gynyddu i hyd at oddeutu 40% heb unrhyw sicrwydd y ceir cyllid grant ychwanegol. | |
| Costau cyflogau staff yr heddlu (gan gynnwys Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu) | 28.9% | Uchel | Mae effaith dyfarniad cyflog 2022/23 wedi achosi goblygiadau ariannol sylweddol ac, er y cafwyd grant ychwanegol yn setliad 2023/24 (drwy'r grant penodol a neilltuwyd ar gyfer Rhaglen Uplift yr Heddlu), mae risgiau'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog yn y dyfodol ac maent yn peri pryder. Mewn llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cartref, dyddiedig 14 Rhagfyr | Mae'r tybiaethau ynghylch dyfarniadau cyflog yn seiliedig ar wybodaeth ariannol ac economaidd amrywiol sy'n cael ei hadolygu'n barhaus.<br>Mae'r Bwrdd Rheoli Adnoddau yn monitro'r sefydliad yn fanwl a thrwy lywodraethu ffurfiol . Mae proses Gateway wedi cael ei sefydlu i fonitro a rheoli'r holl newidiadau i'r sefydliad, ac yn wir mae pob swydd yn cael ei hadolygu a'i hystyried yn llawn cyn eu hysbysebu.<br>Mae'r cyllidebau cyflog yn cael eu monitro'n barhaus fel rhan o'r broses o reoli'r gyllideb, |

| Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | 2022, cynghorwyd y Comisiynwyr i gynllunio ar gyfer dyfarniadau cyflog o fwy na 2%. Gallai'r ansicrwydd a'r gwasgfeydd ariannol o fewn y dirwedd economaidd ehangach arwain at bwysau cyflog ychwanegol na ellir mo'u hosgoi, y byddai angen eu hariannu a gallai hyn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir o ganlyniad. Gwnaed tybiaethau ynglŷn â dyfarniadau cyflog yn y dyfodol, ond nes iddynt gael eu cadarnhau maent yn parhau i fod yn ansicr ac felly'n peri risg.<br><br>Cynnydd yn nifer y staff mewn swyddi, sydd uwchlaw'r lefel gymeradwy a ariennir ar gyfer y sefydliad.<br><br>Mae costau ychwanegol megis goramser ac ati yn cael eu costio'n gywir ar gyfer prosiectau | gydag adroddiadau ffurfiol ym mhob rhan o'r strwythur llywodraethu. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn trafod perfformiad ariannol â'r Panel Heddlu a Throseddu, y Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ac yn ystod seminarau cyllid penodedig. Ymdrinnir â materion ariannol hefyd yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd Cyllid a Strategaeth.<br><br>Bydd sylwadau a gyflwynir i Lywodraeth Cymru yn parhau i geisio sicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer cefnogi Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu. |

| Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | sy'n gofyn am gynnwys staff y tu allan i oriau gwaith arferol.<br>Risgiau sefydliadol a gweithredol sy'n gysylltiedig â maint yr arbedion sy'n gysylltiedig â staff yr heddlu fel rhan o'r Adolygiad o'r Heddlu a Chynllun Arbedion 2023/24.<br>Mae cyllid ar gyfer Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu yn cael ei leihau neu ei derfynu, sy'n risg uwch o ystyried y pwysau economaidd ac ariannol ehangach. | |
| Costau staff anuniongyrchol | 2.7% | Canolig | Gallai'r rhain gynyddu uwchlaw'r hyn sydd wedi'i gyllidebu.<br>Mae costau yswiriant yn cynyddu'n sylweddol oherwydd pwysau ym maes BlueLight. | Mae cyllidebau hyfforddiant wedi cael eu pennu i adlewyrchu gofynion gweithredol hanfodol bwysig. Mae cyllidebau'n cael eu monitro'n fisol ac mae Grŵp Blaenoriaethu Hyfforddiant yn ystyried blaenoriaethau hyfforddiant cyn cyflwyno hyfforddiant. |

| Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | Costau hyfforddiant / Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona yn cynyddu, ac ansicrwydd yn parhau mewn perthynas â threfniadau ariannu'r ardoll prentisiaethau dros y tymor hwy. | Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i drafod a monitro gofynion hyfforddiant yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd Plismona.<br>Er bod cyllid yn parhau i ddod i law, bydd trafodaethau'n parhau gyda'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â datrysiad terfynol ar gyfer cyllid i gefnogi'r Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona.<br>Mae pwysau yswiriant wedi'u cydnabod o fewn y gyllideb ac mae cronfa wrth gefn wedi'i chreu i liniaru yn erbyn digwyddiadau a allai ofyn am yswiriant. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Costau adeiladau | 5.0% | Coch | Er gwaethaf rhaglen waith i fynd i'r afael â chyflwr yr ystâd ac ôl-groniadau o waith cynnal a chadw, mae'n bosibl y bydd angen mynd i ragor o gostau refeniw er mwyn sicrhau bod yr ystâd yn cael ei chynnal fel amgylchedd gwaith diogel ar gyfer staff a swyddogion.<br>Costau trydan a nwy cynyddol o ganlyniad i bwysau sylweddol, amodau'r farchnad a thywydd mwy eithafol. | Mae gofynion ystadau'r rhaglen gyfalaf yn cael eu hystyried fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r broses gosod cyllideb flynyddol ac maent wedi bod yn destun adolygiad penodol gan y Bwrdd Cyllid a Strategaeth.<br>Cafodd trefniadau llywodraethu ar gyfer ystadau eu cryfhau ddiwedd 2021. Mae'r Grŵp Ystadau Strategol yn dod â staff allweddol o swyddfa'r Comisiynydd a'r heddlu ynghyd i gyfarfod yn fisol i drafod materion yn ymwneud ag ystadau, gan gynnwys cyllid. Mae'r grŵp hwn wedi gwneud cryn dipyn o waith i ddatblygu methodoleg blaenoriaethu sy'n seiliedig ar risg ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Mae materion yn cael eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Cyllid a Strategaeth, sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl.<br>Negodi contractau ynni yn genedlaethol drwy BlueLight Commercial.<br>Adolygu'r defnydd o ynni er mwyn ceisio arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd 'buddsoddi i arbed'.<br>Cyflwyno cais am grant mewn perthynas â chyllid ar gyfer mentrau cynaliadwyedd.<br>Bydd y Grŵp Cynaliadwyedd yn ystyried cyfleoedd pellach ac yn goruchwylio'r gronfa wrth gefn ar gyfer cynaliadwyedd a thrawsnewid. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Costau cludiant | 1.9% | Canolig | Er bod newidiadau i faint y fflyd yn yr arfaeth, mae costau tanwydd yn y farchnad yn dueddol o amrywio'n sylweddol a gallai hynny arwain at gostau rhedeg cynyddol.<br>Mae amodau'r farchnad yn parhau i fod yn heriol o ganlyniad i ddigwyddiadau'r byd a'r dirwedd economaidd. | Ystyrir gofynion fflyd y rhaglen gyfalaf fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r broses pennu cyllideb flynyddol ac mae wedi bod yn destun adolygiad penodol gan y Bwrdd Cyllid a Strategaeth.<br>Mae'r Grŵp Cerbydau Strategol yn cyfarfod i drafod y fflyd cerbydau – mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac mae materion yn cael eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Cyllid a Strategaeth.<br>Mae prisiau tanwydd yn cael eu monitro ac asesir eu heffaith yn rheolaidd drwy'r gweithdrefnau monitro cyllideb cadarn sydd ar waith.<br>Mae data telemateg yn galluogi'r heddlu i fonitro'r defnydd o gerbydau ac optimeiddio maint y fflyd.<br>Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer mabwysiadu cerbydau trydan yn barhaus, a fydd yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cyffredinol.<br>Mae amodau'r farchnad yn parhau i gael eu monitro ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. |
| Cyflenwadau a gwasanaethau a chomisiynu | 11.9% | Uchel | Gallai pryniadau a wneir heb ddefnyddio archebion prynu arwain at orwario yn erbyn y gyllideb. | Caiff gwiriad cyllideb integredig ei weithredu wrth brosesu archebion prynu ar gyfer eitemau gwerth uchel. |

| Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae amodau'r farchnad yn parhau i fod yn heriol o ganlyniad i ddigwyddiadau'r byd a'r dirwedd economaidd. | Mae'r Adran Gaffael yn sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau'n cael eu caffael yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau ariannol.<br>Mae gweithdrefnau monitro cyllideb cadarn ar waith ac yn cael eu dilyn.<br>Mae sefydlu BlueLight Commercial yn parhau i hwyluso ac arwain at rai arbedion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r heddlu'n ymwneud â'r gwaith yn llawn. |
| Gwasanaethau asiantaeth a chontract a chomisiynu | 3.0% | Canolig | Costau ychwanegol a chynyddol yn deillio o'r trefniadau cydweithio – yn benodol yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol , y Gyd-uned Arfau Tanio a'i chyfleuster hyfforddi.<br>Gallai pwysau parhaus ac effeithiau codiadau chwyddiant ym maes gwasanaethau a gomisiynir effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir. | Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i gryfhau'r trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol sy'n ymwneud â chydweithio ac mae trefniadau adrodd gwell bellach ar waith.<br>Mae gwasanaethau a gomisiynir gan y Comisiynydd yn cael eu hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ac yn cael eu goruchwylio gan y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu. |

| Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid cyfalaf | 2.7% | Uchel | Mae maint y gofynion buddsoddi cyfalaf yn sylweddol a byddai unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog yn cynyddu costau benthyca.<br>Mae cyfraddau llog amrywiol ac unrhyw gynnydd ynddynt yn achosi gwasgfeydd ariannol ychwanegol.<br>Oedi parhaus a chostau cynyddol ar gyfer rhaglenni technoleg gwybodaeth cenedlaethol.<br>Costau uwch ar gyfer prosiectau cyfalaf. | Cyngor allanol gan ymgynghorwyr rheoli'r Trysorlys.<br>Mae'r Strategaeth Gyfalaf, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cyd-fynd â'i gilydd.<br>Bydd gofynion buddsoddi cyfalaf yn parhau i gael eu hadolygu.<br>Mae'r holl brosiectau cyfalaf lleol a chenedlaethol yn cael eu monitro'n rheolaidd.<br>Mae gofynion buddsoddi cyfalaf yn cael eu hasesu'n gadarn a'u blaenoriaethu drwy lywodraethu priodol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Grant penodol | -10.6% | Canolig | Ni ellir cynnal gwasanaethau hanfodol a gefnogir gan grantiau.<br>Ysgwyddo beichiau ariannol ychwanegol o ganlyniad i golli / gostyngiad mewn cyllid grant.<br>Dylid defnyddio grantiau yn unol â thelerau ac amodau'r grant.<br>Gall darparwyr grantiau roi'r gorau i dalu grantiau ar fyr rybudd. | Mae sylwadau'n parhau i gael eu cyflwyno ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol mewn perthynas â'r ystod o grantiau penodol sy'n ategu gwasanaethau blismona craidd, gan bwysleisio'r angen am sicrwydd dros y tymor hwy.<br>Mae'r tybiaethau mewn perthynas â'r holl grantiau penodol yn cael eu hystyried yn flynyddol ac fel mater o drefn fel rhan o waith monitro ariannol.<br>Dylid recriwtio i swyddi a ariennir gan grantiau dros dro am gyfnod y grant, pryd bynnag y bo modd, gyda Grŵp Rheoli'r Sefydliad yn craffu ar yr holl newidiadau i'r swyddi hyn a'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Pobl yn eu hawdurdodi.<br>Mae holl delerau'r grant yn cael eu hawdurdodi gan y Prif Swyddog Cyllid.<br>Mae cynlluniau ymadael cynhwysfawr yn parhau i gael eu datblygu ar gyfer pob gweithgaredd penodol a gefnogir gan grantiau allanol.<br>Mae gwasanaethau a gomisiynir a gefnogir gan grantiau penodol yn cael eu hawdurdodi gan y Comisiynydd a'r Cyfarwyddwr Comisiynu ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid. |

| Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Incwm arall | -6.2% | Canolig | Nid yw targedau incwm yn cael eu cyflawni o ganlyniad i lefelau gweithgaredd sy'n is na'r disgwyl. | Mae'r Grŵp Cyllid a Chaffael Strategol yn ystyried cyfleoedd i gynhyrchu cymaint o incwm â phosibl, ac anogir deiliaid cyllidebau yn frwd i ddatblygu cyfleoedd.<br>Mae incwm yn cael ei adolygu a'i fonitro fel rhan o drefniadau rheolaeth ariannol a rheolaeth gyllidebol. |
| Defnyddio cronfeydd wrth gefn | -2.0% | Uchel | Ni ellir ymdrin â gwasgfeydd ariannol annisgwyl ar gyllidebau, a arweinir gan alw, heb effaith andwyol.<br>Pwysau chwyddiant sy'n uwch na'r rhai a dybiwyd.<br>Llai o gadernid ariannol wrth i gronfeydd wrth gefn leihau. | Adolygu ac ystyried y Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn – sy'n amlinellu'r dull gweithredu a'r trefniadau – yn flynyddol.<br>Cronfa weithredol wrth gefn i liniaru cyfnodau brig yn sgil digwyddiadau critigol a mawr.<br>Creu cronfa wrth gefn ar gyfer lliniaru chwyddiant os yw'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn yn caniatáu hynny.<br>Creu cronfa yswiriant wrth gefn i liniaru yn erbyn cynnydd mewn lefelau amlygiad hunan-yswiriedig.<br>Ystyried cronfeydd wrth gefn penodol eraill fel y bo'n briodol er mwyn lliniaru yn erbyn gwasgfeydd ariannol untro. |

| Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae gofynion tymor canolig, cronfeydd wrth gefn a materion ariannu dros y tymor canolig yn parhau i gael eu hadolygu fel rhan o drefniadau llywodraethu ffurfiol.<br>Mae'r sefyllfa ariannol yn cael ei monitro'n rheolaidd drwy'r strwythur llywodraethu ffurfiol. |

| Prif Swyddog Cyllid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf | Amherthnasol | Uchel | Mae maint, cost uchel a chymhlethdod prosiectau cyfalaf yn cynyddu'r risg o wario'r tu hwnt i derfynau cyllidebau, treulio mwy o amser na'r disgwyl a pheidio â chyflawni amcanion yr achos busnes gwreiddiol.<br>Straen sylweddol yn amodau'r farchnad o ganlyniad i ddigwyddiadau'r byd a'r dirwedd economaidd.<br>Oedi parhaus a chostau cynyddol ar gyfer rhaglenni technoleg gwybodaeth cenedlaethol. | Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei chymeradwyo a'i monitro drwy drefniadau llywodraethut ffurfiol.<br>Mae'r Bwrdd Cyllid a Strategaeth, y Grŵp Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Grŵp Ystadau Strategol, y Grŵp Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a'r Grŵp Fflyd wedi canolbwyntio'n ddwys ar adolygu gofynion seilwaith yn feirniadol dros gyfnod o ddeng mlynedd.<br>Mae'r sefyllfa wedi cryfhau'n barhaus mewn perthynas â chynigion prosiect ac achosion busnes a bydd y gwaith hwn yn parhau o ddifrif er mwyn sicrhau bod pob buddsoddiad yn cael ei ystyried yn llawn a'r opsiynau'n cael eu harfarnu, a bod buddion busnes yn cael eu nodi'n glir.<br>Monitro pob prosiect cyfalaf lleol a chenedlaethol yn rheolaidd. |

# STRATEGAETH CRONFEYDD WRTH GEFN

## CRONFEYDD WRTH GEFN, BALANSAU A DARPARIAETHAU

### 1 Cyflwyniad

1.1. Mae'r gofyniad am arian wrth gefn yn cael ei gydnabod mewn statud, yn adrannau 32 a 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr roi sylw i lefel y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen i gwrdd â gwariant amcangyfrifedig yn y dyfodol wrth gyfrifo eu gofyniad cyllideb.

1.2. Mae'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol yn nodi y dylai'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) sefydlu strategaeth ar gronfeydd wrth gefn (gan gynnwys sut y gallent gael eu defnyddio gan y Prif Gwnstabl) a darpariaethau mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Dylai hyn roi sylw dyledus i'r angen i sicrhau bod gweithgareddau plismona yn cael eu hariannu'n barhaus a'r gofyniad i gyflawni gweithrediadau plismona eithriadol neu annisgwyl.

1.3. Mae cronfeydd wrth gefn yn hanfodol i reoli arian. Maent yn helpu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i ymdopi â gwasgfeydd ariannol annisgwyl a chynllunio ar gyfer ymrwymiadau gwario yn y dyfodol.

1.4. Bydd yr holl gronfeydd wrth gefn yn cael eu dal gan y Comisiynydd ac yn cael eu rheoli er mwyn cydbwyso blaenoriaethau ariannu a gwariant ac i reoli risgiau. Mae hyn yn rhan annatod o'r broses cynllunio ariannol dros y tymor canolig.

### 2. Diffiniadau

2.1. Mae cronfeydd wrth gefn a balansau yn wahanol i ddarpariaethau o safbwynt cyfrifyddu. Yn achos cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio (yn groes i gronfeydd wrth gefn na ellir mo'u defnyddio) a darpariaethau, dylid sicrhau bod y ddau swm a gynrychiolir ar y fantolen gael gyfateb i falansau arian parod ffisegol, oni bai bod benthyca mewnol wedi digwydd.

2.2. Ystyr **cronfeydd y gellir eu defnyddio** yw balansau sy'n cael eu dal at dri diben penodol yn gyffredinol ac maent yn cael eu categoreiddio'n gronfeydd wrth gefn cyffredinol neu'n gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi:

- Balans gweithredol i helpu i lyfnhau effaith llif arian anwastad – cronfeydd wrth gefn cyffredinol;
- Cronfa wrth gefn i ymdrin â digwyddiadau annisgwyl – cronfeydd wrth gefn cyffredinol;
- Dull o gronni arian i fodloni gofynion hysbys neu a ragwelir – cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

2.3. Ystyr **cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi** yw balansau sy'n cael eu dal gan y Comisiynydd ar gyfer mentrau a dibenion penodol.

2.4. Ystyr **cronfeydd wrth gefn wedi'u neilltuo** yw balansau sy'n cael eu dal gan y Comisiynydd ar ran trydydd partïon, ac felly ni ellir eu defnyddio heb gyfarwyddyd penodol.

2.5. Nid oes gan **gronfeydd wrth gefn na ellir mo'u defnyddio** falansau arian parod cyfatebol ac maent yn cael eu dal at ddibenion cyfrifyddu.

2.6. Mae **darpariaethau** yn ofynnol ar gyfer unrhyw rwymedigaethau sy'n ansicr o ran amseru neu'r symiau yr aethpwyd iddynt.

## 3. Trefniadau llywodraethu

3.1. Mae'r gofynion llywodraethu lleiaf mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn a balansau yn cynnwys y canlynol:

- Bod gan y Comisiynydd strategaeth gadarn ar lefel a natur y cronfeydd wrth gefn a'r balansau sydd eu hangen arno, a fydd yn cael ei hystyried gan y Cydbwyllgor Archwilio;
- Dylai'r lefelau gofynnol o gronfeydd wrth gefn a balansau gael eu hadlewyrchu yn y gyllideb flynyddol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;
- Bod y Comisiynydd yn monitro ac yn cynnal lefel y cronfeydd wrth gefn a'r balansau o fewn yr ystod a bennir gan ei bolisi cytunedig, gyda chyngor gan y Prif Swyddog Cyllid a fydd yn sicrhau bod protocolau clir ar gyfer eu sefydlu a'u defnyddio;
- Bod y Comisiynydd yn cadw cronfeydd wrth gefn digonol fel y gellir ymdrin â gwasgfeydd ariannol annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan alw heb i hynny gael effaith andwyol ar gyflawni'r blaenoriaethau allweddol;
- Bod strategaeth y Comisiynydd ar gyfer cronfeydd wrth gefn a balansau yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion a risgiau a'i bod yn cael ei hadrodd yn gywir ac yn glir ar yr un pryd ag y mae'r gyllideb a'r praesept yn cael eu gosod. Bod lefel y balansau yn cael ei hadolygu'n barhaus a'i rheoli er mwyn sicrhau bod y sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn cefnogi'r Comisiynydd i gyflawni ei amcanion dros yr hirdymor;
- Pan eir y tu hwnt i'r lefelau targed ar gyfer cronfeydd wrth gefn a balansau, mae costau cyfle cynnal y lefelau hyn wedi'u pennu, o gymharu â'r budd a gronnwyd.

3.2. Dylai rheoliadau ariannol y cytunir arnynt yn lleol a'r cynllun caniatâd wneud y canlynol:

- Cynnwys manylion llawn am sut y bydd y strategaeth cronfeydd wrth gefn a balansau yn gweithredu'n lleol;
- Sicrhau bod y gyllideb flynyddol yn cynnwys swm realistig o arian gweithredol wrth gefn sydd ar gael i'r Prif Gwnstabl ei ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau gweithredol, heb fod angen cael cymeradwyaeth ychwanegol;
- Gwneud darpariaeth, lle bo'n briodol, i gyllidebau gael eu dwyn ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r nesaf.

**Cyfrifoldebau statudol**

3.3. Mae *"Datganiad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Rôl Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl"* yn nodi'r pum egwyddor sy'n diffinio'r gweithgareddau a'r ymddygiadau craidd sy'n perthyn i rôl y Prif Swyddog Cyllid a'r trefniadau sefydliadol sydd eu hangen i'w cefnogi.

3.4. Ar gyfer pob egwyddor, mae'r datganiad yn nodi'r trefniadau llywodraethu sy'n ofynnol o fewn sefydliad i sicrhau bod Prif Swyddogion Cyllid yn gallu gweithredu'n effeithiol a chyflawni eu dyletswyddau craidd.

3.5. Mae'r trefniadau llywodraethu sy'n ofynnol mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn a balansau ac yn rhan o gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau y rhoddir cyngor ar lefelau cronfeydd wrth gefn a balansau yn unol â chanllawiau arferion da;
- Adrodd ar adeg ystyried y gyllideb a gosod y praesept ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd arian wrth gefn, fel sy'n ofynnol o dan adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, ac yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

3.6. Dylid ymgymryd â'r ddau beth mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid (Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl ).

3.7. Mae amrywiaeth o fesurau diogelu ar waith hefyd sy'n sicrhau nad yw'r Comisiynydd yn gorymrwymo'n ariannol. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Y gofyniad am gyllideb gytbwys;
- Pwerau prif swyddogion cyllid, o dan adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd os oes, neu'n debygol o fod, gwariant anghyfreithlon neu gyllideb anghytbwys; a
- Mae cyfrifoldeb yr archwilydd allanol i adolygu ac adrodd ar y sefyllfa ariannol yn cynnwys adolygu lefelau'r cronfeydd wrth gefn, gan ystyried ei wybodaeth am berfformiad y sefydliad dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, nid cyfrifoldeb yr archwilwyr yw pennu lefel optimwm neu leiafswm y cronfeydd wrth gefn ar gyfer sefydliadau unigol.

## 5. Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar gronfeydd wrth gefn yr heddlu

5.1 Ar 31 Mawrth 2018, cyhoeddodd y Gweinidog Plismona a'r Gwasanaeth Tân ganllawiau newydd ar yr wybodaeth y mae'n rhaid i bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei chyhoeddi o ran cronfeydd wrth gefn yr heddlu.

5.2 Un o'r gofynion allweddol yw y dylai'r wybodaeth am bob cronfa wrth gefn ei gwneud yn glir faint o'r cyllid sy'n perthyn i bob un o'r tri chategori canlynol:

- Cyllid ar gyfer gwariant a gynlluniwyd ar brosiectau a rhaglenni dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol.
- Cyllid ar gyfer prosiectau a rhaglenni penodol y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio presennol.
- Cronfa wrth gefn gyffredinol i ymdrin ag anghenion gwariant eraill, a dalir yn unol ag egwyddorion cadarn o ran rheolaeth ariannol dda.

5.3 Amlinellodd y Gweinidog hefyd y byddai lefelau cyllid grant yn y dyfodol yn ystyried i ba raddau y mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi mewn modd tryloyw ar draws y gwasanaeth.

## 6. Asesu lefelau priodol ar gyfer y cronfeydd wrth gefn

6.1 Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn briodol ar gyfer amgylchiadau lleol ac mae'n atebol i drethdalwyr am y penderfyniadau a wneir. Mae gan y Prif Swyddog Cyllid (y Comisiynydd) ddyletswydd i roi'r cyngor sydd ei angen ar y Comisiynydd i wneud penderfyniadau da.

6.2 Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal mewn modd darbodus. Maent yn galluogi'r sefydliad i ddarparu ar gyfer amrywiadau mewn llif arian a digwyddiadau costus annisgwyl a, thrwy hynny, yn helpu i'w ddiogelu rhag gorwario'r gyllideb flynyddol, os yw digwyddiadau o'r fath yn digwydd. Gellir cynnal cronfeydd wrth gefn at ddibenion penodol hefyd pan fo'n debygol y bydd gofyniad i wario yn codi yn y dyfodol.

6.3 Mae'r ffaith bod y cyhoedd yn derbyn y praesept yn rhannol ddibynnol ar y ddealltwriaeth bod y praesept yn cael ei wario ar blismona ac mai dim ond swm rhesymol a darbodus o unrhyw or-ariannu sy'n cael ei storio fel cronfa wrth gefn gyffredinol. Mewn cyferbyniad â hynny, pan fo angen gwario arian yn annisgwyl , mae'n debygol y byddai'r cyhoedd yn disgwyl i'r sefydliad fod â digon o adnoddau i dalu'r gost heb orfod gorwario.

6.4 Er mwyn asesu digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn, dylai'r Prif Swyddog Cyllid (y Comisiynydd) gynnwys asesiad cyfredol o'r risgiau strategol, gweithredol ac ariannol.

6.5 Mae pennu lefel y cronfeydd wrth gefn yn un o nifer o benderfyniadau cysylltiedig y mae'n rhaid eu cymryd wrth baratoi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol benodol.

6.6 Dylai'r gwaith o asesu'r lefel ofynnol o gronfeydd wrth gefn gynnwys cynnal dadansoddiad o'r fantolen yn flynyddol a rhagamcanu eitemau allweddol y fantolen. Mae'r rhagamcaniad hwn yn cynnwys rhagweld

beth fydd lefelau cronfeydd wrth gefn a balansau dros gyfnod o dair blynedd er mwyn cwmpasu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r rhaglen gyfalaf.

6.7 Wrth asesu lefel y cronfeydd wrth gefn, rhoddir ystyriaeth briodol hefyd i drefniadau cymorth y Llywodraeth:

- Cynllun Cymorth Ariannol Brys Llywodraeth Cymru i helpu heddluoedd sy'n wynebu baich ariannol o ganlyniad i waith lleddfu effaith digwyddiadau a chyflawni gwaith uniongyrchol mewn ymateb i argyfyngau ar raddfa fawr. Mae'r cynllun yn ddarostyngedig i drothwy sydd wedi'i osod ar 0.2% o'r gyllideb refeniw.
- Grant Arbennig y Swyddfa Gartref i dalu costau ychwanegol a fyddai'n deillio o blismona digwyddiadau annisgwyl ac eithriadol yn eu hardaloedd. Os yw'n cael ei gymeradwyo, disgwylir i'r heddlu o dan sylw dalu costau ychwanegol y digwyddiad hyd at 1% o werth y gyllideb refeniw.

6.8 Dylai strategaeth cronfeydd a balansau effeithiol ystyried dull y sefydliad o reoli'r trysorlys, cynlluniau gwariant cyfalaf a'r angen am fenthyca'n allanol, yn erbyn y defnydd o falansau a chronfeydd wrth gefn.

6.9 Mae canllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn awgrymu, yn ogystal â gofynion llif arian, y dylid ystyried y ffactorau canlynol:

| **Tybiaethau'r gyllideb** | **Sefyllfa a rheolaeth ariannol** |
|---|---|
| Y ffordd mae chwyddiant a chyfraddau llog yn cael eu trin | Sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliadau (lefel y benthyciadau, dyled heb ei thalu, cyfraddau casglu'r dreth gyngor ac ati) |
| Amcangyfrifon o lefel ac amseriad derbyniadau cyfalaf | Hanes llwyddiannus y sefydliad o ran rheoli cyllidebau a chyllid, gan gynnwys cadernid y cynlluniau tymor canolig |
| Y ffordd mae pwysau a arweinir gan alw yn cael eu trin | Gallu'r sefydliad i reoli pwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn |
| Y ffordd mae arbedion effeithlonrwydd / enillion cynhyrchiant a gynlluniwyd yn cael eu trin | Cryfder yr wybodaeth ariannol a'r trefniadau adrodd |
| Y risgiau ariannol sy'n gynhenid i unrhyw bartneriaethau ariannu newydd sylweddol, trefniadau allanol mawr neu ddatblygiadau cyfalaf mawr | Gweithdrefnau trosglwyddo a diwedd blwyddyn y sefydliad mewn perthynas â thanwario / gorwario yn y gyllideb, ar lefel sefydliadol ac adrannol |
| Faint o gronfeydd eraill sydd ar gael i ymdrin â chronfeydd mawr | Pa mor ddigonol yw trefniadau yswiriant y sefydliad ar gyfer risgiau mawr annisgwyl |

| | |
|---|---|
| wrth gefn a digonolrwydd darpariaethau | |

6.10 Rhaid i'r Comisiynydd roi sylw priodol i'r angen i sicrhau bod gweithgareddau plismona yn cael eu hariannu'n barhaus (gan gynnwys y gofyniad i gyflawni gweithrediadau eithriadol neu annisgwyl). Dylai'r gyllideb flynyddol gynnwys swm realistig o arian wrth gefn gweithredol fel ei fod ar gael i'r Prif Gwnstabl ei ddefnyddio i ymdrin â blaenoriaethau gweithredol, heb fod angen cymeradwyaeth ychwanegol.

6.11 Bydd y Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y gyllideb refeniw flynyddol yn ddigonol i ariannu anghenion gweithredol y gellir eu rhagweld, a hynny drwy gyflwyno achos busnes – fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r broses gosod cyllideb flynyddol – i'r Prif Swyddog Cyllid (y Comisiynydd) a'r Comisiynydd, er mwyn i eitemau gwariant untro gael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

6.12 Dylai'r achos busnes gynnwys ystyriaeth o lefel y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen ar gyfer ymchwiliadau i ddigwyddiadau mawr a gofynion gweithredol eraill, maint y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen ac amserlenni ar gyfer eu defnyddio.

6.13 Bydd cymeradwyo achosion busnes ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn yn amodol ar y terfynau awdurdodi a nodir yn y Rheoliadau Ariannol, a hynny er mwyn hwyluso'r gwaith o wneud penderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd.

## 7. Cronfeydd wrth gefn cyffredinol

*7.1* Mae'r ddogfen *"Guidance Note on Local Authority Reserves and Balances"* gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn datgan bod angen cronfa wrth gefn gyffredinol i weithredu fel *"balans gweithredol er mwyn helpu i liniaru effaith llifau arian anwastad ac osgoi benthyca dros dro diangen – mae hyn yn rhan o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol."* Mae angen cronfa wrth gefn gyffredinol hefyd er mwyn gweithredu fel *"arian wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfwng – mae hyn hefyd yn rhan o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol."*

7.2 Er nad yw'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn pennu isafswm neu lefel optimaidd ar gyfer cronfeydd wrth gefn cyffredinol, yn ôl ei ganllaw cyffredinol dylid sefydlu cronfa wrth gefn sy'n cynrychioli *"adnoddau sydd wedi'u neilltuo at ddibenion megis cronfeydd wrth gefn cyffredinol a rheoli llif arian."*

7.3 Mae pennu lefel y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a chronfeydd wrth gefn cyffredinol yn un o blith nifer o benderfyniadau cysylltiedig a wneir wrth lunio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r gyllideb ar gyfer blwyddyn benodol. Dylid ystyried y tybiaethau ariannol allweddol sy'n

sail i'r gyllideb, ochr yn ochr ag ystyriaeth o drefniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli arian.

## 8. Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn wedi'u neilltuo

8.1 Mae'r cod cyfrifyddu presennol yn ei gwneud yn ofynnol bod diben, defnydd a sail trafodion y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cael eu nodi'n glir. Bydd adolygiad o ddiben a lefel y cronfeydd wrth gefn yn cael ei gynnal yn flynyddol yn ystod y broses o bennu'r gyllideb, a bydd manylion y defnydd o gronfeydd wrth gefn wedi'u cynnwys yn y nodyn perthnasol i'r Datganiad Cyfrifon.

8.2 Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cael eu categoreiddio naill ai'n gronfeydd "defnyddiadwy" neu gronfeydd "annefnyddiadwy". Gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i ariannu gwariant. Nid yw cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy yn cael eu cefnogi gan adnoddau ac felly nid oes ganddynt falansau arian parod cyfatebol.

8.3 Polisi'r Comisiynydd yw defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu pryniannau anghylchol i leihau'r effaith ar braesept y dreth gyngor. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cronfeydd cyfalaf wrth gefn i leihau'r gofyniad cyllid cyfalaf, os yw'n briodol, a fydd yn ei dro yn lleihau'r ddarpariaeth isafswm refeniw a godir ar y cyfrif refeniw yn flynyddol.

8.4 Bydd lefel darged y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi felly yn amrywio'n flynyddol, ond bydd yn bosibl ei chyflawni bob amser a bydd yn cael ei monitro er mwyn sicrhau nad yw lefelau'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn rhy uchel nac yn rhy isel. Pe bai'r Comisiynydd yn barnu bod lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ganddo yn uwch a'r tu hwnt i'r lefelau sy'n rhesymol ofynnol a'u bod wedi'u clustnodi'n benodol ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, caiff y Comisiynydd ddychwelyd cronfeydd wrth gefn i'r cyhoedd. Mae hyn i'w gyflawni drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn gyntaf i ariannu buddsoddiadau untro.

8.5 Bydd cronfeydd defnyddiadwy yn cael eu dosbarthu yn unol â dosbarthiadau newydd y Swyddfa Gartref, fel yr amlinellwyd uchod.

8.6 Mae yna hefyd nifer o gronfeydd wrth gefn na ellir mo'u defnyddio ar hyn o bryd sy'n cynnwys:

- **Y gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio –** Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio yn cynnwys yr enillion sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol. Mae'r balans yn gostwng pan fydd asedau ag enillion cronedig yn cael eu hailbrisio am i lawr neu eu lleihau, eu defnyddio drwy ddibrisiant, neu eu gwaredu, a phan fydd yr enillion yn cael eu gwireddu;
- **Y cyfrif addasu cyfalaf –** Mae'r cyfrif addasu cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau

gwahanol ar gyfer cyfrifo'r defnydd o asedau anghyfredol ac ar gyfer talu am yr asedau hynny, eu hadeiladu neu eu gwellau hynny o dan ddarpariaethau statudol;

- **Y cyfrif absenoldebau cronedig –** Mae'r cyfrif absenoldebau cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar falans y gronfa gyffredinol o gronni absenoldebau digolledol a enillwyd ond na chawsant eu cymryd yn ystod y flwyddyn, e.e. gwyliau blynyddol a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar falans y gronfa gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i'r cyfrif neu ohono;
- **Y gronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau –** Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo buddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer ariannu buddion yn unol â darpariaethau statudol.

## 9 Y fframwaith adrodd

9.1 Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd ymddiriedol i drethdalwyr lleol a rhaid iddo fod yn fodlon bod y penderfyniadau a wneir ar falansau a chronfeydd wrth gefn yn arddangos stiwardiaeth briodol ar arian cyhoeddus.

9.2 Bydd lefel a defnydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu llywio gan gyngor a barn y Prif Swyddog Cyllid (y Comisiynydd). Er mwyn galluogi'r Comisiynydd i ddod i'w benderfyniad, bydd y Prif Swyddog Cyllid (y Comisiynydd) yn adrodd ar y ffactorau a ddylanwadodd ar ei farn ac yn sicrhau bod y cyngor a roddir yn cael ei gofnodi'n ffurfiol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Ar y lleiaf, bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys datganiad fydd yn trafod y canlynol:

- Manylion ynglŷn â lefel y gronfa wrth gefn gyffredinol ac unrhyw symudiadau yn y gronfa;
- Digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, mewn perthynas â gwariant ac amcangyfrif o ddarpariaethau mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sydd i ddod a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;
- Sut mae cronfeydd wrth gefn wedi newid dros amser;
- Yr adolygiad blynyddol o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, gan gynnwys amcangyfrifon o'r balansau ddiwedd blwyddyn. Bydd y datganiad yn rhestru'r gwahanol gronfeydd wrth gefn, eu diben, pryd y cânt eu defnyddio a lefel briodol;
- Asesiad o'r risg y bydd digwyddiadau mawr (gweithredol ac anweithredol) yn digwydd, a adlewyrchir yn y gyllideb a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

9.3 Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddarparu i'r Comisiynydd yn flynyddol, yn seiliedig ar amcangyfrifon, cyn i braesept y dreth gyngor gael ei gymeradwyo, a chaiff sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ei hystyried yn flynyddol hefyd fel rhan o broses gymeradwyo'r datganiad cyfrifon gan y Comisiynydd.

9.4 Fel yr amlinellwyd uchod, ym mis Ionawr 2018 cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ganllawiau penodol ar gronfeydd cyllid wrth gefn ar gyfer yr heddlu sy'n ceisio gwella tryloywder ar draws y gwasanaeth er mwyn dangos cynlluniau defnydd clir. Mae'r fframwaith adrodd a nodir uchod yn mynd i'r afael â'r gofynion hyn.

## 10 Y "gost cyfle" o gadw cronfeydd wrth gefn

10.1 Mae'r archwilydd allanol yn annog heddluoedd i gynnwys datganiad o fewn y polisi cronfeydd wrth gefn ar y gost cyfle o gadw cronfeydd wrth gefn. Mae "cost cyfle" yn derm o faes theori economaidd, sy'n golygu os ydych chi'n gwario arian ar un peth, ni allwch chi ei wario ar rywbeth arall.

10.2 O'i gymhwyso i gronfeydd wrth gefn, mae hyn yn golygu, os cedwir cronfeydd wrth gefn sy'n rhy fawr, yna mae sefydliad yn colli'r cyfle i ostwng y dreth gyngor. Fodd bynnag, nid yw'r ddamcaniaeth hon yn addas iawn yn ymarferol lle gellir capio lefelau cynnydd yn y dreth gyngor.

10.3 Yn ystod y broses o bennu'r gyllideb, mae'r Comisiynydd yn ystyried a ddylid defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer buddsoddiadau untro. Ystyrir bod hyn yn ddefnydd mwy cynaliadwy o gronfeydd 'dros ben' ac yn lleihau'r effaith ar braesept y dreth gyngor. Wrth i gronfeydd wrth gefn leihau, mae'r cyfle i wneud hyn yn lleihau.

10.4 Mae'n hanfodol bod penderfyniadau'r Comisiynydd ar gronfeydd wrth gefn yn cael eu cyfleu'n glir i drethdalwyr lleol er mwyn hyrwyddo atebolrwydd.

## 11 Darpariaethau

11.1 Mae angen darpariaethau ar gyfer unrhyw rwymedigaethau lle ceir ansicrwydd o ran amseru neu o ran y symiau yr aethpwyd iddynt. Mae angen cydnabod darpariaethau pan:

- Mae gan yr awdurdod lleol rwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;
- Mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth;
- y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

11.2 Ystyrir bod trosglwyddo buddion economaidd neu 'ddigwyddiad arall' yn debygol os yw'r digwyddiad yn fwy tebygol na pheidio o ddigwydd. Os na chaiff yr amodau hyn eu bodloni, ni ddylid cydnabod unrhyw ddarpariaeth.

11.3 Bydd y gofyniad am ddarpariaethau'n cael ei asesu'n rheolaidd.

# Atodiad E – Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn 2022/23 – 2027/28

| Revenue & Capital Reserves | Narrative Comment | Home Office Classification | Balance at 31/3/22 | Balance at 31/3/23 | Balance at 31/3/24 | Balance at 31/3/25 | Balance at 31/3/26 | Balance at 31/3/27 | Balance at 31/3/28 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| General Reserves | In accordance with CIPFAs Guidance Note on Local Authority Reserves and Balances, the Commissioner also maintains a General Reserve to act as a working balance to help cushion the impact of uneven cash flows and avoid unnecessary temporary borrowing, and a contingency to cushion the impact of unexpected events or emergencies. | C | -4,032 | -4,032 | -4,032 | -4,032 | -4,032 | -4,032 | -4,032 |
| **Total General Reserve** | | | **-4,032** | **-4,032** | **-4,032** | **-4,032** | **-4,032** | **-4,032** | **-4,032** |
| **General Reserves as % of net revenue expenditure** | | | **3.37%** | **3.16%** | **3.02%** | **2.73%** | **2.65%** | **2.55%** | **2.48%** |
| | | | | | | | | | |
| Insurance and Litigation Reserve | As a consequence of increases in insurance premiums and self insured limits, this reserve has been established to assist in mitigating against high claim exposure | A | -1,100 | -500 | -500 | -500 | -500 | -500 | -500 |
| Budget Adjustment Reserve | Reserve to mitigate impact of error in calculation of tax base | A | -75 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Police Education Qualification Framework Reserve | Reserve to mitigate the profile of costs of supporting officers through the PEQF/ Police Now which fall in 23/24 | A | -120 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bank Holiday Reserve | This reserve is being proposed to mitigate the costs of additional number of bank holidays which falling in 22/23 and 23/24 | A | -511 | -290 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Inflation Reserve | Proposed reserve to mitigate against uncertainties in inflationary impacts in 2023/24 | A | 0 | -250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| COVID 19 Reserve - Training Backlog | Reserve to mitigate against the impact of training backlog as a consequence of the Covid-19 pandemic | A | -400 | -166 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chief Constable Operational Fund | This is a new reserve being established to assist in mitigating against the consequential costs of notable peaks in operational activity. | A | -499 | -499 | -354 | -209 | -209 | -209 | -209 |
| Transformational Projects Reserve | Reserve to facilitate organisational transformation and change | A | -1,068 | -1,482 | -0 | -0 | -0 | -0 | -0 |
| Budget Pressure Mitigation - Energy | Proposed reserve to mitigate against uncertainties in inflationary impacts in 2023/24 | A | 0 | -424 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incentivisation/ Proceeds of Crime Act Reserve | This reserve comes from funds which have been allocated to Dyfed-Powys as a result of confiscation orders arising from proceeds of crime. These reserves are then utilised to support operational activities which assist in bringing criminals to justice. | A | -144 | -158 | -170 | -182 | -194 | -206 | -218 |
| Commissioner's Fund | This reserve was created to provide the new term 3 Commissioner with a fund to support initiatives to underpin the new P&CP | A | -474 | -357 | -157 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Forfeiture Reserve | This is a reclassification of monies that are seized under section 27 Misuse of Drugs Act and following forfeiture at Court which will be utilised to fund operations targeting drug related crime and abuse | A | -34 | -34 | -34 | -34 | -34 | -34 | -34 |
| Sale of Found Property Reserve | This is a reclassification of monies received from the sale of found property and is used to support local charities/ donations. | A | -23 | -24 | -24 | -24 | -24 | -24 | -24 |
| Driver Retraining Scheme Reserve | This reserves is being held specifically to support activities in relation to road safety initiatives. Further opportunities will be explored to ensure that these reserves are utilised to optimal effect for the communities of Dyfed-Powys. | B | -793 | -865 | -770 | -670 | -570 | -470 | -370 |
| Drug Intervention Reserve | This reserve will be utilised to support drug testing. | A | -78 | -78 | -78 | -78 | -78 | -78 | -78 |
| **Total Specific Earmarked Revenue Reserves** | | | **-5,320** | **-5,127** | **-2,087** | **-1,697** | **-1,609** | **-1,521** | **-1,433** |

# Atodiad E – Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn 2022/23 – 2027/28

| Revenue & Capital Reserves | Narrative Comment | Home Office Classification | Balance at 31/3/22 | Balance at 31/3/23 | Balance at 31/3/24 | Balance at 31/3/25 | Balance at 31/3/26 | Balance at 31/3/27 | Balance at 31/3/28 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Other Earmarked Capital Reserves | This reserve will be utilised to support the significant capital investment in Information Technology & Fleet | **A** | -8,038 | -4,310 | -439 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sustainability Reserve | This is a new reserve being established to assist in funding invest to save, sustainability and transformational initiatives. | **A** | -494 | -408 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Total Earmarked Capital Reserves** | | | **-8,532** | **-4,718** | **-439** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| Collaboration Revenue Reserve | This reserve represents the fair share of funds held for collaborative police services and includes the Regional Organised Crime Unit and Regional Task Force and subject to decisions by the All Wales Collaboration Board. | **B** | -306 | -306 | -306 | -306 | -306 | -306 | -306 |
| Go Safe Revenue Reserve | This earmarked reserve is held on behalf of the all Wales 'Go Safe' Road Safety Partnership and will be utilised in line with their business requirements which may be beyond the life of the current planning period. | **B** | -290 | -0 | -0 | -0 | -0 | -0 | -0 |
| Go Safe Capital Reserve | This ringfenced capital reserve is held on behalf of the all Wales 'Go Safe' Road Safety Partnership and will be utilised in line with their business requirements which may be beyond the life of the current planning period. | **B** | -1,023 | -188 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Total Ringfenced Revenue and Capital Reserves** | | | **-1,618** | **-494** | **-306** | **-306** | **-306** | **-306** | **-306** |
| | | | | | | | | | |
| **TOTAL USEABLE RESERVES** | | | **-19,502** | **-14,372** | **-6,864** | **-6,036** | **-5,948** | **-5,860** | **-5,772** |

| Home Office Police Finance Reserve | Classifications |
|---|---|
| Funding for planned expenditure on projects and programmes over the period of the current medium term financial plan | A |
| Funding for specific projects and programmes beyond the current planning period | B |
| A general contingency or resource to meet other expenditure needs held in accordance with sound principles of good financial management | C |

Classifications as outlined in the Home Office guidance on Police Finance Reserves which was issued January 2018

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

### 1 Cyflwyniad

1.1 Mae Cod Darbodus 2021 gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth gyfalaf i ddangos bod penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddi yn cael eu gwneud yn unol â'r canlyniadau dymunol ac yn ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

1.2 Mae'r strategaeth gyfalaf hon yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r gwaith o lunio blaenraglen gyfalaf y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd). Mae'n cynnig trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau dymunol. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cymeradwyo a monitro gwariant cyfalaf, yn amlinellu sut y rheolir risgiau cysylltiedig ac yn ystyried y goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

1.3 Ceir manylion y blaenoriaethau ar gyfer plismona yn yr ardal leol yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'r ddogfen hon yn cael ei llunio gan y Comisiynydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Mae'r blaenoriaethau'n ystyried barn pobl a phartneriaid lleol, yn ogystal â blaenoriaethau'r Comisiynydd yn ei rinwedd fel y cynrychiolydd etholedig. Cyhoeddodd y Comisiynydd ei Gynllun Heddlu a Throseddu newydd ym mis Rhagfyr 2021, a bydd y blaenoriaethau canlynol yn sail i bob agwedd ar waith cyflawni gweithredol a sefydliadol, ac yn ganolog iddynt:

- Mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi.
- Mae niwed yn cael ei atal.
- Mae ein system gyfiawnder yn fwy effeithiol.

1.4 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn ystyried y Gofynion Plismona Strategol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gefnogi'r Comisiynydd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu ac mae wedi datblygu Cynllun Cyflawni ar gyfer yr Heddlu a Throseddu i gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae ei waith cyflawni gweithredol, ei fframweithiau monitro perfformiad a'i benderfyniadau ariannu yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn. Bydd pum egwyddor gyflawni allweddol yn cefnogi'r Cynllun Heddlu a Throseddu:

- Sicrhau gwerth am arian
- Ymgysylltu â'r cyhoedd
- Cydweithio
- Cefnogi dioddefwyr

- Arweinyddiaeth gadarn

1.5 Mae'r strategaeth gyfalaf yn offeryn i gefnogi gwaith cynllunio a dull corfforaethol o weithio ar draws y ddwy gorfforaeth unigol, gan helpu i sicrhau bod asedau'n cael eu defnyddio a'u rheoli'n dda. Mae'r strategaeth gyfalaf yn dangos sut rydym yn blaenoriaethu, monitro, darparu a gwerthuso ein rhaglen gyfalaf gan ddefnyddio egwyddorion sylfaenol methodoleg y prosiect.

1.6 Yn ddaearyddol, ardal Dyfed-Powys yw'r ardal heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n cwmpasu dros hanner arwynebedd Cymru. Mae'n cael ei heffeithio'n arbennig gan yr heriau sy'n gysylltiedig â phlismona ardal wledig, sy'n cynnwys dau borthladd sylweddol, y gosodiadau mawr yn Aberdaugleddau a diwydiant twristiaeth bywiog. Mae asedau cyfalaf, boed y rheini'n orsafoedd heddlu, tai heddlu, mastiau radio, cerbydau neu dechnoleg gwybodaeth ac offer gweithredol arall, yn chwarae rhan hanfodol o safbwynt darparu gwasanaethau plismona ar draws yr ardal ac o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

## 2 Partneriaethau allweddol

2.1 Wrth gyflawni pob elfen o'r strategaeth, mae'r Comisiynydd yn bwriadu rhoi ystyriaeth briodol i'r agenda cydweithio parhaus a bydd yn achub ar bob cyfle i ymgysylltu â heddluoedd cyfagos ac awdurdodau cyfansoddol eraill wrth ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â phroblemau cyffredin. Mae'r strategaeth gyfalaf hon yn ystyried yr angen parhaus i fuddsoddi yn y meysydd blaenoriaeth allweddol hyn gan weithio gyda phartneriaid yn y dyfodol.

## 3. Cynaliadwyedd ariannol

3.1 Ers blynyddoedd lawer, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi elwa ar lefelau sylweddol o gronfeydd cyfalaf wrth gefn sydd wedi'u hategu gan werthu adeiladau gweithredol neu dai heddlu.

3.2 Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn wedi bod yn sail i fuddsoddiad cyfalaf yn hanesyddol, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r sefyllfa'n symud i ffwrdd o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i sefyllfa o gyllido naill ai drwy gyllid refeniw uniongyrchol neu fenthyca. Mae hyn felly yn ychwanegu pwysau ar y gyllideb refeniw ac, o ganlyniad, ar braesept y dreth gyngor. Rhaid nodi hefyd fod hyn yn digwydd yn ystod cyfnod parhaus o bwysau refeniw, cynnydd yn y galw ac ansicrwydd ariannol.

3.3 Felly'r dull strategol yw buddsoddi mewn seilwaith craidd nawr, a fydd nid yn unig yn cynnig gwelliannau cyffredinol i wasanaethau i'r cyhoedd, ond hefyd yn gwneud y mwyaf o arbedion refeniw i'r dyfodol, drwy ddefnyddio personél yr heddlu mewn ffordd fwy effeithlon a symudol, sef datblygiad a hwylusir gan welliannau i systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a seilwaith craidd arall, er enghraifft fflyd cerbydau cysylltiedig ac asedau adeiladau.

3.4 Bydd buddsoddiadau cyfalaf hefyd yn ystyried ac yn cael eu dylanwadu gan weledigaethau cenedlaethol ar gyfer plismona, y gofyniad plismona strategol a blaenoriaethau rhanbarthol a lleol.

3.5 Bydd pob cynnig prosiect ac achos busnes ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf yn canolbwyntio'n glir iawn ar wireddu buddion busnes o safbwynt ariannol a hefyd o bersbectif anariannol, a fydd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer llywio penderfyniadau hollbwysig.

## 4 Cynaliadwyedd amgylcheddol a datgarboneiddio

4.1 Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd i Gymru, i helpu i sbarduno mwy o gamau i fynd i'r afael â her y newid yn yr hinsawdd. Atgyfnerthodd Llywodraeth Cymru yr uchelgais i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn garbon niwtral erbyn 2030 a chyhoeddodd yr adroddiad 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel' (2019), yn nodi 100 o bolisïau a chynigion i ddatgarboneiddio Cymru. Mae'r strategaeth hon yn rhoi fframwaith i heddluoedd Cymru ar gyfer blaenoriaethu ac yn cefnogi cynllun gweithredu clir y gellir ei gyflawni'n lleol a/neu ar y cyd erbyn 2030 a'r tu hwnt, ac yn ceisio cyflwyno cyfres o ymyriadau a mesurau gwella cynlluniedig.

4.2 Fel rhan o ddull Cymru gyfan, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo'n llwyr i chwarae ei ran, wedi datblygu strategaeth sy'n nodi'r uchelgais ar gyfer datgarboneiddio ac wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaeth heddlu cynaliadwy yn y dyfodol, dros yr hirdymor. Er mwyn cyflawni carbon sero net, bydd angen trawsnewid y systemau sy'n rhan o asgwrn cefn ein gweithrediadau yn llwyr, gan gynnwys trafnidiaeth, defnydd ynni, caffael nwyddau a gwasanaethau a'r amgylchedd adeiledig.

4.3 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymwybodol iawn o'i rwymedigaethau mewn perthynas â chynaliadwyedd amgylcheddol, a bydd yr ystyriaethau hyn yn rhan annatod o'r holl gynigion buddsoddi cyfalaf.

## 5 Y rhaglen gyfalaf

5.1 Mae asedau'n hanfodol i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau effeithlon, a dylid eu rheoli a'u cynnal yn dda. Mae'r strategaeth gyfalaf yn seiliedig ar strategaethau ar gyfer rheoli ystadau, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac amnewid cerbydau, sy'n darparu'r manylion ar gyfer hirhoedledd yr eitemau hyn a'r cylchoedd adnewyddu optimwm ar eu cyfer.

5.2 Mae'r rhaglen gyfalaf a'r cyllid sy'n cwmpasu'r sefyllfa ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2022/23 a 2027/28 wedi'u crynhoi isod:

**Tabl 1 – Y rhaglen gyfalaf 2022/23 – 2027/28**

| Capital Programme | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Land and Buildings | 15,610 | 11,199 | 16,351 | 12,839 | 2,411 | 2,366 | 60,775 |
| Vehicles | 1,918 | 1,280 | 2,014 | 1,680 | 1,875 | 1,834 | 10,600 |
| IT and Other Strategic Spending | 5,097 | 5,754 | 3,260 | 4,668 | 5,705 | 4,291 | 28,774 |
| **Capital Expenditure** | **22,625** | **18,233** | **21,624** | **19,187** | **9,991** | **8,491** | **100,151** |
| Grant Funding | -203 | -50 | -50 | -70 | 0 | 0 | -373 |
| Borrowing | -15,610 | -11,199 | -17,962 | -15,354 | -3,749 | -2,249 | -66,123 |
| Contributions from Revenue Account | -2,948 | -2,306 | -2,675 | -3,711 | -6,192 | -6,192 | -24,024 |
| Capital Receipts | -50 | -400 | -500 | -50 | -50 | -50 | -1,100 |
| Earmarked Reserves | -3,814 | -4,514 | -204 | 0 | 0 | 0 | -8,532 |
| **Capital Financing** | -22,625 | -18,233 | -21,624 | -19,187 | -9,991 | -8,491 | -100,151 |

5.3 Mae gwaith wedi parhau, drwy'r Grŵp Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Bwrdd Cyllid a Strategaeth, i ystyried gofynion ariannol a buddsoddi dros gyfnod hwy o amser. Er ei bod yn cynnwys nifer o dybiaethau ac ansicrwydd, mae'r strategaeth gyfalaf hon yn cynnwys rhaglen gyfalaf, a ddangosir yn Atodiad G, sydd wedi'i hymestyn i gwmpasu cyfnod o ddeng mlynedd. Bydd y rhaglen hon yn cael ei hadolygu wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy eglur ac yn flynyddol, fel rhan o'r broses ffurfiol o osod y gyllideb a'r praesept.

## 6 Ystadau

6.1 Mae gan y Comisiynydd strategaeth ystadau sy'n rhoi arweiniad a chyfeiriad clir ynghylch y gofynion strategol a gweithredol o ran ystadau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn y dyfodol ac yn egluro'r sefyllfa o ran dyrannu'r gyllideb a gofynion buddsoddi yn y dyfodol.

6.2 Nod y strategaeth hon yw'r canlynol:

- Creu ystad effeithlon, addas i'r diben a chynaliadwy sy'n darparu gwerth am arian ac yn hwyluso ffyrdd hyblyg o weithio yn unol â'r Cynllun Heddlu a Throseddu.
- Darparu ystad sy'n darparu lefel briodol o ddiogelwch i swyddogion, staff a gwybodaeth.
- Darparu gwasanaeth gweladwy a hygyrch sy'n hwyluso gwaith amlasiantaeth ac yn hyrwyddo plismona gweladwy.

6.3 Y prif ffocws fydd y canlynol:

- Buddsoddi yn y portffolio, yn ôl yr angen, er mwyn cynnal effeithiolrwydd gweithredol llawn.
- Gwerthu eiddo gwag a segur.
- Adeiladu dalfa a gorsaf newydd Sir Gaerfyrddin yn Nafen, Llanelli.
- Cydgrynhoi a chydweithio ag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a phartneriaid.
- Cyflwyno cyfleuster newydd Aberhonddu er mwyn darparu cyfleuster plismona a dalfa cydweithredol yn Ne Powys.
- Dod i gytundeb ar ddyfodol adeiladau y gallai fod angen buddsoddiad mawr arnynt neu eu hadnewyddu er mwyn iddynt barhau i wasanaethu anghenion y gymuned.

6.4 Mae trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag ystadau wedi cael eu hadolygu ac wedi parhau i gryfhau yn ystod 2022/23. Mae hyn wedi sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu cynrychioli'n well a bod y cysylltiad cynhenid rhwng gofynion gweithredol a darpariaeth ystadau yn cyd-fynd â'i gilydd yn well er mwyn cefnogi gwasanaethau plismona.

6.5 Bydd yr holl fuddsoddiadau a phenderfyniadau arfaethedig yn cael eu hasesu gan ystyried y meini prawf canlynol:

- Lleoliad: Yn addas i'r diben yn weithredol.
- Statws o ran ymwneud â'r cyhoedd: Ymwneud â chwsmeriaid.
- Cyflwr cyffredinol yr eiddo a'r baich ariannol.

6.6 Mae'r Grŵp Ystadau Strategol yn parhau i ddefnyddio'r meini prawf asesu seiliedig ar risg ar gyfer prosiectau i hwyluso'r gwaith o flaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf yn unol â'r meini prawf fforddiadwyedd ariannol canlynol:

- Risg i effeithiolrwydd gweithredol (gan gynnwys gweithio'n gallach).
- Risg o beidio â bodloni gofyniad deddfwriaethol neu statudol, gan gynnwys achrediad y Sefydliad Safonau Rhyngwladol (ISO).
- Risg i ffabrig/system adeiladau, sy'n cynyddu costau gyda goblygiadau hirdymor.
- Risg i enw da'r heddlu a'r Comisiynydd (gan gynnwys trefniadau partneriaeth).
- Risg i iechyd a diogelwch.
- Risg i ddiogelwch y safle.

6.7 Mae'r gofyniad am ddalfa a chyfleusterau gwell yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn hanfodol bwysig i'r ddarpariaeth plismona yn ardal Dyfed-Powys. Mae'r prosiect hwn wedi bod yn mynd rhagddo ers nifer o flynyddoedd ac mae wedi wynebu nifer o heriau ar hyd y ffordd. Mae'r prosiect yn ceisio darparu cyfadeilad â 18 cell, gyda swyddfeydd ategol a chyfleusterau gorsaf heddlu,

ar gyrion Llanelli. Dechreuodd cam adeiladu’r prosiect ym mis Hydref 2021 pan ddechreuodd y gwaith o glirio’r tir a gwaith sefydlogi, ac o ganlyniad i ddatblygiadau sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, mae’r prif strwythur, y seilwaith allanol, y parwydydd mewnol a’r seilwaith cychwynnol eisoes yn eu lle. Disgwylir i'r prosiect gostio tuag £18.6 miliwn ac mae'n parhau i fod o fewn terfynau’r cynllun ariannol ac o fewn y gwerth a gymeradwywyd yn y gyllideb. Bwriedir cwblhau’r adeilad ganol mis Mai 2023, a’i feddiannu yn fuan wedyn. Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar gyfer y prosiect yn parhau i fod yn weithredol o dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Cyllid.

6.8 Mae gwaith adnewyddu a buddsoddi sylweddol wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn mynd i'r afael â rhaglen sylweddol o waith arolygu cyflwr ar draws yr ystad, ond mae maint a dirywiad cynhenid yr ystad yn golygu bod angen buddsoddi’n barhaus ar draws y pedair sir.

6.9 Mae'r arolwg cyflwr blaenorol wedi helpu i lywio’r Strategaeth Ystadau o ran penderfynu pa eiddo i'w cadw a lle mae angen cynllunio symudiadau a newid swyddfeydd yn y dyfodol i fodloni gofynion gweithredol. Mae strategaeth eiddo'r dyfodol, ynghyd â gwaith dadansoddi data’r heddlu ar y galw yn sgil troseddu, yn flaenoriaeth i'r sefydliad. Bydd y gwaith hwn yn rhoi eglurder ynglŷn â’r lleoliadau gorau ar gyfer canolfannau plismona, o safbwynt gweithredol, a bydd yn pennu cyfeiriad ar gyfer cyfleoedd cydweithio yn y dyfodol, gan leihau costau refeniw lle credir bod atebion eraill yn hyfyw o ran yr ystadau, ac yn ategu gwaith plismona yn y dyfodol mewn ffordd fwy effeithiol na’r ystad bresennol. Mae Strategaeth Ystadau Sir Benfro yn faes ffocws allweddol, a chaiff ei hadolygu'n fanylach yn ystod y flwyddyn i ddod. Bydd y strategaeth hon yn pennu goblygiadau cyfalaf a refeniw posibl yn y dyfodol, yn unol â chyflwr cyfredol yr ystad.

6.10 Yn unol ag anghenion plismona gweithredol fesul safle, mae'r heddlu wedi cytuno ar y gofynion plismona daearyddol ar draws pob tiriogaeth. Roedd y broses hon yn cynnwys data strwythuredig ar batrymau troseddu, amserlenni ymateb, costau rhedeg yr ystad, a chyflwr yr ystad. Bydd y gofynion hyn yn cael eu hadolygu gan y swyddogaeth ystadau a’r tîm Llywodraethu, a bydd dyfodol pob ased sy'n cyd-fynd â gweithgareddau cydweithio yn cael ei bennu a'i ddilysu ar sail gofynion buddsoddi yn y dyfodol.

6.11 Oherwydd bod cyflwr y cyfleuster presennol yn Aberhonddu yn dirywio, mae cyllid o £7.8 miliwn wedi'i gynnwys ar gyfer codi adeilad newydd posibl. Cadarnhaodd arolwg cyflwr ymwthiol llawn ei fod yn gost-effeithiol codi adeilad newydd yn hytrach nag adnewyddu’r adeilad presennol, ymchwiliwyd i opsiynau eraill ac rydym ar hyn o bryd yn datblygu cyfleuster cydweithredol gyda phartneriaid, gyda’r posibilrwydd o feddiannu adeilad

swyddfa presennol lle bydd dalfa a chyfleuster cynnal a chadw cerbydau yn cael ei adeiladu. Mae'r gofynion gweithredol wedi cael eu hadolygu'n feirniadol ac rydym wedi asesu bod angen ôl troed llawer llai yn Aberhonddu. Er y gallai hyn oedi’r gwaith cynllunio, o ystyried maint y buddsoddiad, mae sicrhau bod yr holl opsiynau wedi bod yn destun diwydrwydd dyladwy llawn, a datblygu’r ateb mwyaf cost-effeithiol ac addas ar gyfer y dyfodol yn hollbwysig i bawb sy’n rhan o’r prosiect. Mae amseriad cyflwyno’r cynllun yn cael ei gadarnhau ar hyn o bryd, ond rhagwelir y bydd ar draws blynyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/25.

6.12 Nodwyd y gofyniad am gyfleuster hyfforddiant ar gyfer arfau tanio i gefnogi Cyd-uned Arfau Tanio cydweithredol heddluoedd De Cymru yn ystod 2018/19. Barnwyd nad yw'r cyfleuster presennol yn addas i'r diben, a bod angen cyfleuster newydd i ddiwallu'r anghenion hyfforddiant helaeth iawn a bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer swyddogion arfau tanio. Mae cryn drafod wedi digwydd rhwng y Comisiynwyr a'r heddluoedd, gydag achos busnes llawn yn cael ei lunio i ystyried ystod o opsiynau a lleoliadau posibl ar gyfer cyfleuster newydd. Ymgymerwyd â diwydrwydd dyladwy helaeth, ac mae trafodaethau ar brynu tir wedi'u cwblhau. Mae cyfanswm costau o tua £56 miliwn wedi'u nodi, y mae £15.1 miliwn ohono’n gyfran Heddlu Dyfed-Powys o'r costau a broffiliwyd dros y tair blynedd ariannol nesaf. Mae effeithiau pandemig COVID-19 ar y cynllun o ran prisio deunyddiau, ynghyd ag oedi wrth brynu tir, wedi cael effaith ar gynnydd. Bu cynnydd sylweddol yng nghostau’r cynllun, a briodolir i'r uchod, oherwydd y cynnydd mewn chwyddiant a gwaith adfer tir a chyfyngiadau ecolegol sy’n ymwneud â'r safle.

6.13 Yn ogystal â'r datblygiadau mawr hyn, cynhelir rhaglen asesu risg barhaus ar gyfer gwaith cynnal a chadw adweithiol a gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio. Mae’r broses o flaenoriaethu gwaith yn cael ei hadolygu ar sail ffactorau risg sy'n cyd-fynd â chyflwr yr adeiladwaith, a'r meddiannwr, gofynion deddfwriaethol ac ystyriaethau parhad busnes, sy'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau a phennu amserlenni. Mae arolygon cyflwr wedi'u cynnal yn flaenorol ar draws yr ystad gyfan, gan bennu lefel y buddsoddiad sydd ei angen ym mhob lleoliad fesul elfen isadeiledd. Mae’r gwaith o uwchraddio dalfeydd yn cael ei gyflawni fesul cam ar sail risg a chamau unioni fel y nodwyd yn ystod archwiliadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) a safonau canllaw cenedlaethol ar gyfer dylunio dalfeydd.

6.14 Mae hefyd yn werth nodi bod achrediad y Sefydliad Safonau Rhyngwladol ar gyfer cyfleusterau cymorth gwyddonol wedi denu buddsoddiad cyfalaf. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cyfleusterau sy'n addas i'r diben ac yn

cydymffurfio yn arwain at gynnal safonau cydymffurfio a phlismona gweithredol.

6.15 Mae'r gyllideb gyfalaf yn ategu cyllideb refeniw ganolog ar gyfer gwaith adeiladu cylchol a mawr wedi'i gynllunio, sydd wedi'i raglennu ar sail risg a strategaethau ar gyfer y dyfodol fesul adeilad. Mae adnoddau refeniw hefyd yn cael eu cadw a'u rheoli'n lleol ar gyfer atgyweiriadau ar raddfa lai a mentrau / rhaglenni cynnal a chadw. Mae buddsoddiad wedi'i flaenoriaethu o fewn y rhaglen gyfalaf er mwyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd a sicrhau gostyngiadau mewn gwariant refeniw o fewn yr ystad lle bo modd.

6.16 Mae gwasgfeydd ariannol sylweddol ar gyfleustodau ac ardrethi wedi effeithio ar waith rheoli a gosod y gyllideb yn ystod y flwyddyn ac i’r dyfodol, ac mae’r broses o ganolbwyntio ar hyn yn parhau wrth i ni ymchwilio i gyfleoedd i gynhyrchu incwm a rhagor o fentrau arbed arian er mwyn lliniaru cymaint o gostau â phosibl i'r sefydliad.

6.17 Mae'r sefydliad yn parhau i ymgorffori ffyrdd ystwyth ac effeithlon o weithio. Bydd y dull hwn yn achosi rhagor o oblygiadau tymor hwy i'r ystad ac o ran technoleg gwybodaeth, ac mae’n bosibl y bydd angen rhywfaint o fuddsoddiad ymlaen llaw i hwyluso’r gwaith o sicrhau arbedion effeithlonrwydd dros y tymor hwy. Lle bo hynny’n ofynnol, mae asesiadau o'r rhain wedi'u cynnwys gyda'r rhaglen gyfalaf.

6.18 Sefydlwyd Grŵp Cynaliadwyedd yn ystod 2019, y mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys ceisio archwilio cyfleoedd i hybu cynaliadwyedd a manteisio arnynt i’r eithaf. Mae’r gwaith hwn wedi parhau yn ystod 2021/22, ac mae strategaeth a chronfa adnoddau ar draws Cymru gyfan yn cael eu defnyddio i ddarparu dull a chyfeiriad unedig cenedlaethol, sy’n cyd-fynd â mentrau a chyfeiriad BlueLight Commercial. Mae'r flaenraglen gyfalaf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer nifer o fentrau, a fydd, yn ogystal ag ystyried ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwy, hefyd yn ceisio cyflawni arbedion effeithlonrwydd ariannol ac effeithlonrwydd cynaliadwyedd. Hyd yn hyn, mae'r Cynllun Datgarboneiddio ar gyfer safle'r pencadlys yn parhau i gael ei weithredu drwy osod goleuadau LED, inswleiddiad gwell, rheolyddion gwresogi / amgylcheddol, a thechnoleg canfod presenoldeb. Ariannwyd hyn â grant gwerth £879,000 ac fe’i cyflawnwyd yn 2021/22. Rhagwelir y bydd arbedion o £90,000 y flwyddyn yn cael eu gwireddu mewn arbedion ynni.

6.19 Mae buddsoddi strwythuredig pellach i arbed dyrannu cyfalaf ar gyfer lleihau effaith amgylcheddol yr ystad yn parhau, ac mae hyn yn cyd-fynd â chynllun datgarboneiddio'r pencadlys ar safleoedd defnyddwyr mawr eraill, a chynllunnir dyraniadau ar gyfer cynlluniau tebyg yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig fesul safle. Bydd y rhain yn cael eu hasesu ar sail yr elw ar

y buddsoddiad a'r gallu i leihau ôl troed carbon yr heddlu, yn unol â'r uchelgais datgarboneiddio ehangach i gyrraedd sefyllfa sero net erbyn 2050. Ceisir cyllid grant lle bo modd i gyflawni cynlluniau o'r fath.

6.20 Dechreuodd y Contract Rheoli Cyfleusterau yn ystod gwanwyn 2019 ar dymor tair blynedd +1 +1. Cynhaliwyd adolygiad canol contract yn 2021, a gadarnhaodd bod y trefniadau a roddwyd ar waith wedi sicrhau cydymffurfedd statudol, ond nad oeddent yn cyflawni agweddau allweddol ar wasanaeth cwsmeriaid. Yn 2022/23, cynhaliwyd archwiliad pellach i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, yn unol â'r opsiwn i ymestyn y contract am flwyddyn arall. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad y byddai'r contract yn dod i ben ganol 2023 ac y byddai'r gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol, gyda chyflenwyr arbenigol llai yn gyfrifol am y ddarpariaeth yn y dyfodol. Mae'r tîm Rheoli Cyfleusterau Ystadau yn datblygu'r cam dadymgynnull ac ymgynnull ar hyn o bryd er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth, ac mae'r broses yn cael ei defnyddio i ddilysu cytundebau lefel gwasanaeth yn y dyfodol ar y cyd.

## 7 Fflyd

7.1 Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o'r galw am gerbydau'r fflyd drwy delemateg. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod cyfansoddiad y fflyd yn parhau i gyfateb i'r galw a'r gofyniad gweithredol esblygol drwy'r Grŵp Defnyddwyr Fflyd a'r Grŵp Rheoli Fflyd Strategol.

7.2 Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y milltiroedd a deithiwyd ar draws y fflyd yn ystod 2020/21, boed hynny gan gerbydau â marciau neu heb farciau wrth i'r heddlu ymdrin â'r pandemig. Er y disgwylir i'r milltiredd yn ystod 2023/24 fod yn fwy nag yr oedd yn ystod 2020/21, rhagwelir gostyngiad o 10% yn y milltiredd o gymharu â'r gwaelodlinau arferol o ganlyniad i nifer o fentrau.

7.3 Mae'r heddlu eisoes wedi defnyddio data telemateg i leihau maint y fflyd o 415 o gerbydau yn 2017/18 i 404 yn 2021/22, a rhagwelir y bydd 385 o gerbydau erbyn 2024 o ganlyniad i'r newidiadau, gan gynnwys y prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd ac arferion gweithio'n gallach. Mae'r rhaglen gyfalaf deng mlynedd yn adlewyrchu'r gofynion amnewid yn llawn, ar sail ystyriaethau gwerth am arian ynglŷn ag amnewid cerbydau yn erbyn y costau o'u gwasanaethu.

7.4 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymwybodol o'i rwymedigaethau o ran cynaliadwyedd ac mae wedi dechrau buddsoddi mewn cerbydau trydan a seilwaith gwefru. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar y cyd â gwasanaethau BlueLight a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i

gwmpasu a chynllunio'r gofynion, yn enwedig mewn perthynas â niwtraliaeth carbon a rhoi'r gorau, yn raddol, i ddefnyddio gerbydau diesel. Mae'r pedwar heddlu yng Nghymru wedi llunio "Strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio Cymru Gyfan yr Heddlu" sy'n gosod yr amcanion ar gyfer cerbydau a fflydoedd pob heddluoedd yng Nghymru. Mae amserlen wedi'i phennu mewn perthynas â'r polisi ac, yn ystod 2023, mae 20% o gerbydau anweithredol i fod yn rhai trydan, ac yn ystod 2024/25 disgwylir i 50% o'r cerbydau a gaffaelir fod yn gerbydau trydan hybrid plygio i mewn, o leiaf, neu'n gerbydau cwbl drydanol ar gyfer lleoliadau priodol. O 2026 ymlaen, disgwylir i bob cerbyd anweithredol fod yn rhai ag allyriadau isel iawn (cerbydau hybrid a/neu drydan).

7.5 Mae'r heddlu'n parhau i fanteisio ar gydweithio drwy system rheoli fflyd a rennir ar draws De Cymru, yn ogystal â bodloni gofynion gwasanaethu asiantaethau partner.

## 8 Technoleg Gwybodaeth

8.1 Daw Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu gyfredol yr heddlu i ben yn 2024. Mae'r strategaeth hon wedi bod yn fuddiol i'r heddlu ac wedi darparu cyfeiriad clir o ran nodau trawsnewid digidol uchelgeisiol yr heddlu a'r gwaith uwchraddio hanfodol i seilwaith TGCh sydd ei angen i ddarparu platfform cadarn, cydnerth sy'n gweithio'n dda, gyda mwy o gapasiti i gefnogi anghenion yr heddlu dros y cyfnod. Mae'r strategaeth yn parhau i nodi'r amcanion a'r prosiectau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn ystod 2023, bydd angen adolygu strategaeth TGCh yr heddlu a llunio fersiwn newydd wedi'i diweddaru yn barod ar gyfer 2024, gan adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd yn y strategaeth flaenorol, a nodi'n glir y dyheadau digidol a'r seilwaith ategol sydd eu hangen ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Bydd angen iddi hefyd adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Prif Gwnstabl newydd ac ymgorffori nodau Strategaeth Digidol, Data a Thechnoleg Genedlaethol yr heddlu.

8.2 Mae gan yr heddlu hefyd Strategaeth Trawsnewid Digidol sy'n cwmpasu 2021-2026, gan ganolbwyntio ar fanteisio ar y manteision posibl sydd ar gael drwy ddefnyddio technoleg ddigidol newydd. Mae hyn wedi bod yn ffocws llawer o sylw oherwydd yr Adolygiad o'r Heddlu, lle ystyrir bod awtomeiddio ar ei wahanol weddau yn ddull realistig a phrofedig o gyflawni arbedion a chynyddu capasiti adnoddau. Hyd yn hyn, mae awtomeiddio prosesu robotig (RPA) wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus i awtomeiddio prosesau yn yr hwb agored i niwed, yn enwedig achosion domestig. Nodwyd 22 o brosesau eraill ar draws yr heddlu a bydd y rhain yn cael eu hystyried ar gyfer eu hawtomeiddio yn ystod 2023. Yn yr un modd, bydd y meysydd 'cymwysiadau pŵer' a 'phŵer awtomataidd' yn cael eu hecsbloetio ymhellach yn ystod 2023, gan geisio datblygu ein apiau ein hunain mewn

ffordd sydd wedi'i rheoli ac o dan ein rheolaeth, ond hefyd gan edrych ar yr hyn y mae heddluoedd eraill wedi'i wneud ac ailddefnyddio’r syniadau hynny at ein dibenion ein hunain lle maent yn fanteisiol i’r busnes.

8.3 Byddwn yn ymuno â system NicheRMS Cydweithrediad Arfordir y Gorllewin ym mis Mai. Maent hefyd yn defnyddio awtomeiddio prosesu robotig i hwyluso’r gwaith o awtomeiddio nifer o brosesau Niche, a byddwn yn cyfrannu’n ariannol at y cydweithrediad er mwyn i ni ymuno â’r gwaith awtomeiddio prosesu robotig hwn ac elwa arno. Mae hyn yn cynnwys y costau parhaus o gyflogi gweithwyr digidol, costau’r cymorth sydd ei angen i’w cynnal wrth symud ymlaen a hefyd y costau o gefnogi’r gwaith o ddatblygu prosesau awtomataidd yn y dyfodol.

8.4 Mae Brexit, COVID-19 a’r Rhyfel yn Wcráin wedi cael effaith ar ddiogelwch cyflenwad asedau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac mae hyn wedi arwain at oedi wrth gael rhywfaint o offer (e.e. methu â chynhyrchu digon o sglodion, a phrinder nwyon a deunyddiau hanfodol, y mae’n rhaid eu cael er mwyn gweithgynhyrchu offer technoleg gwybodaeth). Mae’n anodd cael gafael ar offer seilwaith – mae amseroedd arwain hir ar ddanfoniadau ac felly mae'n cael effaith ganlyniadol ar y gwaith o gyflawni rhai o'n prosiectau digidol. Mae popeth yn cael ei wneud i gyflymu'r sefyllfa ac mae cyflenwyr yn archwilio pa gynhyrchion eraill sydd ar gael, ond mae'n broblem fawr. Mae costau offer TGCh yn cynyddu hefyd, gyda phrisiau rhai cyflenwyr yn codi rhwng 10% ac 20%, a bydd hynny’n effeithio ar yr hyn y gellir ei brynu o fewn y gyllideb.

8.5 Mae'r strategaeth gyfalaf i'r dyfodol yn ystyried nifer o brosiectau TG strategol lleol a hefyd nifer o brosiectau ail-gaffael sy'n ymwneud â thechnolegau ac atebion TG sydd wedi cyrraedd diwedd contract, neu offer hanfodol sydd ar ddiwedd eu hoes. Mae’r prosiectau cyfalaf TG allweddol sydd wedi’u cynllunio ar gyfer y cyfnod 2023/24 fel a ganlyn:

8.5.1 Bwriedir rhoi NicheRMS ar waith ym mis Mai 2023 a gwnaed cynnydd sylweddol mewn llawer o feysydd megis y canlynol:

- Mae'r prosesau i ddod wedi'u cwblhau ac mae'r newidiadau angenrheidiol wedi mynd i Niche er mwyn iddynt ddarparu hyd at dri uwchraddiad cyn mynd yn fyw, a bydd yr ail uwchraddiad ar gael yn gynnar yn 2023 ar gyfer ei brofi. Dim ond mân newidiadau a ganiateir ar gyfer yr uwchraddiad terfynol, a dim ond os ydynt yn gwbl angenrheidiol er mwyn mynd yn fyw.
- Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran ansawdd data / gweithgareddau dad-ddyblygu, a dim ond nifer bach sydd ar ôl i ymdrin â nhw.
- Mae gwaith trosi ôl-gofnodion wedi'i gwblhau i raddau helaeth, ac mae profion ailadroddol ffurfiol a mireinio parhaus yn digwydd. Mae’r tîm yn

adolygu'r data a lwythir i Niche yn ofalus, gan sicrhau bod popeth fel y disgwylir iddynt fod a’n bod yn cydymffurfio â holl reolau busnes Niche.

- Mae’r heddlu wedi cytuno ar gynllun prosiect manwl ar gyfer mynd yn fyw gyda rhanbarth Arfordir y Gorllewin, ac mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cael slot yn ystod mis Mai 2023 i lansio’r system. Mae gwaith cynllunio manwl yn digwydd ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, fel bod pawb yn gwbl ymwybodol o'r hyn a fydd yn digwydd ar y pwynt trosglwyddo a pha systemau fydd ar gael iddynt ar ôl i’r system fynd yn fyw.
- Mae hyfforddiant ffurfiol i staff wedi dechrau a bydd yn para nes bod y system yn fyw.
- Mae gwaith ymgynghori’n cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid allanol allweddol fel Gwasanaeth Erlyn y Goron, y llysoedd, Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu ac ati i sicrhau bod pob un o'r meysydd hyn yn wedi’u cwmpasu, bod rhyngwynebau’n cael eu profi a bod popeth yn gweithio.

8.5.2 Mae'r prosiect System Rheoli Cysylltiadau newydd wedi symud i'r cam gweithredu. Mae tair elfen i'r system newydd, sef teleffoni brys, System Rheoli Cyfathrebu Integredig a Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid. Y bwriad yw darparu'r ateb fesul cam, gan sicrhau bod y gwasanaeth teleffoni brys a'r System Rheoli Cyfathrebu Integredig ar gael ac yn barod i fynd yn fyw ganol 2023. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i’r cylchedau fod yn eu lle, ac rydym yn aros am ddyddiadau cwblhau. Mae'r elfen Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid wedi'i chynllunio ar gyfer chwarter 1 yn 2024. Bydd y system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd yn integreiddio â’r system Niche a’r system Sopra Steria Storm.

8.5.3 Mae gwaith wedi'i wneud fel rhan o ail-fuddsoddiad y Comisiynydd mewn darpariaeth teledu cylch cyfyng ar draws yr heddlu, ac mae camau un i dri wedi'u cwblhau. Mae dwy dref ar ôl, sef Arberth ac Aberaeron, a bwriedir i’r gwaith fod wedi’i gwblhau erbyn mis Ebrill 2023, pan fydd cyfnod o drosglwyddo i ganolfan gyfathrebu’r heddlu fel rhan o fusnes fel arfer.

8.5.4 Mae’r prosiect Gweithio’n Gallach yn cael ei gyflawni fesul cam, gyda rolau’n cael eu diffinio fel rhai sefydlog neu ystwyth, gan arwain at bennu’r offer technoleg gwybodaeth cywir ar gyfer pob rôl. Bydd y prosiect yn diffinio ardaloedd gweithio ystwyth ar draws yr heddlu ac yn pennu'r offer cywir sydd ei angen. Bydd hyn yn cynnwys nodi'r holl rolau y bydd angen i weithwyr ystwyth ddefnyddio gliniaduron i’w cyflawni, a sicrhau gwelliannau mewn technoleg / seilwaith er mwyn ymdopi â'r cynnydd. Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gliniaduron a chyfrifiaduron bwrdd gwaith newydd.

8.5.5 Mae’r heddlu wedi caffael datrysiad technegol fforensig digidol a fydd yn cael ei weithredu yn ystod 2023. Bydd yn darparu ffordd estynadwy a chynaliadwy o storio cyfryngau digidol i’r Uned Troseddau Digidol, gan ddiwallu anghenion y presennol a’r dyfodol, mewn ffordd sy’n

cydymffurfio, a hefyd gan sicrhau bod y cyflenwr dan gontract yn darparu ar gyfer y gofynion cynyddol o ran storio data.

8.5.6 Mae'r heddlu wedi gwneud ymrwymiad deng mlynedd i safoni platfform y System Rheoli Tystiolaeth Ddigidol ar gyfer storio unrhyw dystiolaeth ddigidol, a bydd y cynllun i integreiddio â Niche yn darparu profiad di-dor i'r swyddog. Bydd hyn yn gofyn am wariant cyfalaf ar gyfer y caledwedd sydd ei angen ar gyfer cynnal cyfweliadau digidol, camerâu mewn ceir a chamerâu corff.

8.5.7 Yn 2023, byddwn yn negodi contract newydd ar gyfer dyfeisiau aml-ffactor, yn unol â'r arbedion sydd eu hangen ar yr heddlu. Oherwydd COVID-19 a’r ffaith nad yw'r dyfeisiau presennol wedi cael llawer o ddefnydd, dylai fod yn bosibl ymestyn oes y dyfeisiau hyn ac, o'r herwydd, ni fydd angen adnewyddu llawer o'r cit presennol. Bydd angen amnewid dyfeisiau defnydd uchel, megis y dyfeisiau aml-ffactor yn y dalfeydd.

8.5.8 Prynwyd cronfa wrth gefn o liniaduron / cyfrifiaduron bwrdd gwaith ychwanegol er mwyn sicrhau y gellir lliniaru unrhyw fygythiadau i’r gadwyn gyflenwi cymaint ag y bo'n rhesymol gwneud hynny. Y gobaith yw y bydd gennym ddigon ar gyfer gweddill 2022/23 a byddwn yn ceisio lleihau gwariant yn ystod 2023/24. Bwriedir defnyddio'r asedau am fwy o amser a lleihau'r gwariant yn y maes hwn cymaint â phosib.

8.5.9 Mae'r system wrth gefn bresennol yn dod i ddiwedd ei hoes, ac rydym yn ystyried rhoi system wrth gefn newydd yn ei lle yn ystod y flwyddyn ariannol hon oherwydd ei bod yn anochel y bydd costau'n codi gan 20% y flwyddyn nesaf. Mae'r atebion wrth gefn datblygedig modern diweddaraf yn cael eu hystyried, ac maent yn darparu ffyrdd o ddiogelu'r data rhag ymosodiadau meddalwedd wystlo ac yn ailgyflwyno copïau wrth gefn ar dapiau fel rhan o'r datrysiad, gan greu ‘bwlch aer’.

8.6 Mae'r strategaeth gyfalaf i'r dyfodol yn ystyried rhaglenni gwaith cenedlaethol sy'n cael eu datblygu gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref. Mae nifer o gynlluniau’n cael eu datblygu’n genedlaethol, gan gynnwys y canlynol:

8.6.1.1 Mae rhaglen Cronfa Ddata Gorfodi’r Gyfraith Genedlaethol wedi mabwysiadu dull newydd o gyflwyno system yn lle Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Maent yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar gynnyrch sy'n profi'n llwyddiannus iawn, ac mae'r heddluoedd yn ei hoffi'n fawr, ac maent yn gallu dylanwadu ar newidiadau i’r cynnyrch. Maent yn datblygu’r meysydd canlynol ar hyn o bryd ac, fel heddlu sy’n mabwysiadu datblygiadau yn gynnar, dylem weld y canlynol yn cael eu cyflawni yn ystod 2023/24:

- Gwasanaeth eiddo.
- Gwiriadau gyrwyr ar ymyl y ffordd.
- Gwiriadau cerbydau.

- Yn Eisiau ar Warant Llys – sef y cynnyrch cyntaf sy'n cael ei ddatblygu yn y parth "Unigolyn".

8.6.1.2 Rheoli Mynediad at Hunaniaeth Cenedlaethol (NIAM) – Mae'r heddlu'n gweithredu'r system NIAM i raddau helaeth a disgwylir iddi fynd yn fyw yn gynnar yn 2023. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r heddlu ddefnyddio gwasanaethau cenedlaethol newydd, megis y Gronfa Ddata Gorfodi'r Gyfraith Genedlaethol. Cyswllt Cyhoeddus Digidol – Mae gan yr Hafan Unigol Ar-lein fap ffordd gallu manwl ar gyfer y dyfodol sydd wedi'i gynllunio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a fydd yn gofyn am gefnogaeth barhaus gan y sefydliad er mwyn sicrhau bod ein gwefan gyhoeddus yn datblygu'n unol â'r rhaglen genedlaethol ac yn cynnwys y datblygiadau diweddaraf.

8.6.1.3 Gwasanaeth Cenedlaethol Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig – mae llawer o newid yn digwydd ar lefel genedlaethol ac mae hyn yn cael ei fonitro'n agos.

8.6.1.4 Mae'r Rhaglen Galluogi Genedlaethol bellach wedi dod i ben ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo o dan y tri llinyn canlynol:

- Mae'r heddlu wedi cyflwyno Microsoft365 (M365) yn ehangach. Ar hyn o bryd, rydym yn y broses o gyflwyno swyddogaeth lawn MS Teams a Teams Voice. Mae hyn yn cynnwys dulliau cydymffurfio syml ar gyfer gofyn am westai a thîm, yn ogystal â datblygu trefniadau llywodraethu da ar gyfer rheoli gwybodaeth o ran rheoli a chadw ffeiliau gan sicrhau bod hyn yn cyd-fynd yn briodol â pholisïau cenedlaethol. Mae tîm y prosiect yn datblygu map ffordd ar gyfer cyflwyno rhagor o apiau M365.
- Rheoli Hunaniaeth a Mynediad – Mae Rheoli Hunaniaeth a Mynediad bellach wedi'i wreiddio ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent er mwyn cefnogi cydweithio ar draws y rhanbarth. Mae'r prosiect Connect wedi'i sefydlu sy'n nodi cwmpas a dyheadau clir ar gyfer y prosiect hwn ac mae'n cael ei lywio gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ar gyfer Cydweithio.
- Y Ganolfan Fonitro Genedlaethol – Mae'r Ganolfan Fonitro Genedlaethol wedi bod yn weithredol ers peth amser ac mae'n gweithio'n dda, gan roi gwybod am faterion er mwyn i'r heddlu fynd i'r afael â nhw.

8.6.1.5 Mae Rhaglen Cyfathrebiadau Symudol y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys yn cael ei hailosod eto ac mae lotiau'n cael eu hailbennu ar gyfer nifer o wasanaethau allweddol. Mae'r dyddiad cyflwyno ar gyfer y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys yn llithro ymhellach i'r dde, heb unrhyw ddyddiadau cyflawni realistig y gellir eu rhagweld. Mae hyn wedi arwain at yr angen i ystyried cynaliadwyedd rhwydwaith Airwave, ar lefel genedlaethol, a'r ffordd orau o sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben tan 2026 a thu hwnt (tybir 2030). Mae hyn yn golygu y byddwn yn parhau i fod angen radios Airwave a therfynellau data symudol yn y dyfodol agos.

8.6.1.6 Mae'r terfynellau data symudol presennol yn dod i ddiwedd eu hoes, mae eu batris sefydlog yn diraddio ac nid ydynt yn para shifft lawn. Mae'r

heddlu'n buddsoddi mewn terfynellau data symudol newydd sydd â batris y gellir eu hamnewid ac sy'n rhatach.

8.6.1.7 O ran radios Airwave, mae'r heddlu'n parhau i brynu stoc o setiau cerbydau a setiau poced i'w hychwanegu at ein cronfa o ddyfeisiadau er mwyn ein hamddiffyn rhag llithriant yn rhaglen y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys.

## 4 Gofynion cyfalaf ac adnoddau

4.1 Bu gostyngiad sylweddol yn y cyllid cyfalaf craidd a ddyrannwyd gan y Swyddfa Gartref dros y blynyddoedd diwethaf, a dim ond £85,000 a gawsom ar gyfer 2021/22. Cyhoeddodd y setliad ariannu ar gyfer 2023/24 y bydd yr holl gyllid cyfalaf a ddyrennir i Gomisiynwyr yn uniongyrchol yn dod i ben ac yn cael ei ailgyfeirio i brosiectau cenedlaethol. Mae'r erydiad hwn wedi gosod baich ychwanegol ar gyllidebau refeniw a rhaid codi cyllid cyfalaf drwy leihau cronfeydd cyfalaf wrth gefn, cynyddu cyfraniadau refeniw uniongyrchol o refeniw a benthyca darbodus, gan olygu bod beichiau ariannol ychwanegol hirdymor yn cael eu gosod ar y gyllideb refeniw o ran ariannu darpariaethau llog a lleiafswm refeniw.

4.2

4.3 Yn ogystal â'r amrywiaeth o ofynion buddsoddi ar gyfer seilwaith lleol a rhanbarthol hanfodol bwysig, mae beichiau ariannol hefyd yn deillio o nifer o brosiectau technoleg gwybodaeth cenedlaethol gorfodol sydd ar y cyfan, y tu allan i reolaeth Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r prosiectau hyn yn parhau i achosi pryder o safbwynt oedi a chostau cynyddol, ac mae llawer o drafodaethau'n parhau rhwng Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref. Roedd adroddiad Cyflwr Plismona Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ar gyfer 2021 yn cynnwys sylwadau beirniadol penodol hefyd.

4.4 Fel rhan o'i drefniadau cynllunio integredig ar gyfer gwasanaethau a chyllid, mae'r Comisiynydd yn amcangyfrif lefel yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y blynyddoedd i ddod er mwyn llunio rhaglen gyfalaf i'r dyfodol.

4.5 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi blaenoriaethu buddsoddi yn y rhaglen gyfalaf tuag at gyflawni blaenoriaethau strategol, lleihau gwariant anorfod a thuag at feysydd sy'n lleihau gwariant refeniw yn y dyfodol, ac maent wedi llunio rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2022/23 a 2027/28 gwerth cyfanswm o £100.151 miliwn.

4.6 Er mwyn bodloni gofynion buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol a lliniaru'r ffaith bod cyllid grant cyfalaf yn dod i ben, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys trywydd cynyddol o gyfraniadau refeniw i gyfalaf ynghyd â benthyca darbodus allanol i gefnogi buddsoddiadau mewn seilwaith hanfodol.

4.7 Defnyddir lefel broffiliedig buddsoddiadau cyfalaf ac adnoddau allanol i asesu'r angen i fenthyca dros y tymor byr a'r tymor hir. Mae'r strategaeth

hefyd yn cyfrannu at yr ystyriaethau y mae’r Comisiynydd yn eu gwneud yn flynyddol wrth osod lefelau a dangosyddion benthyca darbodus, cynaliadwy a fforddiadwy.

4.8 Gall awdurdodau lleol, gan gynnwys yr heddlu, osod eu lefelau benthyca eu hunain ar sail eu hanghenion cyfalaf a’u gallu i ad-dalu benthyciadau. Bydd y lefelau'n cael eu gosod gan ddefnyddio'r dangosyddion a'r ffactorau a nodir yn y Cod Darbodus. Nid yw costau benthyca’n cael eu cefnogi gan y llywodraeth, felly mae angen i Heddlu Dyfed-Powys sicrhau ei fod yn gallu ariannu’r ad-daliadau. Mae Polisi Lleiafswm Darpariaeth Refeniw yr awdurdod yn nodi agwedd ddarbodus tuag at y swm a neilltuir ar gyfer ad-dalu dyledion. Mae'r rhain wedi'u nodi ar wahân o dan Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a gaiff ei hystyried a'i chymeradwyo gan y Cydbwyllgor Archwilio. Mae'r Cod yn nodi'n glir na ddylai'r awdurdod fenthyca i fuddsoddi'n bennaf er mwyn sicrhau enillion ariannol.

4.9 Yn ogystal â’u rhaglen gyfalaf eu hunain, mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn gweithio gyda phartneriaid eraill i sicrhau adnoddau cyfalaf a refeniw ychwanegol er mwyn hybu amcanion gweithio mewn partneriaeth, trawsnewid a chynaliadwyedd lle bynnag a phryd bynnag y bo modd. Ymdrinnir â'r rhain drwy brosesau cyflenwol.

## 5 Trefniadau llywodraethu

5.1 Fel y nodwyd, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi rhoi blaenoriaeth i’r rhaglen gyfalaf, ac maent yn gwerthuso gofynion mewn perthynas â blaenoriaethau strategol. Mae'r prosesau'n cydnabod maint a chymhlethdod amrywiol prosiectau cyfalaf ac yn ymgorffori dull cymesur o werthuso, monitro a gwerthuso prosiectau cyfalaf.

5.2 Mae’r Comisiynydd yn rheoli ei strategaeth gyfalaf yn weithredol drwy’r Bwrdd Plismona, sy’n goruchwylio’r prosiectau newid mawr ar gyfer cyfalaf a refeniw fel ei gilydd. Yn ogystal, bydd y Bwrdd Cyllid a Strategaeth yn cefnogi gwaith cyflawni ac yn monitro risgiau rhaglenni penodol. Mae gwaith gweithredu manwl yn cael ei neilltuo i unigolion allweddol a’i oruchwylio gan y Grŵp Ystadau Strategol, y Grŵp Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Strategol a’r Grŵp Defnyddwyr Cerbydau Strategol neu fel rhan o waith byrddau prosiect penodol, gan gynnwys y Grŵp Adeiladu Cyfalaf, a sefydlwyd i oruchwylio a llywodraethu cynlluniau cyfalaf mawr.

5.3 Rheolir prosiectau mawr yn unol ag arferion gorau rheoli prosiectau o ran cydymffurfio â methodoleg prosiect PRINCE 2. Mae cysylltiadau wedi'u sefydlu rhwng rheoli buddion ar brosiectau allweddol, cynllunio effeithlonrwydd a gwybodaeth am gostau.

5.4 Mae ffurflen cynnig prosiect wedi cael ei datblygu i gasglu ystyriaethau, risgiau, costau, amserlenni a buddion busnes ar gyfer prosiectau, a hynny mewn modd cyson ar draws y sefydliad. Bydd pob cynnig prosiect yn cael ei ystyried gan y Grŵp Adfer, Newid a Thrawsnewid.

5.5 Mae cynigion prosiectau cyfalaf yn cael eu hystyried a’u blaenoriaethu gan gyfeirio at achos busnes ac yn cael eu hystyried yn erbyn y ffactorau canlynol:

- Pwysigrwydd strategol – sut mae'r cais yn cefnogi blaenoriaethau'r Comisiynydd a blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ehangach;
- Y canlyniadau a gyflawnir a'r manteision a'r effeithiau penodol;
- Cynaliadwyedd ariannol – a yw costau yn realistig, a lefel goblygiadau refeniw yn y dyfodol;
- Cynaliadwyedd amgylcheddol;
- Pa opsiynau sydd wedi cael eu hystyried;
- Pa ffynonellau cyllid eraill a allai fod ar gael;
- I ba raddau y mae'r cynigion yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth.

5.6 O fewn y broses arfarnu, rhoddir sylw arbennig i gostau refeniw parhaus sy'n deillio o brosiectau cyfalaf. Mae pob cynnig cyfalaf posibl yn nodi costau refeniw parhaus ac yn ystyried sut y gellir eu bodloni. Mae costau refeniw sy'n deillio o gynlluniau cyfalaf, gan gynnwys unrhyw ofynion benthyca darbodus, yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

5.7 Yna, maent yn cael eu blaenoriaethu, yn seiliedig ar bedwar categori, a restrir isod yn nhrefn eu blaenoriaeth:

- Anorfod (atebolrwydd statudol, cytundebol neu arteithiol);
- Blaenoriaeth gorfforaethol (yn ymwneud yn uniongyrchol â'r nodau corfforaethol a’r blaenoriaethau ar gyfer gwella);
- Blaenoriaeth i’r gwasanaeth (cyflawni’r blaenoriaethau gwasanaeth a nodwyd);
- Arall (ad-dalu, buddsoddi i arbed, sicrhau cyllid o ffynonellau allanol ac ati).

5.8 Dim ond os nodir adnoddau ychwanegol neu danwariant ar y rhaglen gyfalaf gymeradwy yn ystod y flwyddyn y gellir ystyried a chyflawni prosiectau blaenoriaeth is na ellir eu cyflawni gyda’r adnoddau sydd ar gael.

5.9 Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynlluniau cyfalaf fel rhan o waith adrodd ariannol i'r Bwrdd Cyllid a Strategaeth, y Bwrdd Plismona, Bwrdd Gweithredol yr Heddlu ac yn chwarterol i'r Bwrdd Atebolrwydd Plismona. Mae prosiectau ac adroddiadau penodol yn cael eu hystyried gan y grwpiau llywodraethu priodol hefyd, sydd lefel yn is na’r byrddau hyn, h.y. y Grŵp Ystadau Strategol, y Grŵp Adeiladu Cyfalaf, y Grŵp TG Strategol a’r Grŵp Defnyddwyr Fflyd Strategol, a chaiff risgiau ac adroddiadau amlygu eu huwchgyfeirio drwy'r strwythur llywodraethu fel y bo'n briodol.

5.10 Ar ôl i’r rhaglen gyfalaf gael ei chymeradwyo, caiff rheolwr prosiect a chynrychiolydd defnyddwyr ei nodi ar gyfer pob prosiect cyfalaf. Mae rheolwr y prosiect yn gyfrifol am reoli gweithrediad y prosiect a chyflawni ei amcanion. Ar gyfer pob prosiect o fewn y rhaglen gyfalaf, nodir swyddog fel noddwr y prosiect.

5.11 Mae cynrychiolydd y defnyddwyr yn gyfrifol am gynrychioli defnyddwyr a chwsmeriaid ac am ddiffinio'r gofynion ansawdd. Mae'r ddwy rôl yn adlewyrchu egwyddorion sylfaenol methodoleg rheoli prosiect PRINCE 2.

Mae rheolwr y prosiect yn cynhyrchu cynllun prosiect i'w gymeradwyo. Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynllun y prosiect i Fwrdd Rheoli'r Rhaglen a noddwr y prosiect.

5.12 Yn achos prosiectau cyfalaf mawr, ar ôl cwblhau prosiect, mae rheolwr y prosiect yn cwblhau adolygiad ôl-weithredu. Mae hyn yn cynnwys nodi ar ba gam y bydd yr adolygiad ôl-brosiect yn cael ei gynnal. Mae'r adroddiad ôl-weithredu yn cael ei adolygu gan y Grŵp Newid a Thrawsnewid a'i uwchgyfeirio i'r Bwrdd Plismona os oes angen.

5.13 Er mwyn gwerthuso llwyddiant a chanlyniadau gwirioneddol prosiectau cyfalaf, cynhelir adolygiad ôl-brosiect hefyd. Mae dyfnder yr adolygiad hwn yn gymesur â maint y prosiect a'r buddion a nodir yn y dogfennau cychwyn prosiect cychwynnol.

5.14 Mewn gwirionedd, mae'r adolygiad hwn yn wiriad o berfformiad yn erbyn y cynnig gwreiddiol. Mae'n canolbwyntio ar y canlyniadau a gyflawnwyd, i ba raddau y mae'r buddion a honnir yn cael eu gwireddu, y costau gwirioneddol – o ran refeniw a chyfalaf, effaith cyllid arall a gweithio mewn partneriaeth. Yna, gall Heddlu Dyfed-Powys ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddysgu gwersi a gwneud unrhyw welliannau a nodwyd wrth weithredu'r prosiect.

5.15 Caiff llwyddiant parhaus prosiectau ei fonitro drwy nifer o fecanweithiau megis adborth gan swyddogion, ymgynghoriadau cyhoeddus ac adborth gan gwsmeriaid.

## 6 Gwerthu asedau

6.1 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod yr angen i werthu asedau dros ben neu asedau sy'n anaddas er mwyn helpu i gyflawni nodau corfforaethol y sefydliad a chyflawni ei raglen gyfalaf, ac mae'r broses fanwl ar gyfer gwerthu asedau wedi'i chynnwys yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Mae nifer o eiddo eisoes wedi'u gwerthu a bydd cynlluniau i farchnata eiddo pellach yn cael eu gwneud ar y cyd â chyflawni'r Strategaeth Ystadau yn unol â chyfrifoldebau ehangach y Comisiynydd.

## 7 Casgliad

8.1 Mae'r strategaeth gyfalaf hon yn ystyried pob agwedd ar reoli cyfalaf, yn nodi'r dulliau ar gyfer asesu prosiectau ac asedau cyfalaf ac yn amlinellu'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2022/23 a 2027/28, gyda rhagolygon ehangach hyd at 2031/32. Dylid darllen y strategaeth ar y cyd â'r Strategaeth Ystadau, y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a'r Strategaeth Fflyd, y Strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys manwl, sy'n ymdrin â gofynion Cod Darbodus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

# Atodiad G – Y Rhaglen Gyfalaf rhwng 2022/23 a 2031/32

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

| | Revised 2022/23 £M | 2023/24 £M | 2024/25 £M | 2025/26 £M | 2026/27 £M | 2027/28 £M | 2028/29 £M | 2029/30 £M | 2030/31 £M | 2031/32 £M | Total £M |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Land and Buildings | 15.610 | 11.199 | 16.351 | 12.839 | 2.411 | 2.366 | 2.175 | 2.175 | 2.175 | 4.666 | 71.967 |
| Fleet and Transportation | 1.918 | 1.280 | 2.014 | 1.680 | 1.875 | 1.834 | 1.916 | 2.003 | 2.094 | 2.190 | 18.804 |
| Infrastructure and Other Equipment | 5.097 | 5.754 | 3.260 | 4.668 | 5.705 | 4.291 | 5.374 | 4.931 | 4.886 | 3.817 | 47.783 |
| **Total Capital Spending** | **22.625** | **18.233** | **21.624** | **19.187** | **9.991** | **8.491** | **9.465** | **9.109** | **9.156** | **10.673** | **138.555** |
| | | | | | | | | | | | |
| Direct Revenue Financing | -2.948 | -2.306 | -2.675 | -3.711 | -6.192 | -6.192 | -6.192 | -6.192 | -6.192 | -6.192 | -48.790 |
| Capital Receipts | -0.050 | -0.400 | -0.500 | -0.050 | -0.050 | -0.050 | -0.050 | -0.050 | -0.050 | -0.050 | -1.300 |
| Grants and Contributions | -0.203 | -0.050 | -0.050 | -0.070 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | -0.374 |
| Borrowing | -15.610 | -11.199 | -17.962 | -15.354 | -3.749 | -2.249 | -3.224 | -2.868 | -2.914 | -4.432 | -79.560 |
| Other and Reserves | -3.814 | -4.279 | -0.438 | -0.001 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | -8.532 |
| **Total Capital Financing** | **-22.625** | **-18.234** | **-21.624** | **-19.187** | **-9.991** | **-8.491** | **-9.465** | **-9.109** | **-9.156** | **-10.673** | **-138.555** |